

GWAITH MAREDUDD AP RHYS
A'I GYFOEDION

golygwyd gan

ENID ROBERTS



ABERYSTWYTH
CANOLFAN UWCHEFRYDIAU CYMREIG A CHELTAIDD
PRIFYSGOL CYMRU
2003

© Prifysgol Cymru ©, 2003.

Adargraffiad PDF gyda mân gywiriadau, 2023.

Cyhoeddir y gwaith hwn dan drwydded [CC BY-NC-SA 4.0](https://creativecommons.org/licenses/by-nc-sa/4.0/).



Am ymholiadau ynglŷn â hawliau atgynhyrchu eraill, cysyllter â'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH.

Y mae cofnod catalogio'r llyfr hwn ar gael gan y Llyfrgell Brydeinig.

ISBN 0 947531 46 7

Cysodwyd gan staff Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru.

Cydnabyddir yn ddiolchgar gefnogaeth ariannol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant tuag at baratoi'r adargraffiad digidol hwn. Am wybodaeth bellach cysyllter ag Ann Parry Owen, apo@cymru.ac.uk.

Llun y Clawr

Manyl yn furlun canoloesol 'Saith Weithred y Drugaredd' a welir yn Eglwys y Santes Fair, Rhiwabon, lle y bu Maredudd ap Rhys yn ficer. Hawlfraint y Goron: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru.

Rhagair

Bu'r Dr Enid Roberts, un o'n hawdurdodau pennaf ar Feirdd yr Uchelwyr, yn gweithio ers blynyddoedd ar farddoniaeth Maredudd ap Rhys a'i gymheiriaid, a braint yn wir i ni yng Nghanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru yw cael cyhoeddi ei chasgliad ar ei rhan. Y mae'r dull golygyddol a fabwysiadwyd gan Dr Roberts beth yn wahanol i'r un y cytunwyd arno ar gyfer 'Cyfres Beirdd yr Uchelwyr' a gynhyrchir gan y Ganolfan, ac felly penderfynwyd mai fel cyfrol ar wahân i'r Gyfres y dylid ystyried hon. Yr ydym yn ffyddiog, fodd bynnag, y ceir y bydd cynnwys y gyfrol, wedi'i egluro gan Dr Roberts gyda'i dysg a'i medr arferol, yn taflu goleuni llachar ar y cyfnod y mae'n perthyn iddo; a mawr yw'n diolch i Dr Roberts am ei llafur gwiw.

Geraint H. Jenkins
Mai, 2003

Dull y golygu

Wrth gyflwyno'r testunau golygedig, rhoddir darlenniadau amrywiol y llawysgrifau yn yr 'Amrywiadau' ar waelod y testun. Os yw darlenniad amrywiol yn digwydd mewn grŵp o lawysgrifau, cofnodir ef yn orgraff y llawysgrif hynaf yn y grŵp hwnnw. Os oes gair neu ran o linell yn eisiau mewn llawysgrif, nodir hynny drwy roi'r gair neu'r geiriau (yn orgraff y testun golygedig) mewn bachau petryal. Os oes llinell neu linellau yn eisiau mewn llawysgrif, nodir y rheini mewn bachau petryal. Os yw gair neu eiriau'n annarllenadwy neu wedi eu dileu oherwydd staen, twll, &c., dynodir hynny â bachau petryal gwag.

Cyflwynir y testun mewn orgraff Cymraeg Diweddar ac wedi ei briflythrennu a'i atalnodi. Diweddarwyd orgraff a sain geiriau, oni bai fod y gynghanedd yn gofyn am sain Gymraeg Canol (gw. GDG³ xlvii); er enghraifft, diweddarwyd *-aw-*, *-aw* yn *o* pan oedd angen (oni bai fod yr odl yn hawlio cadw'r *aw*) ac *-ei-*, *-ei* yn *ai*. Ond ni ddiweddarwyd ffurfiau Cymraeg Canol dilys megis *fal*, *no(g)*, *ymy*, *yty* (sef 'imi', 'iti'), *wyd* (sef 'wyt'), *(g)wedy*, &c.

Yn yr Eirfa ar ddiwedd gwaith y bardd rhestrir y geiriau a drafodir yn y nodiadau (nodir hynny ag 'n'). Rhestrir hefyd eiriau dieithr neu eiriau sy'n digwydd mewn ystyr wahanol i'r arfer, gan gynnig aralleiriad ar eu cyfer. Yn y mynegeion i enwau priod rhestrir pob enw person a phob enw lle sy'n digwydd yn y cerddi.

Diolchiadau

Carwn gydnabod gyda diolch gymorth y rhai canlynol: y diweddar Derwyn Jones, cyn-lyfrgellydd Cymraeg Prifysgol Cymru Bangor, a fu gymaint cymorth i mi gyda'r cynganeddion dros flynyddoedd lawer; ef sy'n bennaf cyfrifol am y sylwadau ar y cynganeddion yn y gyfrol hon ac y mae'n drist meddwl na allaf gyflwyno copi iddo. Bu Mr Dafydd Ifans, Pennaeth Casgliadau Arbennig y Llyfrgell Genedlaethol, yn hael a pharod ei gymwynas dro ar ôl tro. Yr Athro Emeritws R. Geraint Gruffydd a awgrymodd fod Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru Aberystwyth yn cyhoeddi'r gwaith, a mawr yw fy niolch iddo ef ac i'r Athro Geraint H. Jenkins am ei dderbyn, ac yn arbennig i Dr Ann Parry Owen am ei gofal manwl wrth olygu'r gwaith gan ychwanegu cyfeiriadau at lyfrau oedd heb eu cyhoeddi pan oeddwn i'n trefnu'r nodiadau.

Enid Roberts
Ebrill 2003

Cynnwys

RHAGAIR	iii
DULL Y GOLYGU	iv
DIOLCHIADAU	v
BYRFODDAU	
Llyfryddol	ix
Termau a Geiriau	xvi

GWAITH MAREDUDD AP RHYS A'I GYFOEDION

RHAGYMDRODD	1
-------------	---

TESTUN

1.	Cywydd y fwyall	23
2.	Cywydd i Grog Caerlleon	25
3.	Cywydd hiraeth am Syr Rhys	28
4.	Mawl Syr Siôn Mechain, person Llandrunio	30
5.	I Syr Siôn Mechain, person Llandrunio	32
6.	I Wiliam Eutun i ofyn bwa	34
7.	Cywydd i ofyn rhwyd bysgota gan Ifan ap Tudur o Lanufudd	36
8.	Cywydd i Ifan ap Tudur o Lanufudd i ddiolch am y rhwyd	39
9.	Cywydd i ofyn cwrwgl gan Siôn Eutun gan Ifan Fychan ab Ifan ab Adda	41
10.	Cywydd ateb	44
11.	Cywydd ateb iddo yntau gan Ifan Fychan ab Ifan ab Adda	47
12.	Englynion i Siôn Eutun ac i Faredudd ap Rhys	50
13.	Marwnad y Brenin Edward IV	52
14.	Cywydd y gwynt	55
15.	Cywydd i'r byd	59
16.	Cywydd i Dduw	62
17.	Cywydd i'r byd	65
18.	Cywydd i Fair	68
19.	Cywydd yn erbyn cybydd-dra'r byd	70
20.	Cywydd yn erbyn caru'r byd	73
21.	Cywydd merch	77

22.	Cywydd i wraig ieuanc.....	79
23.	Mawl i wraig a gogan i'w gŵr	81
24.	Cywydd y daran.....	83
25.	Cywydd i hen lyfr brud	86
26.	Cywydd brud	89
27.	Cywydd y gigfran.....	92
28.	Cywydd brud	95
29.	Cywydd brud	97
30.	Cywydd a fu rhwng Syr Rhys o Garno a Dafydd Llwyd ap Llywelyn ap Gruffudd o Fathafarn ynghylch cymhortha defaid	99

NODIADAU	103
GEIRFA	137
Enwau personau	142
Enwau lleoedd.....	144

LLAWYSGRIFAU	145
MYNEGAI I'R LLINELLAU CYNTAF	155
MYNEGAI I'R NODDWYR A'R GWRTHRYCHAU	157

Byrfoddau

Llyfryddol

- AAST *Anglesey Antiquarian Society and Field Club Transactions* (1913–)
- Arch Camb *Archaeologia Cambrensis*, 1846–
- Arm P *Armes Prydein*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1955)
- B *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, 1921–93
- Bangor Llawysgrif yng nghasgliad Prifysgol Cymru, Bangor
- Bangor (Mos) Llawysgrif yng nghasgliad Bangor (Mostyn) ym Mhrifysgol Cymru, Bangor
- Bangor (Penrhos) Llawysgrif yng nghasgliad Bangor (Penrhos) ym Mhrifysgol Cymru, Bangor
- BaTh *Beirdd a Thywysogion: Barddoniaeth Llys yng Nghymru, Iwerddon a'r Alban*, gol. Morfydd E. Owen a Brynley F. Roberts (Caerdydd ac Aberystwyth, 1996)
- BD *Brut Dingestow*, gol. Henry Lewis (Caerdydd, 1942)
- Bettisfield 'A Schedule of the Bettisfield Manuscripts and Documents' (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1947)
- BL Add Llawysgrif Ychwanegol yng nghasgliad y Llyfrgell Brydeinig, Llundain
- Bodewryd Llawysgrif yng nghasgliad Bodewryd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- Bodley Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Bodley, Rhydychen

- Brog Llawysgrif yng nghasgliad Brogyntyn, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- ByCy *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953)
- CA *Canu Aneirin*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1938)
- CAMBM *Catalogue of Additions to the Manuscripts in the British Museum*
- Card Llawysgrif yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd
- Chirk Castle 'A Schedule of the Chirk Castle Manuscripts and Documents' (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1954)
- CLC² *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*, gol. Meic Stephens (ail arg., Caerdydd, 1997)
- CM Llawysgrif yng nghasgliad Cwrwmawr, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- CSTB *Cywyddau Serch y Tri Bedo*, gol. P.J. Donovan (Caerdydd, 1982)
- CTC C.T. Beynon Davies, 'Cerddi'r Tai Crefydd' (M.A. Cymru [Bangor], 1973)
- Cylchg LIGC *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 1939–
- DE *Gwaith Dafydd ab Edmwnd*, gol. Thomas Roberts (Bangor, 1914)
- DGA *Selections from the Dafydd ap Gwilym Apocrypha*, ed. Helen Fulton (Llandysul, 1996)
- DGIA Huw M. Edwards, *Dafydd ap Gwilym: Influences and Analogues* (Oxford, 1996)
- DN *The Poetical Works of Dafydd Nanmor*, ed. Thomas Roberts and Ifor Williams (Cardiff and London, 1923)
- DWB *The Dictionary of Welsh Biography down to 1940* (London, 1959)
- EEW T.H. Parry-Williams, *The English Element in Welsh* (London, 1923)

- Esgair Llawysgrif yng nghasgliad Esgair, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- Études *Études celtiques*, 1936–
- GDG *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (Caerdydd, 1952)
- GDG³ *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (trydydd arg., Caerdydd, 1979)
- GDGor *Gwaith Dafydd Gorlech*, gol. Erwain Haf Rheinallt (Aberystwyth, 1997)
- GDLI *Gwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn*, gol. W. Leslie Richards (Caerdydd, 1964)
- GGI² *Gwaith Guto'r Glyn*, gol. J. Llywelyn Williams ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1961)
- GGLI *Gwaith Gruffudd Llwyd a'r Llygliwiaid Eraill*, gol. Rhiannon Ifans (Aberystwyth, 2000)
- GHS *Gwaith Hywel Swrdwal a'i Deulu*, gol. Dylan Foster Evans (Aberystwyth, 2000)
- GIBH *Gwaith Ieuan Brydydd Hir*, gol. M. Paul Bryant-Quinn (Aberystwyth, 2000)
- GIG *Gwaith Iolo Goch*, gol. D.R. Johnston (Caerdydd, 1988)
- GLGC *Gwaith Lewys Glyn Cothi*, gol. Dafydd Johnston (Caerdydd, 1995)
- GLM *Gwaith Lewys Môn*, gol. Eurys I. Rowlands (Caerdydd, 1975)
- GLIBH *Gwaith Llywelyn Brydydd Hoddnant, Dafydd ap Gwilym, Hillyn ac eraill*, gol. Ann Parry Owen a Dylan Foster Evans (Aberystwyth, 1996)
- GM *Gwassanaeth Meir*, gol. Brynley F. Roberts (Caerdydd, 1961)
- GO *L'œuvre poétique de Gutun Owain*, gol. E. Bachellery (Paris, 1950–1)
- GOLIM *Gwaith Owain ap Llywelyn ab y Moel*, gol. Eurys Rolant (Caerdydd, 1984)

- GP *Gramadegau'r Penceirddiaid*, gol. G.J. Williams ac E.J. Jones (Caerdydd, 1934)
- GPC *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd, 1950–)
- GSCMB 'Guide to the Special Collections of Manuscripts in the Library of the University College of North Wales Bangor' (cyfrol anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru, Bangor, 1962)
- GSRh *Gwaith Sefnyn, Rhisierdyn, Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed a Llywarch Bentwrch*, gol. Nerys Ann Jones ac Erwain Haf Rheinallt (Aberystwyth, 1995)
- GST *Gwaith Siôn Tudur*, gol. Enid Roberts (Caerdydd, 1980)
- GTP *Gwaith Tudur Penllyn ac Ieuan ap Tudur Penllyn*, gol. Thomas Roberts (Caerdydd, 1958)
- Gwyn Llawysgrif yng nghasgliad J. Gwyneddon Davies, yn Llyfrgell Prifysgol Cymru, Bangor
- HMNLW *Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales* (Aberystwyth, 1943–)
- HPF *The History of Powys Fadog*, J.Y.W. Lloyd (6 vols., London, 1881–7)
- HS *Gwaith Barddonol Howel Swrdwal a'i fab Ieuan*, gol. J.C. Morrice (Bangor, 1908)
- IGE *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill*, gol. Henry Lewis, Thomas Roberts ac Ifor Williams (Bangor, 1925)
- IGE² *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill*, gol. Henry Lewis, Thomas Roberts ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1937)
- Io 'Yr Efengyl yn ôl Sant Ioan' yn y Testament Newydd
- J Llawysgrif yng nghasgliad Coleg Iesu, Rhydychen
- LGC *The Poetical Works of Lewis Glyn Cothi*, ed. Tegid and Gwallter Mechain (Oxford, 1837–9)

- LIA *The Elucidarium ... from Llyvyr Agkyr Llandewi-vrevi, A.D. 1346*, ed. J. Morris Jones and John Rhŷs (Oxford, 1894)
- Llawdden, &c.: Gw M.G. Headley, 'Barddoniaeth Llawdden a Rhys Nanmor' (M.A. Cymru [Bangor], 1937)
- LICy *Llên Cymru*, 1950–
- LIDC *Llyfr Du Caerfyrddin*, gol. A.O.H. Jarman (Caerdydd, 1982)
- LIGC Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- Llst Llawysgrif yng nghasgliad Llansteffan, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- Math 'Yr Efengyl yn ôl Sant Mathew' yn y Testament Newydd
- MFGLI *Mynegai i Farddoniaeth Gaeth y Llawysgrifau* (Caerdydd, 1978)
- Mont Coll *Collections Historical and Archaeological ... by the Powysland Club*, 1868–
- J. Morris-Jones: CD John Morris-Jones, *Cerdd Dafod* (Rhydychen, 1925)
- Mos Llawysgrif yng nghasgliad Mostyn, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- MWM Daniel Huws, *Medieval Welsh Manuscripts* (Cardiff and Aberystwyth, 2000)
- NCE *New Catholic Encyclopedia* (New York, 1967–79)
- OCD³ *The Oxford Classical Dictionary*, ed. Simon Hornblower and Antony Spawforth (third ed., Oxford, 1996)
- OCEL *The Oxford Companion to English Literature*, ed. Paul Harvey, fourth ed., revised by Dorothy Eagle (Oxford, 1973)
- ODCC³ *The Oxford Dictionary of the Christian Church*, ed. F.L. Cross and E.A. Livingstone (third ed., Oxford, 1997)

- OED² *The Oxford English Dictionary* (second ed., Oxford, 1989)
- Ormerod George Ormerod, *The History of the County Palatine and City of Chester* (3 vols., second ed., London, 1882)
- Pant Llawysgrif yng nghasgliad Panton, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- Pen Llawysgrif yng nghasgliad Peniarth, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- PKM *Pedair Keinc y Mabinogi*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1930)
- RWM *Report on Manuscripts in the Welsh Language*, ed. J. Gwenogvryn Evans (London, 1898–1910); fe'i defnyddir hefyd i ddynodi rhif llawysgrif yng nghatalog J.G.E.
- SCWMBLO F. Madan and H.H.E. Craster, *Summary Catalogue of Western Manuscripts in the Bodleian Library at Oxford* (Oxford, 1924)
- T *The Text of the Book of Taliesin*, ed. J. Gwenogvryn Evans (Llanbedrog, 1910)
- TA *Gwaith Tudur Aled*, gol. T. Gwynn Jones (Caerdydd, 1926)
- TCHSDd *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, 1952–
- D.R. Thomas: HDStA D.R. Thomas, *The History of the Diocese of Saint Asaph* (3 vols., Oswestry, 1908–13)
- THSC *The Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, 1892/3–
- TYP² *Trioedd Ynys Prydein*, ed. Rachel Bromwich (second ed., Cardiff, 1978)
- WATU Melville Richards, *Welsh Administrative and Territorial Units* (Cardiff, 1969)
- WCCR² Glanmor Williams, *The Welsh Church from Conquest to Reformation* (second ed., Cardiff, 1976)

- WCD P.C. Bartrum, *A Welsh Classical Dictionary: People in History and Legend up to about A.D. 1000* (Aberystwyth, 1993)
- WM *The White Book Mabinogion*, ed. J. Gwenogvryn Evans (Pwllheli, 1907)
- WS *A Dictionary in Englyshe and Welshe*, ed. William Salesbury (London, 1547; adargraffiad 1877, 1969)
- WWR² H.T. Evans, *Wales and the Wars of the Roses* (second ed., Stroud, 1995)
- YCM² *Ystorya de Carolo Magno*, gol. Stephen J. Williams (ail arg., Caerdydd, 1968)

Termau a geiriau

a.	ansoddair, -eiriol	g.	gwrywaidd
<i>a.</i>	<i>ante</i>	gn.	geiryn
adf.	adferf	gol.	golygydd, golygwyd gan
amhff.	amherffaith	grb.	gorberffaith
amhrs.	amhersonol	grch.	gorchmynnol
anh.	anhysbys	grff.	gorffennol
ardd.	arddodiad, -iaid	gthg.	gwrthgyferbynier, -iol
arg.	argra'ad	gw.	gweler
<i>art.cit.</i>	<i>articulo citato</i>	Gwydd.	Gwyddeleg
b.	benywaidd	H.	Hen
ba.	berf anghyflawn	<i>ib.</i>	<i>ibidem</i>
be.	berfenw	<i>id.</i>	<i>idem</i>
bf. (f.)	berf, -au	<i>l.c.</i>	<i>loco citato</i>
<i>c.</i>	<i>circa</i>	ll.	lluosog; llinell
c. (g.)	canrif	Llad.	Lladin
C.	Canol	llau.	llinellau
cf.	cymharer	llsgr.	llawysgrif
cfrt.	gradd gyfartal	llsgrau.	llawysgrifau
Clt.	Celteg, Celtaidd	m.	mewnol
cmhr.	gradd gymharol	myn.	mynegol
Cym.	Cymraeg	n.	nodyn
cys.	cysylltair, cysylltiad	neg.	negydd, -ol
d.g.	dan y gair	<i>ob.</i>	<i>obiit</i>
dib.	dibynnol	<i>op.cit.</i>	<i>opere citato</i>
dyf.	dyfodol	pres.	presennol
e.	enw	prff.	perffaith
eb.	enw benywaidd	prs.	person, -ol
e.c.	enw cyffredin	pth.	perthynol
ed.	<i>edited by, edition</i>	r	<i>recto</i>
e.e.	er enghraifft	rh.	rhagenw, -ol
eg.	enw gwrywaidd	S.	Saesneg
e.p.	enw priod	<i>sc.</i>	<i>scilicet</i>
<i>ex inf.</i>	<i>ex informatione</i>	<i>s.n.</i>	<i>sub nomine</i>
f.	ffolio	td.	tudalen
<i>fl.</i>	<i>floruit</i>	un.	unigol
ff.	ffolios	v	<i>verso</i>
Ffr.	Ffrangeg	vols.	volumes
g.	(c.) canrif		

Rhagymadrodd

Tybed a ydym ni'n coleddu syniadau rhy gyfyng am gynnwys llenyddol ac ymddygiad cymdeithasol cyfnod beirdd yr uchelwyr? Y duedd gyffredin yw meddwl am yr holl frawdoliaeth fel beirdd trwyddedig, swyddogol, proffesiynol, mawr eu gofal am safonau'r grefft, yn crwydro'r wlad o lys uchelwr i lys uchelwr i ganu mawl a marwnad am dâl penodedig, a'r bardd a'i ganu a'i ymddygiad yn gorfod cydymffurfio â chonfensiynau'r gymdeithas ac â'r cyfarwyddiadau a osodwyd yn y gramadegau ynghylch yr hyn sy'n haeddu ei foli a'r modd y dylid gwneud hynny. Nid wyf am funud yn gwadu bodolaeth dosbarth barddol o'r fath; ond yr un mor sicr yr oedd hefyd fath arall o feirdd, teilwng a chrefftus—nid rhigymwyr pen-ffordd na beirdd talcen slip mohonynt—yn ymarfer y canu caeth ac yn ymhyfrydu ynddo. Beirdd yn canu ar eu bwyd eu hunain oedd y rhain. Byddent yn cellwair â'i gilydd ac ag ambell uchelwr a bardd swyddogol, yn canu mawl a gogan y naill i'r llall, ond ni fyddent yn clera, nac yn canu mawl am dâl. Efallai na cheir ganddynt glyfrwch gweu brawddegau drwy'i gilydd fel yng nghywydd moliant Guto'r Glyn i Wiliam Fychan o'r Penrhyn,¹ na chanu dau a thri syniad fel cywydd Tudur Penllyn i Ddafydd ap Siancyn, yr herwr o Ddyffryn Conwy,² nac ysblander addurnol odl a chyseinedd Dafydd ab Edmwnd.³ Canu syml ac uniongyrchol oedd gwaith y beirdd hyn; dweud y neges yn glir a oedd yn bwysig iddynt. Yr oeddynt yn rhydd oddi wrth y confensiynau yr oedd rhaid i'r beirdd swyddogol eu parchu, oddi wrth y delfrydu ystrydebol ac undonog; ni ddisgwylid iddynt blesio neb, ac y mae rhyw ffresni iach yn eu gwaith.

Yr oedd amryw o'r dosbarth hwn a oedd yn canu yn nhalait Mathrafal yn y bymthegfed ganrif yn offeiriad: Maredudd ap Rhys, Syr Rhys o Lanbryn-mair a Charno, Syr Siôn Leiaf a Syr Gruffudd Leiaf. Teitl offeiriad heb radd oedd 'Syr'; pe bai ganddo radd byddai'n debyg o fod yn M.A., yna byddai'n *Master Parson*. Ond nid oedd bod yn ddi-radd yn golygu bod yn ddi-ddysg; byddai llawer yn gadael y brifysgol heb aros y cyfnod angenrheidiol i raddio, a pha un bynnag yr oedd gan y beirdd eu dysg eu hunain, dysg eithriadol eang a chyfoethog. Ni chyfeirir byth at Faredudd ap Rhys fel 'Syr Maredudd', ond ni sonnir ychwaith am nac athro na choleg. A oedd ganddo ryw swydd offeiriadol a oedd yn ei godi uwchlaw'r 'Syr' cyffredin? Darpar offeiriad oedd y bardd Ieuan ap Hywel Swrddwal o'r

¹ GGI² 52-4 (XIX).

² GTP 3 (cerdd 1).

³ E.e. DE 13-15 (VIII), 73-6 (XL).

Drenewydd a fu farw yn Rhydychen cyn gorffen ei gwrs gradd.⁴ Yn ôl traddodiad, offeiriad neu gurad ym Machynlleth oedd Llawdden;⁵ nid oes dim yn ei waith i awgrymu hynny, a chan y byddai'n clera llawer ni ellir ei gynnwys gyda'r beirdd hyn. Nid oes prawf fod Syr Siôn Mechain (cerddi 4 a 5) yn prydyddu, ond yr oedd yn hael ei groeso i'r beirdd a'i reithordy yn Llandrunio yn gychfan i amryw.⁶

Dim ond enghreifftiau o waith dau o gyfoedion Maredudd ap Rhys—Ifan Fychan ab Ifan ab Adda a Syr Rhys o Lanbryn-Mair a Charno—a gynhwysir yma, cywyddau sy'n cysylltu'n agos ag ef.

Heb amheuaeth, y mwyaf toreithiog ei awen, a'r bardd gorau o blith y cyfoedion oedd Maredudd ap Rhys; i roi iddo ei ach yn llawn: Maredudd ap Rhys ap Gruffudd ap Madog Llwyd ab Iorwerth Foel ab Iorwerth Fychan ab yr Hen Iorwerth ab Owain. Gwraig Owain oedd Efa ferch Madog ap Gwenwynwyn, a gwraig Iorwerth Fychan oedd Catrin ferch Gruffudd ap Llywelyn ab Iorwerth Drwyndwn; byddai gwaed tywysogion Gwynedd a Phowys yng nghyathiennau'r disgynyddion. O Ednyfed Gam, brawd Madog Llwyd, y disgyn teulu Pengwern (Mostyn yn ddiweddarach), teuluoedd Eutun, Edwardiaid y Waun a'r Treforiaid; nid oes amheuaeth ynghylch bonedd uchelwrol Maredudd ap Rhys.

Trwy ymgynghori â HPF iv, 54, Llyfr Achau Edward ap Roger o Riwabon (wŷr Siôn Eutun (cerdd 6), Pen 128, 166 a 517–18), traethawd yr Athro A.D. Carr, 'The Mostyn Family and Estate, 1200–1642' (Ph.D. Cymru [Bangor], 1975), a'i erthygl ar y teulu yn THSC, 1979, 137–57, dogfennau yng nghasgliadau Chirk Castle, Bettisfield, Bangor (Mos), a llawysgrif rhif 4085, tt. 4693–4, yn Archifdy Amwythig, gellir awgrymu'r cart achau a lleoliad eu tiroedd, tt. 3–4 isod.



Gan mai mab ail briodas oedd Maredudd ap Rhys, a bod tri mab o'r briodas gyntaf, y mae'n eithaf posibl nad oedd etifeddiaeth dirol ar ei gyfer, ac mai dyna paham yr aeth yn offeiriad. Byddai cael rheithoriaethau yn sicrhau incwm degymau iddo, ac yr oedd Meifod a'r Trallwm yn blwyfi cyfoethog. Fel Syr Rhys (testun cerdd 3 ac awdur cerddi 28–30), yr oedd yn briod; ni dderbyniodd offeiriaid Cymru erioed wryfydod ac ni welai nac awdurdodau'r Eglwys na'r wladwriaeth ddim o'i le yn hynny, neu o leiaf yr oeddynt yn dewis cau llygar ar yr afreoleidd-dra.


Yn ôl Edward ap Roger bu farw plant Siôn ap Maredudd ap Rhys yn ddi-etifeddion ond Elisabeth (*sic*) a briododd â Dafydd ap Madog ab Ieuan Fychan; eu mab hwy, Robert, a fargeiniodd ei dir â Rhys Eutun, Sarsiant.

⁴ HS viii; GHS 13–17, cerddi 24–33.

⁵ Llawdden, &c.: Gw i, xvi.

⁶ GGI² 273–6 (CVI, CVII); GOLIM 52–3 (atodiad). Yr oedd cartref Syr Siôn Mechain yn dŷ agored i'r beirdd. Canodd Llywelyn ap Gutun gywydd i Syr Siôn Mechain i ofyn am sbectol yr un iddo ef a'i gâr Owain, prydydd, wŷr y Moel. Os na chânt sbectol *awn fyth, er nas mynnai fo, / i'r gotel lle mae'r Guto*.

Disgynyddion Iorwerth Foel*Disgynyddion Madog Llwyd*⁷ Gw. 'Disgynyddion Ednyfed Gam', td. 4.

Disgynyddion Ednyfed Gam

Yr oedd gan Iorwerth Foel diroedd helaeth ym Maelor Saesneg ac yn Nanheudwy, a llwyddodd ei feibion i ychwanegu atynt. Yr oedd gan Fadog Llwyd diroedd yn Gredington, plwyf Hanmer,¹³ ac ym Mangor Is-coed,¹⁴ yng Ngwern Osbynt a Rhos-y-Waun ganol y bedwaredd ganrif ar ddeg;¹⁵ yno hefyd, yn nhrefi degwm y Waun, Gwern Osbynt a'r Waun Isa, yr oedd tiroedd gan Rys ap Gruffudd, tad Maredudd, yn 1427.¹⁶

⁸ Gw. cerddi 9, 11, 12.

⁹ Gw. 'Disgynyddion Madog Llwyd', td. 3.

¹⁰ Gw. cerddi 9, 11, 12.

¹¹ Gw. cerdd 6.

¹² Gw. cerdd 6.

¹³ Bettisfield, tt. 62–3, rhif 356.

¹⁴ *Ib.* td. 116, rhif 348.

¹⁵ Chirk Castle, V, tt. 2–3, rhifau 1075 a 951.

¹⁶ *Ib.* td. 10, rhif 920.

Ni ellir ond bwrw bras amcan am ddyddiadau'r bardd ei hun. Yn ôl D.R. Thomas yn ei astudiaeth o esgobaeth Llanelwy yr oedd yn ficer Rhiwabon yn 1430,¹⁷ yn rheithor y Trallwm yn 1450,¹⁸ ac yn segur-reithor Meifod yr un pryd.¹⁹ Nodir bob tro ei fod yn fardd ac mai ef oedd athro barddol Dafydd ab Edmwnd. Dilyn D.R. Thomas y mae'r Archddiacon T.W. Pritchard yn ei lyfryn ar eglwys Rhiwabon wrth nodi 1430 ar ei gyfer.²⁰ Yn *Cerdd Dafod*, c. 1440 yw'r dyddiad a awgrymir.²¹ Tystia Thomas Roberts mai 'Maredudd ap Rhys oedd athraw barddonol Dafydd ab Edmwnd';²² nodi hynny hefyd yn ei erthygl arno yn *The Dictionary of Welsh Biography*.²³ Fel y gwelir oddi wrth y cart achau yr oedd y ddau yn gyfyrdyr. Y dyddiad blodeuo a roddir i Ddafydd ab Edmwnd yw 1450–97. Gan mai â'i enw ef y cysylltir y drefn a'r dosbarth a wnaed ar y mesurau a'r cynganeddion yn Eisteddfod Caerfyrddin, ac mai ef a enillodd y gadair arian yn yr eisteddfod honno, nid newyddian mohono ddechrau'r pumdegau; rhaid ei fod yn prydyddu ers tro, a Maredudd ap Rhys, i fod yn athro arno, yn gynharach na hynny. Ni welaf unrhyw reswm dros amau nad Maredudd ap Rhys yw awdur cerdd 13, 'Marwnad y Brenin Edward IV', 1483. Yn ei hen ddyddiau, yn grupl ac yn ddall, cafodd Guto'r Glyn loches a chynhaliaeth yn abaty Glyn-y-groes. Mewn cywydd mawl i'r abad Dafydd ab Ieuan ab Iorwerth cwyna fod Maredudd ap Rhys, Gruffudd ap Dafydd ac Edward ap Dafydd ap Gwilym yn cenfigennu wrtho ac yn ceisio ei fwrw allan. Yr oedd Maredudd ap Rhys yn *rhy chwannog*,

Mynnai dâl mwy no dwyls.
Anfones ym anfwyn sôn,
Wrth ei raib, arth Riwabon.²⁴

Yn 1480 y dyrchafwyd Dafydd ab Ieuan ab Iorwerth yn abad Glyn-y-groes,²⁵ a'r tebyg yw nad ar fyr dro wedi hynny y bu'r cyhuddiad uchod. Os felly, y mae'r dyddiad 1430 iddo fel ficer Rhiwabon braidd yn gynnar; gallai c. 1440 neu c. 1445 fod yn nes i'w le.

Bu farw Wiliam Eutun (cerdd 6) yn 1479. Yr oedd ei nai, Siôn Eutun y gofynnir drosto am fwa, gyda Harri Tudur ym Maes Bosworth yn 1485, a bu fyw hyd 1526, yn ôl y dyddiad ar y cerflun ohono ef a'i wraig yn eglwys Rhiwabon.²⁶ Ai tua diwedd y chwedegau neu ddechrau'r saithdegau y canwyd y cywydd hwn? Bu farw Siôn Eutun (Hen) (cerdd 9), tad Wiliam

¹⁷ Gw. D.R. Thomas: HDStA iii, 286.

¹⁸ *Ib.* 184.

¹⁹ *Ib.* i, 502.

²⁰ T.W. Pritchard, *Ruabon Parish Church Denbighshire* (Much Wenlock, 1998), 29.

²¹ J. Morris-Jones: CD xxiv.

²² DE xiii.

²³ DWB 627–8.

²⁴ GGI² 301 (CXVII.25, 28–30).

²⁵ David H. Williams, *The Welsh Cistercians*, vol. 1 (Caldey Island, 1984), 81.

²⁶ T.W. Pritchard, *op.cit.* 5–6.

Eutun, yn 1477,²⁷ a'r un flwyddyn bu farw Ifan Fychan ab Ifan ab Adda,²⁸ awdur cerddi 9, 11 a rhan o 12. Gellid cynnig amseru cerddi 9–12 tua diwedd y chwedegau neu'r saithdegau cynnar. Dyddiwyd ewylllys Robert Fychan, wŷr Ifan ap Tudur o Lanufudd (cerddi 7 ac 8), 5 Mehefin 1543;²⁹ gallai'r ddau gywydd hyn berthyn yn fras i'r un cyfnod â cherddi 9–12.

Amrywia enw'r bardd-uchelwr, awdur cerddi 9, 11 a rhan o 12; ambell waith gelwir ef yn Ieuan Fychan ab Ieuan ab Adda, ond y mae odl a chynghanedd y cerddi hyn yn profi mai'r ffurf Ifan a ddefnyddiai Maredudd ap Rhys (ac eithrio 10.55). Yr oedd perthynas bell rhyngddynt: yr oedd y ddau, fel Syr Siôn Mechain (cerddi 4 a 5) yn disgyn o Iorwerth Foel, gw. y cart achau tt. 3–4 a cherdd 4 isod.

Am hanes Ifan Fychan ab Ifan ab Adda, gw. traethawd yr Athro A.D. Carr, 'The Mostyn Family and Estate, 1200–1642', 30–44. Yr oedd Adda, a briodasai ag Isabel, chwaer Owain Glyndŵr, wedi marw cyn y gwrthryfel, ond yr oedd ei fab, Ifan ab Adda, i ganlyn Owain; y mae ei enw ef a'i wraig Angharad (aeres Ednyfed ap Tudur ap Gronw o Dre Castell, Môn), ar restr y rhai a oedd heb ildio yn 1406. Erbyn 1409 yr oedd yn ôl ar ei diroedd heb gollu dim. Trwy ei fam yr oedd yn orwyr i Dudur ap Gronw o Benmynydd, Môn, ac felly'n gyfyrdur i Siasbar Tudur (28.50, 64). Priododd ei fab, Ifan Fychan, ag Angharad, ferch ac aeres Hywel ap Tudur o Fostyn, ac yno yr oedd yn byw am gyfnod; wedi marw ei dad, 26 Rhagfyr 1448, yr etifeddodd Bengwern, Llangollen. Ifan Fychan yw'r arbenicaf o'r teulu. Yr oedd yn un o'r uchelwyr yr oedd y goron yn dibynnu arnynt am gadw trefn yn lleol, ac fel yr oedd gallu'r goron yn gwanychu yr oedd gallu'r swyddog lleol yn cryfhau. Yr oedd hefyd yn un o gynheiliaid y diwylliant brodorol. Iddo ef y mae'r canu cynharaf i deulu Mostyn sydd ar gadw,³⁰ ac, fel y gwelir, yr oedd yn fardd medrus ei hun. *Pencerdd ar y ddwygerdd oedd*, meddai Guto'r Glyn,³¹ sef cerdd dafod a cherdd dant telyn. Bu farw yn gynnar yn 1477.

Syr Rhys yw awdur cerddi 28, 29 a 30. Yn ôl Brog (y gyfres gyntaf) 2, 238, gŵr o isel dras ydoedd, mab Hywel dyrnor, turniwr pren neu fetel. Bu'n gurad yng Nghorwen, ac yn byw yn y Drewyn, cyn symud yn ficer Llanbryn-Mair a Charno (gw. cerddi 3 a 30); byddai'r ddau blwyf yn esgobaeth Llanelwy bryd hynny. Enwa Ddafydd Llwyd o Fathafarn ymhlith y rhai a wrthododd roi defaid iddo,³² a chafodd gywydd ateb;³³ y mae'n amlwg

²⁷ LIGC 1504E, 177.

²⁸ A.D. Carr, 'The making of the Mostyns: the genesis of a landed family', THSC, 1979, 157; Chirk Castle F9876.

²⁹ GST ii, 145n16 ac *ib.* 140–1.

³⁰ R. Alun Charles, 'Teulu Mostyn fel Noddwyr y Beirdd', LICy ix (1966), 74–100.

³¹ GGI² 74 (XXVII.42).

³² 30.11–16.

³³ GDLI 161–2 (cerdd 74).

oddi wrth hwnnw y byddai Syr Rhys yn dyfeita ac yn wyna llawer. Bywiolaethau digon tlawd oedd Llanbryn-Mair a Charno. Yr oedd cyfran o ddegwm Carno yn mynd i Urdd Sant Ioan yn Halston ger Whittington,³⁴ swydd Amwythig, ac yr oedd Llety'r Eos, Ffrwd-wen, Sarn Picins, Tuhwnt-i'r-pwll, Glanhanog Uchaf, Allt-fron-ddu, Blaenglanhanog, Caeau Duon, Bryn-bras, Ffos-ddu, Llannerch-y-medd a Chefn-brith ym mhlwyf Carno, a hefyd treddegwm Tir-y-mynaich yn Llanbryn-Mair, yn rhan o Faenor Tal-erddig ac yn perthyn i abaty Ystrad Marchell.³⁵

Yn 29.19–22 ceir cyfeiriad at *Statutes of Apparel*, deddf a basiwyd yn 1463, a chanwyd cerdd 28 yn ystod y cyfnod byr, Hydref 1470 hyd Fawrth 1471, pan adferwyd Harri VI yn frenin. Yn ei gywydd moliant i Sieffrai Cyffin, cwnstabl Castell Croesoswallt, awgrymodd Guto'r Glyn y byddai Syr Rhys hefyd yn dyfalu ei wledd felys.³⁶ Wrth ddychan Guto pan oedd yn rhy glaf i dreulio'r Nadolig yn abaty Glyn-y-groes y mae Syr Rhys yn canu clodydd yr abad Siôn ap Rhisiart a oedd yno c. 1455–80.³⁷ Yr awgrym a geir yw fod Guto'n tynnu ymlaen, a chan mai yn nyddiau'r abad Dafydd ab Ieuan yr aeth Guto i'r fynachlog i ddiweddu ei oes, cesglir mai tua diwedd abadaeth Siôn ap Rhisiart y canwyd y cywydd hwn. Yn naturiol, daeth ateb yn yr un cywair, ond tystia Guto fod Syr Rhys yn gurad, cynghorwr, offisial a chyffeswr, a meddyg iddo, gan ychwanegu *Mi ac ef ym ogyfoed*.³⁸ Ni chynhwyswyd mo'r cywyddau hyn yma oherwydd y broblem ddyrys gwaith sawl bardd o'r enw sydd yn y gyfrol *Gwaith Guto'r Glyn*. Perthyn canu Syr Rhys i drydydd chwarter y bymthegfed ganrif, ond y mae yn y gyfrol honno gywydd mawl i Wiliam Fychan o'r Penrhyn, Llandygái, a ganwyd yn nhridegau'r ganrif a chyfeiriad ynddo i'r bardd ganu i'w dad, Gwilym ap Gruffudd, a fu farw yn 1431,³⁹ a chywydd mawl i Syr Rhys [ap Tomas] o Abermarlais a ganwyd wedi buddugoliaeth Maes Bosworth, 1485.⁴⁰

Barn Catrin T. Beynon Davies yw mai bardd gwlad neu un o'r glêr eilradd oedd Syr Rhys,⁴¹ a chyda Llywelyn ap Gutun, un arall o'r beirdd eilradd a fyddai'n troi o gwmpas Mathafarn, y cyplysa Dafydd Llwyd ef.⁴² Tebyg oedd barn Guto'r Glyn: pan oedd Dafydd ab Edmwnd wedi tynnu'r glêr yn

³⁴ R.J. Silvester, 'The Llanwddyn Hospitium', Mont Coll lxxxv (1997), 74.

³⁵ Morris Charles Jones, 'The Territorial Divisions of Montgomeryshire', Mont Coll ii (1869), 114–15; *id.*, 'Abbey of Ystrad Marchell', *ib.* vi (1873), 356; Mrs Andrew Davies, 'The History of the parish of Carno', *ib.* xxxiii (1904), 134–5; *Letters and Papers Foreign and Domestic of the Reign of Henry VIII*, XX, ii, rhif 266/20.

³⁶ GGI² 225 (LXXXVI.27–8).

³⁷ Am gopi o'r cywyddau, gw. *ib.* 277–82 (CVIII–CIX).

³⁸ *Ib.* 280, 281 (CIX.14–16, 50).

³⁹ *Ib.* 52–4 (XIX), ac yn arbennig td. 52 (XIX.19).

⁴⁰ *Ib.* 263–4 (CI).

⁴¹ CTC 379.

⁴² GDLI 151 (69.25).

ei ben canodd Guto gywydd yn anfon y glêr fel cŵn hela ar ei ôl ac i'w rwystro rhag dianc; Syr Rhys oedd y cynydd yn y canolbarth.⁴³

Cyfeiria Dafydd Llwyd at wraig Syr Rhys, a chrybwyll Guto'r Glyn wraig a gwas. Yn ôl Guto yr oedd Syr Rhys yn feddwyn brwysg; *meddwodd a syrthiodd yn sarn* gan friwo ei ben, a chanodd Siôn Dafydd Penllyn englyn iddo:

Pa brydydd y sydd yn ymswyddo'r bir
A'i ben wedi briwo;
Syr Rhys anfelys yw fo
A'i dalcen wedi'i dolcio.⁴⁴

Tystiodd Syr Rhys y byddai'n siŵr o ateb Siôn Dafydd *pan ddêl y pen a'r ymennydd i'w lle*.

Ni cheir cyfeiriad yn unman at fuddugoliaeth Maes Bosworth, nac at y paratoi ar gyfer yr ymgyrch; y tebyg yw fod Maredudd ap Rhys a Syr Rhys wedi tewi cyn hynny. Yr unig gyfnod y gellir ei gynnig i'w canu yw *c.* 1450–*c.* 1483.

Saer awdl pob mesur ydoedd, meddai Maredudd ap Rhys am Syr Rhys,⁴⁵ ond cywyddau'n unig o waith y beirdd hyn sydd wedi goroesi, gyda rhyw ddyrnaid o englynion. Os Maredudd ap Rhys oedd athro barddol Dafydd ab Edmwnd rhyfedd braidd na cheid yn ei waith enghreifftiau o wahanol fesurau cerdd dafod. Tyfodd y disgybl lawer yn uwch na'i athro.

Dilysrwydd y cerddi

Rhestrir saith eitem a deugain o gerddi dan enw Maredudd ap Rhys yn y *Mynegai i Farddoniaeth Gaeth y Llawysgrifau*.⁴⁶ Wedi didoli'r rhai sy'n amlwg yn ddarnau o gerddi eraill a nodir, a chywyddau sy'n cael eu priodoli'n llawer amlach i feirdd eraill—cywyddau crefyddol, serch a brud y mae'n anodd iawn penderfynu pwy yw eu hawduron—y mae'n aros bum cywydd ar hugain ac ychydig englynion y gellir eu hystyried o ddirif.

Hyd y gwyddys, nid oes yr un enghraifft o'i waith ar gael mewn llawysgrif hyd ail chwarter yr unfed ganrif ar bymtheg. Crefft lafar oedd prydyddu, a'r tebyg yw i'r rhan fwyaf o'r cywyddau hyn gael eu traddodi ar lafar am flynyddoedd lawer cyn i neb eu hysgrifennu. Y disgynyddion yn aml a oedd yn gyfrifol am ofalu bod canu'n cael ei gadw, ac fel y gwelwyd, darfu am ddisgynyddion Maredudd ap Rhys.

Y mae copïau niferus o ambell gywydd ar gael (cerddi 14 a 20 yn arbennig, hefyd 15 a 17), a'r awduraeth yn mynd yn fwy a mwy ansicr fel yr â'r cyfnod rhagddo. Yr oedd tuedd ymhlith copïwyr i dadogi cywyddau

⁴³ GGI² 190 (LXXI.49–50).

⁴⁴ Card 4.47, 137; dyfyniad o CTC 379.

⁴⁵ 3.33.

⁴⁶ MFGLI 2496–2501.

natur ar Ddafydd ap Gwilym, cywyddau duwiol ar Siôn Cent, a chywyddau serch, efallai, ar awdur y gwyddai'r copïwr iddo ganu cywyddau o'r fath. Pan oedd copïau niferus ar gael penderfynais, yn gam neu'n gymwys, dynnu llinell oddeutu'r flwyddyn 1700. Y mae gwahaniaeth go fawr rhwng cefndir ysgrifwyr y ddeunawfed ganrif rhagor rhai'r unfed ganrif ar bymtheg. Erbyn y ddeunawfed ganrif yr oedd argraffu'n gyffredin, yr oedd pobl yn gynefin â darllen, a'r Beibl a'r Llyfr Gwedi wedi safoni iaith a chreu patrwm ymadrodd i'w ddilyn. Yr oedd tuedd i gopïwyr y ddeunawfed ganrif 'gywiro' cynganeddion beirdd cynharach, a hyd yn oed gyfansoddi o'r newydd weithiau, i gydymffurfio â safonau eu hoes hwy, heb sylweddoli bod beirdd fel Maredudd ap Rhys a'i gyfoedion wedi dysgu eu crefft cyn y diwygio a wnaed yn Eisteddfod Caerfyrddin ganol y bymthegfed ganrif. Ymhellach, o ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg ymlaen, am resymau gwleidyddol, bu ymdrech bendant i ddileu pob arlliw o ddylanwad crefydd Eglwys Rufain; o ganlyniad, nid oedd y copïwyr yn gyfarwydd â dysgeidiaeth yr Hen Ffydd nac â'i heithwedd a'i hymadroddion. Y mae'r un peth yn wir am y canu brud. Dirgelwch oedd hwnnw yn ei hanfod, ac er iddo ddod yn llawer, llawer mwy penodol ac arwyddocaol o c. 1450 ymlaen, darfu amdano'n llwyr wedi buddugoliaeth Maes Bosworth yn 1485; byddai'n dywyllach nag erioed i wŷr y ddeunawfed ganrif. Ar hyd y cenedlaethau y canu mawl a marwnad a oedd yn cael y flaenoriaeth; hwnnw a berchid ac a drysorid gan y teuluoedd uchelwrol. A oedd copïwyr canu crefyddol, serch a brud yn llai gofalus? Y mae lle i dybio y byddent yn gadael cwpled allan pan nad oeddynt yn ei ddeall.

Wrth olygu'r testun ceisiais ddilyn trefn amseryddol y llawysgrifau, gan ddechrau gyda'r rhai cynharaf; yn naturiol, o ddiffyg gwybodaeth ddigon manwl, trefn bur fras ydyw.

Y mae cerddi 1–5 yn ymwneud â helbulon a theimladau personol, a cherddi 6–12 â materion rhwng y bardd a'i gyfeillion; gellir derbyn y rhain yn hyderus fel gwaith Maredudd ap Rhys ac Ifan Fychan ab Ifan ab Adda. Ni welaf unrhyw reswm dros wrthod cerdd 13, 'Marwnad y Brenin Edward IV'; byddai'r digwyddiadau a'r syniadau a fynegir yn gwbl hysbys i'r bardd.

'Cywydd y gwynt' (cerdd 14)

Gwrthod y cywydd hwn fel gwaith Dafydd ap Gwilym a wnaeth Thomas Parry; y ddedfryd yw fod y mwyafrif mawr o lawysgrifau o blaid Maredudd ap Rhys.⁴⁷ Ni sonnir amdano ychwaith gan Helen Fulton wrth ymdrin â rhai o gerddi apocryffa Dafydd ap Gwilym.⁴⁸ Y mae'n amlwg ei fod yn gywydd eithriadol boblogaidd; y mae tros gant o gopïau ohono ar gael yn y llawysgrifau. Wedi tynnu llinell c. 1700 cynhwyswyd darlleniadau o hanner

⁴⁷ GDG clxxxiv.

⁴⁸ DGA.

cant o lawysgrifau, gydag A–T, yn fras, yn perthyn i'r cyfnod cyn neu oddeutu 1600. (Wedi i'r cerddi gael eu rhifo a'u golygu y cyrhaeddodd copi y, llawysgrif o ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg.) Gydag ychydig eithriadau, nid oes fawr wahaniaeth yn nhrefn y cwpledi, ond yr oedd dynnid fechan o gopiâu'n hynod gymysglyd (CKTbioqv), fel pe bai'r copiŵyr yn taro i lawr gwpledi a gofient neu a glywsent heb falio am na threfn nac undod. Efallai mai hyn sy'n cyfrif am gwpledi ychwanegol yma ac acw. Y mae'r anhawster a gafodd ambell un wrth geisio nodi rhai llinellau mewn ysgrifen (e.e. 11, 33, 39, 41, 43, 46, 55) yn profi mai dibynnu ar y glust ac nid ar y llygad yr oedd. Y mae pob un ond pump o'r copiâu a ddefnyddiwyd yma yn tadogi'r cywydd ar Faredudd ap Rhys. Yn ôl C a q Dafydd ap Gwilym yw'r awdur; newidiwyd Dafydd Nanmor gan law ddiweddarach i Ddafydd ap Gwilym yn Y; Gruffudd ap Dafydd ap Rhys yw'r awdur yn c, ac ni cheir enw awdur yn G. O wybod am ymdeimlad Maredudd ap Rhys â natur (cerddi 3 a 4) a barn Thomas Parry, credaf y gellir yn eithaf hyderus ei briodoli iddo ef.

Cywyddau duwiol

Priodolwyd un ar ddeg o gywyddau duwiol i Faredudd ap Rhys.⁴⁹ Gwrthodwyd pump ohonynt naill ai am mai dim ond un llawysgrif a oedd yn cynnwys ei enw, neu am eu bod yn cael eu tadogi'n llawer amlach ar feirdd eraill. Mentruwyd cynnwys y chwech arall.

'Tr byd' (cerdd 15)

Cywydd eithaf poblogaidd; gwelwyd un ar ddeg ar hugain o gopiâu ond tynnwyd llinell c. 1700 gan mai testunau digon anfoddfaol oedd y rhai diweddarach. Ni ellir bod yn gwbl sicr ynglŷn â'i awduraeth. Fe'i priodolwyd i Guto'r Glyn yn JLPVX, ac i Guto'r Glyn a Siôn Cent yn llawysgrifau OP—fe'i cynhwyswyd fel ei waith ef yn IGE 239–41 (LXXXIX) ac yn IGE² 253–4 (LXXXIII). Gan fod bron pob un o lawysgrifau'r unfed ganrif ar bymtheg (A–FHIKLQ–TW) yn ei dadogi ar Faredudd ap Rhys gellir derbyn yn weddol hyderus mai ef yw'r awdur.

'Cywydd i Dduw' (cerdd 16)

Cynhwyswyd y cywydd hwn yn DN 92 (XXXIV), ac yn y nodiadau, td. 194, nodir, 'Though the text ascribes this poem to Meredudd ap Rhys [Add. MS 14967, sef G yma (td. 3, nid 8)], as also do three other MSS., while three give Iolo Goch as the author, the majority of the MSS. are overwhelming in favour of its ascription to D.N. (24 in number). Thirteen copies have been collated ...' Nodir dau gopi o BL Add 14974, 25 a 35, ond ni chynhwyswyd y cywydd yn y llawysgrif honno. Yn y tri chopi ar ddeg a ddefnyddiwyd

⁴⁹ MFGLI 2496–2501.

yma, priodolir y cywydd i Siôn Cent yn H, ac i Faredudd ap Rhys neu Ddafydd Nanmor yn ACJM; Maredudd ap Rhys yn unig a nodir yn y gweddill. Ategas sylw Thomas Roberts, ‘... the variants are bewildering in regard to lines omitted and included, and the arrangement of couplets’, gw. DN td. 194. Fodd bynnag, penderfynwyd ar yr un drefn gan olygydd DN â minnau; yr unig wahaniaethau o bwys yw y ceir cwpled ychwanegol ar ôl llinell 28, a bod llinellau 41–2 yn eisiau yn DN.

‘*Cywydd i’r byd*’ (cerdd 17)

Gwelwyd tri ar ddeg ar hugain o gopiâu, ond wedi tynnu llinell c. 1700 tynnwyd y rhif i lawr i bedwar ar hugain. Priodolwyd y cywydd i Ddafydd Nanmor yn V, ac iddo ef a Maredudd ap Rhys yn M. Iolo Goch yw’r awdur yn DIL, Siôn Cent yn ôl U, a cheir ei enw ef a Rhys Goch yn X. Gan fod y rhan fwyaf o’r llawysgrifau (ABCEFGJKLN–T) yn ei briodoli i Faredudd ap Rhys (dichon mai gwall ar ran yr ysgrifwr yw ‘Morys ap Rhys’ W), gellir derbyn yn weddol hyderus mai ef yw’r awdur.

‘*Cywydd i Fair*’ (cerdd 18)

Priodolir y cywydd hwn i Faredudd ap Rhys ym mhob un o’r pum copi.

‘*Cywydd yn erbyn cybydd-dra’r byd*’ (cerdd 19)

Yn ôl llawysgrifau CT Gutun Owain yw awdur y cywydd hwn, ond ni chynhwyswyd mohono gan Bachellery yn GO; yn ôl llawysgrifau MOQ ‘Prydydd Hael ai cant’; ni cheir enw awdur yn llawysgrifau BD.

‘*Cywydd yn erbyn caru’r byd*’ (cerdd 20)

Y mae hwn yn gywydd poblogaidd dros ben; wedi tynnu llinell c. 1700 defnyddiwyd deugain namyn un o gopiâu. Ansicr iawn yw ei awduraeth. Fe’i priodolir i Faredudd ap Rhys, Syr Dafydd Trefor, Iolo Goch, Siôn Cent, Dafydd Meifod a Siôn Ceri; y mae rhai o’r copïwyr yn ansicr ac ni cheir enw awdur yn BQ. Y mae naws diweddarach na chyfnod Iolo Goch i’r cywydd (ni chynhwyswyd mohono yn IGE, IGE² nac yn GIG). Y mae’r llawysgrifau sy’n ei briodoli iddo ef (OU–Xdgk) yn cyfateb yn agos iawn i’w gilydd gan awgrymu eu bod yn deillio o’r un cynsail, y cynsail a oedd gan Lywelyn Siôn—y mae U a V yn ei law ef a W yn llaw Edward Dafydd. Nid oes yr un o’r llawysgrifau hyn yn gynharach na’r ail ganrif ar bymtheg. Y mae pedair llawysgrif gynnar (ACGK) yn priodoli’r cywydd i Syr Dafydd Trefor, er i rywun diweddarach ychwanegu ‘medd eraill Iolo Goch’ yn C. Fe’i cynhwyswyd gan Irene George ymhlith y cywyddau a briodolir i Syr Dafydd Trefor.⁵⁰ Fel y nodwyd, yr oedd copïwyr yn dueddol o briodoli cywyddau duwiol i Siôn Cent. Perthyn E i ddiwedd yr unfed ganrif ar

⁵⁰ Irene George, ‘Syr Dafydd Trefor, an Anglesey Bard’, AAST, 1934, 74.

bymtheg; llawysgrifau o'r ail ganrif ar bymtheg yw'r gweddill sy'n ei briodoli iddo (HJSTYZel). Y tebyg yw mai gwall am 'Siôn Cent' yw 'Siôn Ceri' N. Y mae nifer o gopiwyr, yn eu plith copiyydd mor ddibynadwy ag Wmffre Dafis, Ficer Darowen (F), yn priodoli'r cywydd i fardd o'r enw Dafydd Meifod (FILMPRcfhm). Yn MFGLI hon yw'r unig gerdd dan ei enw, ac y mae hyn yn creu tipyn o ddirgelwch gan y disgwyliid y byddai mwy o waith cystal bardd â hyn wedi ei gadw. Y mae'r copïau hyn hefyd yn amlwg yn deillio o'r un cysail: ynddynt hwy'n unig y ceir y cwpled ychwanegol ar ôl llinell 2 (cwpled y ceir eco ohono droeon mewn cywyddau ac englynion, e.e. 17.29), ac y mae llinellau 31–2 a 45–6 yn eisiau ynddynt. Tybed a fu i ryw Ddafydd o Feifod ysgrifennu'r cywydd, gan roi ei enw ei hun fel ysgrifwr/copiyydd ar y diwedd? Yr oedd Maredudd ap Rhys yn segur-reithor Meifod (gw. uchod td. 5), a chan y byddai'n aros yn ysbeidiol gyda Syr Siôn Mechain yn Llandrunio (cerddi 4 a 5) y mae'n rhesymol tybio nad oedd yn ddieithr i'r plwyf. A adroddodd ef y cywydd yno? A ellir awgrymu i rywun o'r enw Dafydd ei glywed, ei ysgrifennu ac ychwanegu cwpled a glywsai droeon—efallai gan Faredudd ap Rhys—am y tri gelyn? Yna, i gopiwyr diweddarach dybio mai Dafydd oedd yr awdur?

A oes arwyddocâd arbennig i linellau 45–52, sy'n sôn am Saith Weithred y Drugaredd, dysgeidiaeth a seiliwyd ar Math xxv.35–40? Wrth atgyweirio eglwys Rhiwabon, Mehefin 1870, darganfuwyd murlun mawr ar y mur deheuol; fe'i hadnewyddwyd gan Mr Watt, athro arlunio yn ysgol Ramadeg Rhiwabon ar y pryd, a hynny ar gost Chevalier Lloyd, Clochfaen, Llangurig, a pherchen Plas Madog, Rhiwabon, ar un adeg.⁵¹ Ceir llun a disgrifiad ohono yn llyfryn yr Archddiacon Pritchard. Yn ei eiriau ef, 'It appears to date from the first half of the fifteenth century ... Five out of the seven biblical scenes are shown, namely: feeding the hungry, giving drink to the thirsty, clothing the naked, receiving strangers, and half of another scene with a fragment of a sixth ...'⁵² Maredudd ap Rhys oedd ficer Rhiwabon ganol y bymthegfed ganrif ac arno ef yr oedd gofal am eneidiau'r plwyf-olion.⁵³ Byddai'n naturiol iddo ddefnyddio'r murlun, a fyddai'n gyflawn yn ei ddyddiau ef, wrth eu hyfforddi. A allai ef fod yn dyst i'w baentio pan oedd yn blentyn? Pwy bynnag yw'r awdur, y mae'r cywydd hwn yn teilyngu ei gadw a'i drysori.

Cywyddau serch

Y mae pedwar cywydd serch y gellir eu hystyried yn waith Maredudd ap Rhys.

⁵¹ Gwelir manylyn o'r murlun ar glawr y gyfrol hon.

⁵² T.W. Pritchard, *op.cit.* 4–5.

⁵³ Td. 4 uchod.

‘*Cywydd merch*’ (cerdd 21)

Gwelwyd pum copi o’r cywydd hwn, pob un yn perthyn i hanner cyntaf yr ail ganrif ar bymtheg ac yn ei briodoli i Faredudd ap Rhys.

‘*Cywydd i wraig ieuanc*’ (cerdd 22)

Priodolir y cywydd ambell waith i Bedo Aeddren, ond ni chynhwyswyd ef gan P.J. Donovan yn CSTB. Y mae’r chwe chopi a welwyd yn ei briodoli i Faredudd ap Rhys, a chopi A yn llaw Edward ap Roger o Riwabon (*ob.* 1587), wŷr i Siôn Eutun, sef y gŵr y canwyd cerdd 6 ar ei ran.

‘*Mawl i wraig a gogan i’w gŵr*’ (cerdd 23)

Y mae’r pum copi a welwyd, yn eu plith, copi B, yn llaw Edward ap Roger, yn ei briodoli i Faredudd ap Rhys.

‘*Cywydd y daran*’ (cerdd 24)

Wedi tynnu llinell *c.* 1700 cymharwyd un copi ar ddeg o’r cywydd hwn. Y mae’r cyfan ond F, lle y mae’r diwedd ar goll, yn ei briodoli i Faredudd ap Rhys, ond bod llaw ddiweddarach yn llawysgrifau ACDG yn cywiro hyn i ‘Dafydd ap Gwilym’, ac G yn ymhelaethu, ‘yn wir mi ai gwelais fo mewn llyfr yn ei law fo i hun ymysg kowydde eraill’. Ei wrthod a wnaeth Thomas Parry.⁵⁴

Cywyddau brud

Y mae ceisio penderfynu pwy a ganodd beth yn anos gyda’r cywyddau brud na chyda’r un dosbarth o ganu’r cyfnod. Hyd yn oed gydag awduron hysbys tadogir cywyddau cyfan o waith y naill fardd ar y llall, a cheir darn o gywydd a briodolir i un bardd yng nghanol cywydd a briodolir i fardd arall. Y mae llu o gerddi heb enw awdur wrthynt; y mae’r testunau’n llwgr a’r cynganeddion yn wallus yn aml, a hynny’n rhannol, fe ddichon, am nad oedd y copiŵyr yn deall ac am na chymarent gymaint gofal ag wrth gopïo canu i deuluoedd.⁵⁵

Priodolir pum cywydd brud i Faredudd ap Rhys.⁵⁶ Dim ond un copi a nodir o’r cywydd sy’n dechrau *Y gwanwyn llwyn a’r llynnoedd*, cywydd na cheir ynddo ddim ond mydryddu ymadroddion ac arwyddion stoc, pur wahanol i waith Maredudd ap Rhys. Fe’i derbyniwyd gan Leslie Richards fel gwaith Dafydd Llwyd.⁵⁷ Cyffelyb yw cynnwys y darn deunaw llinell sy’n dechrau *Ewin yr arth wen a rydd*, y nodir dau gopi ohono, y naill yn BL Add 14892, 92^v, llawysgrif o ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg, a’r llall yn

⁵⁴ GDG clxxx. Cynhwyswyd ef gan Helen Fulton yn DGA 122–5, 235–7.

⁵⁵ Gw. td. 9.

⁵⁶ MFGLI *l.c.*

⁵⁷ GDLI 95–6 (cerdd 40).

gopi lythyren am lythyren, yn BL Add 14994, 48^v, llawysgrif o ddiwedd y ddeunawfed ganrif. Erys tri y gellir eu hystyried.

'Cywydd i hen lyfr brud' (cerdd 25)

Gwelwyd naw copi, yn dyddio o gyfnod Dafydd Johns (*fl.* 1573–87) i ganol yr ail ganrif ar bymtheg, a phob un yn ei briodoli i Faredudd ap Rhys. Y mae'r drafodaeth â'r llyfr brud yn hynod debyg i'r hyn a geir yn 5.1–26, a gw. cerdd 27 isod.

'Cywydd brud' (cerdd 26)

Gwelwyd pum copi, pob un ohonynt yn perthyn i'r ail ganrif ar bymtheg, llawysgrifau ACE yn ei briodoli i Faredudd ap Rhys a llawysgrifau BD i Robin Ddu (*fl.* 1450). Priodolwyd y cywydd hwn hefyd i Ddafydd Llwyd o Fathafarn ond ni chynhwyswyd ef yn GDLI. Anodd iawn penderfynu ei awduraeth. Y mae mwy o arwyddion brud ac ymadroddion stoc yn hwn, sy'n nodweddiadol o Robin Ddu; efallai na ellid disgwyl i bleidiwr mor selog i'r Tuduriaid â Robin Ddu ganmol Edward IV, ond yr oedd achos plaid Lancastr yn bur wan yn y saithdegau ac Edward yn ddigon derbyniol. Os cywir y dehongli, gallai rhai o'r digwyddiadau y cyfeirir atynt (llau. 55, 70) fod braidd yn ddiweddar i Robin Ddu a oedd yn canu cyn 1448. Y mae'n amlwg yn perthyn i'r cyfnod, ac yn werth ei gadw fel enghraifft o ganu brud ag ystyr benodol iddo.

'Cywydd y gigfran' (cerdd 27)

Gwelwyd pedwar ar bymtheg o gopiâu, yn ymestyn o ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg i ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg, a'r cyfan, ac eithrio L, lle ni cheir enw awdur, yn ei briodoli i Faredudd ap Rhys. Fel yn achos cerdd 25, y mae yma drafodaeth, y tro hwn â'r gigfran. Gan fod y cywydd yn glod i Edward IV y mae'n ddigon posibl mai Maredudd ap Rhys yw'r awdur.

Syr Rhys o Lanbryn-Mair a Charno (gw. tt. 6–8) yw awdur y ddau gywydd brud arall.

'Cywydd brud' (cerdd 28)

Gwelwyd pum copi, pedwar ohonynt yn perthyn i'r ail ganrif ar bymtheg. Canwyd y cywydd yn ystod y cyfnod byr pan adferwyd Harri VI i'r frenhiniaeth, sef rhwng Hydref 1470 a Mawrth 1471 (ll. 18).

'Cywydd brud' (cerdd 29)

Y mae'r cywydd hwn, sy'n gymysgedd o frud a phregeth yn erbyn pechodau'r oes, yn amlwg yn waith clerig a oedd yn ymwybodol iawn o'r hyn a oedd yn digwydd yn y wlad. Rywdro wedi 1463 y canwyd ef (gw. llau 19–22). Perthyn copi A i'r cyfnod 1544–52, a chopïau BD i'r un ganrif.

Cywydd a fu rhwng Syr Rhys o Garno a Dafydd Llwyd ap Llywelyn ap Gruffudd o Fathafarn ynghylch cymhortha defaid (cerdd 30)

Syr Rhys yw awdur y cywydd hwn hefyd, ac nid oes unrhyw reswm dros amau ei awduraeth. Am ateb Dafydd Llwyd, gw. GDL1 161–2 (cerdd 74).

Cynganeddion

Fel yr awgrymwyd uchod,⁵⁸ yr oedd Maredudd ap Rhys a'i gyfoedion wedi dysgu eu crefft farddol cyn y diwygio a wnaed ar y mesurau a'r cynganeddion yn Eisteddfod Caerfyrddin c. 1451, ac o ganlyniad y mae yn eu gwaith rai llinellau o gynghanedd y byddai oes ddiweddarach yn eu condemnio ond a ganiateid yn eu cyfnod hwy. Rhaid cofio hefyd mai cyfansoddiadau i wrando arnynt yn cael eu hadrodd neu eu datganu oedd y rhain, nid testunau i'w darllen a myfyrio uwch eu pennau; clywed y sain y byddai'r gynulleidfa, nid gweld y llythrennau ysgrifenedig. Os oedd ambell odl wallus mewn canu gwerin yn llithro heibio heb i neb sylwi arni gallai'r un peth fod yn wir am linellau o gynghanedd.

Rhag i'r nodiadau ar y cerddi unigol fynd yn feichus nodir yma wallau neu anghysonderau cyffredin, a thrafodir ambell broblem fwy cymhleth yn y nodiadau. I nodi enghreifftiau:

Dwy gytsain yn ateb un:

<i>d</i>	Nid adwaenir mewn dinas (29.19)
<i>dd</i>	Duw Ddofydd, dy ddiodefaint (16.30) Ydoedd i ddyn, nid oedd ddwys (17.44) (y mae'r ddwy <i>dd</i> yn ail ran y ll. yn toddi i'w gilydd ac yn cyfrif fel un)
<i>f</i>	Prynai ddyn, prin oedd ei ddydd (19.33)
<i>n</i>	A fu feddyg ufyddach (2.39) Mwy ni chwsg, minnau ni châr (3.46) Mae'n wag bob man yn ei ôl (3.60) Brain hen a wnâi'r brenin hwn (13.36) Ac yn ei lys y gwnawn wledd (20.58) A'r fwnai'n glaf ar fin gwlad (26.26)
<i>r</i>	Gŵr byw, nag agori'r bedd (5.8) Dewr a'i dwg wrth dorri'r dydd (6.23) Da ŵr ei fodd, dewr ar farch (7.11) Mae hiraeth am yr herwyr (26.47)

Cytsain berfeddgoll

<i>f</i>	Dy ddysg fel Dafydd Esgob (7.16)
----------	----------------------------------

⁵⁸ Td. 9.

Mal y daw mefiliau dwys (8.12)
 A lwnc oll, fal afanc hen (15.40)
 Ac yno yn ei gynfas (20.23)
 Dau fan ynn, nid yn anwych (30.49)
m Dyn hael, yn dymuno hwn (9.26)
n Ac anaml gŵr gwraig yma (21.42)
r Blwch byrflew, tondew, tindrwm (10.8)
 Hebrwn corff o'r bryn i'r côr (20.49)

Cytsain wreiddgoll

m Am y pysg drud cyn Pasg draw (9.24)
 O'm nâg un difilain wy' (11.50)
 Mae'r dull sy ar y dillad (29.21)
r Ar bren croes i brynu Cred (2.20)

Cynghanedd draws wreiddgoll

Aeth y mawl a'i lif melys (3.57)
 Doed ystad, ni wnaud gost wan (28.51)

Cynghanedd groes wreiddgoll

Duw sy ddig, a'i swyddogion (29.3)

Cynghanedd sain bengoll

Sicir y cawn, dawn difai (11.39)

Cynghanedd sain drosgl

Hyd ddydd brawd, myfyrdawd maith (9.46)
 Ac angau dyrnodiau dwys (17.14)
 Mamaeth o rywogaeth rym (18.3)
 Cynnar y tywylla'r tŷ (22.32)
 Gwae galon, breuddwydion braw (22.39)
 Nac arbed, f'adduned fydd (23.45)

Cynghanedd sain gadwynog

Trig yn iach, corn bwbach cau (14.63)

Bai crych a llyfn

Diwedd Eigr a'i dyddia (gw. y nodiad ar y ll.) (1.22)
 Dillyn cefnwyn cyfiawnwydd (6.24)

Y cyfnod, c. 1450–83, a chefnidir gwleidyddol y canu

Perthyn y canu i gyfnod Rhyfel y Rhosynnau, y rhyfel cartref a'r anghydfod a barhaodd, yn ysbeidiol, o frwydr gyntaf St Albans yn 1455, hyd fuddugoliaeth Maes Bosworth yn 1485.

Bu farw'r brenin Harri V yn 1422, yn ifanc, gan adael mab bach dan flywydd oed. Mewn cyfnod pan oedd llywodraeth gwlad yn dibynnu ar y brenin yr oedd rhaglafiaeth hir bob amser yn gyfle i aflywodraeth ac ymgiprys rhwng barwniaid diegwyddor. Cymeriad gwan, ym mhob ystyr, oedd Harri VI, ac fel y dirywiaid ei feddwl ef cynyddu yr oedd yr ymryson rhwng y barwniaid ynghylch pwy a oedd yn mynd i reoli, ai plaid Dug Iorc ynteu plaid teulu Lancastr, teulu'r brenin.

Yn Lloegr awgrymir llawer o resymau a dadleuon, ar wahân i'r broblem sut i roi pen ar lywodraeth gwbl aneffeithiol Harri VI, am yr anghydfod. Yng Nghymru yr oedd pethau'n wahanol; gwelwyd gobaith am wireddu hen, hen broffwydoliaeth ac adfer bri'r genedl. Buasai'r Brytaniaid, hynafiaid y Cymry, ar un adeg yn genedl fawr, a'r wlad i gyd yn eu meddiant, ond trwy gam gyngor a dichell (28.3) cafodd y Saeson gyfle i ymsefydlu nes meddiannu cyfran helaeth o'r tir a chyfyngu cenedl fawr y Brytaniaid o fewn terfynau'r hyn a alwn ni heddiw'n Gymru. Yn y canrif-oedd cynnar y gobaith oedd gyrru'r Saeson yn llwyr o'r wlad, fel y mynegir yn y gerdd 'Armes Prydain', a luniwyd c. 940;⁵⁹ ond pan gyrhaeddodd y Normaniaid, gyda'u gallu milwrol cadarnach, darfu am y gobaith hwnnw a chanolbwyntio ar gael Cymro i wisgo coron Llundain, coron Prydain.

Ar adegau o gyni, pan oedd hi'n gyfyng ar y Cymry, byddai beirdd yn eu cysuro drwy ganu cerddi proffwydol, yn darogan y gwawriai oes aur arnynt unwaith eto, rywdro yn y dyfodol annelwig, pan ddeuai'r arwr mawr y daroganwyd amdano, y mab darogan, i arwain y genedl i fuddugoliaeth. Yr enw ar y math hwn o ganu oedd 'canu brud'. Yn ôl *Geiriadur Prifysgol Cymru* ffurf ar y gair 'brut', ond gydag ystyr wahanol, yw 'brud',⁶⁰ a 'brut' yn ei dro'n fenthyciad o'r Ffrangeg *brut*, tarddair o'r enw Brutus, sef Brutus fab Silfius fab Aeneas o Gaer Droea, cymeriad chwedlonol, sefydlydd a brenin tybiedig cyntaf cenedl fawr y Brytaniaid.⁶¹

Canu tywyll, cwbl benagored, gyda llawer o ailbobi'r un deunydd drosodd a throsodd—dirgelwch i bendroni uwch ei ben heb ei ddeall—yw'r toreth canu brud sydd i'w gael ar hyd y canrifoedd. Priodolid brud y bedwaredd ganrif ar ddeg i feirdd na wyddom fawr ddim amdanynt ond eu henwau, er

⁵⁹ CLC²; Arm P ll. 27. Y dyddiad a awgrymwyd yn Arm P yw c. 934, ond yn ôl D.N. Dumville, *Études* xx (1983), 150, c. 935x950, ac yn ôl Andrew Breeze, *ib.* xxxiii (1997), 209, diwedd 940.

⁶⁰ GPC 334.

⁶¹ Gw. 28.47–8. Am Brutus, gw. WCD 62 a'r hanes a adroddir gan Sieffre o Fynwy, BD 3–21.

enghraifft Adda Fras.⁶² Ganol y bymthegfed ganrif, gyda Rhyfel y Rhosynnau, gwelwyd posibilrwydd cyflawni'r hen broffwydoliaeth o gael Cymro i wisgo'r goron. Yr oedd Rhisiart Mortimer, Dug Iorc (plaid y rhosyn gwyn) a'i fab Edward, a ddaeth yn frenin Edward IV yn 1461, yn disgyn o Gwladys Ddu, merch Llywelyn Fawr, a briododd â Ralph Mortimer c. 1230, a chan fod mam Llywelyn yn ferch i Fadog ap Maredudd yr oedd gwaed tywysogion Gwynedd a Phowys yn eu gwythiennau. Er bod Edmwnd a Siasbar Tudur (28.50, 64) yn frodyr unfam i Harri VI (cyn diwedd 1432 priodasai'r frenhines Catrin, gweddw Harri V, ag Owain Tudur o Benmynydd, Môn), wedi marw Edward IV, 1483, a chamwri ei frawd, Rhisiart III, a phan oedd prif etifeddion plaid Lancastr (plaid y rhosyn coch) naill ai wedi marw neu wedi cael eu lladd gan wneud Margaret Beaufort, gweddw Edmwnd a mam Harri Tudur, yn brif gynrychiolydd y blaid, dyna pryd y daeth Harri Tudur (drwy ei fam) yn fab darogan o ddifrif. Bu Edmwnd Tudur, Iarll Ritsmwnd, farw'n ifanc yn 1456, ond yr oedd ei frawd, Siasbar Tudur, Iarll Penfro, yn un o brif gynorthwywyr Harri VI; ef a'r frenhines, Margaret o Anjou, a oedd yn trefnu'r ymgyrchoedd ac yn arwain byddinoedd drosto.

Yn ystod y deng mlynedd ar hugain, gyda llygad ar y fantais, bu llawer o newid teyrngarwch. Nid oedd na phlaid na lliw'r rhosyn yn orbwysig, cael Cymro i wisgo'r goron oedd y nod.

Y mae cyfran o ganu brud y bymthegfed ganrif yn dywyll neu'n benagored, yn llinynnu ymadroddion stoc o ganu cynharach; ond yn ail hanner y ganrif y mae hefyd ganu eglurach, mwy pendant a phenodol y gellid, o bosibl, ei ddehongli pe bai gennym wybodaeth ddigon manwl am ddigwyddiadau a chymeriadau'r cyfnod. Gwaetha'r modd, gall fod llawer o'r cyfeiriadau'n rhy amserol ac yn rhy leol i'w deall y tu allan i gylch cyfyng, hyd yn oed ar y pryd, ac yn rhy ddibwys i'r cof amdanynt fod wedi cadw. Yn ôl y canu, yr oedd bob amser arwyddion arbennig i'w canfod cyn dyfod y mab darogan, er enghraifft llosgi Dulyn (*pe llosgai Dulyn* 25.69, *Beth a dâl boethi Dulyn* 26.55), *tân ym Manaw* (25.67), *poethi'r badd* (26.49, 54); byddai brwydrau mewn lleoedd penodedig megis Cyminod, Cors Fochno (21.40), Rhyd-y-tywod (duon); dyfod gŵr marw (5.6) neu'r fôr-forwyn (26.34). Yr oedd hyn yn rhan o gynhysgaeth beirdd y canu brud. Arfer arall mewn brud oedd cyfeirio at yr arwyr a'r gelyn ar enwau adar ac anifeiliaid; yn awr y mae ambell un yn dod yn benodol, er enghraifft yr arth (Iarll Warwig, 26.50), y wadd a'r baedd (Rhisiart Dug Caerloyw, 26.49), y wennol a'i chyw (Owain Tudur a'i ddisgynyddion, 5.10).

Yr oedd brud yn ymwithio i mewn i destunau y gellid tybio nad oedd a wnelo ddim â hwy. Ceir enghraifft yn y cywydd i Syr Siôn Mechain (cerdd 5), mewn cywydd serch (cerdd 21), ac y mae Syr Rhys yn cymysgu brud a

⁶² 5.2 a 25.34.

chrefydd (cerdd 29). Y mae hyn yn amlwg yng ngwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn.

I ddosbarth y cerddi brud eglurach y perthyn yr enghreifftiau a geir yma (cerddi 25–9).

Yr oedd cryn brysurdeb ar y Gororau ddiwedd y pumdegau a dechrau'r chwedegau. Yn Wigmore, ychydig i'r de-orllewin o Lwydlo, yr oedd prif lys y Mortmeriaid (teulu Dug Iorc), a hyd oresgyniad Edward IV, 1461, ar y Gororau ac yn Llwydlo yr oedd canolfan eu gweithgarwch.

Bu herwyr yn crwydro Cymru wedi brwydr Ludford, ger Llwydlo, Hydref 1459, pan 'ddiflannodd' byddin Iorc.⁶³ Nid oedd dim undod llywodraethol yng Nghymru'r bymthegfed ganrif, ac yr oedd yn y canolbarth ardaloedd y gwyddai ffoaduriaid rhag y gyfraith yn dda amdanynt, math o dir neb ar ffin rhwng arglwyddiaeth ac arglwyddiaeth neu rhwng arglwyddiaeth a sir, lleoedd fel y Graig Lwyd ger Llanymynaich am y ffin â'r Deuddwr, y Cefn Digoll a'r Breiddin o boptu i Landrunio gyda'u rhwydwaith o geunentydd, a Mawddwy rhwng Powys a sir Feirionnydd. Nid *brigands* na *banditti* mo'r gwŷr a lechai yno ar herw, ond mân uchelwyr tiriog a'u dilynwyr a'u gwasanaethyddion, gwŷr ar encil o afael y gyfraith. Yn 1443 bu ysgarmes yn ymyl Castell Cawres ar ochr ddwyreiniol y Cefn Digoll rhwng Syr Gruffudd Fychan a'i frawd Ieuan, aelodau blaenllaw o lwyth lleol y Gwennwys, a'u dilynwyr, a Christopher Talbot, mab Iarll Amwythig, a'i ddilynwyr yntau.⁶⁴ Yn yr ymladd lladdwyd Talbot, ac yn hytrach nag ymddangos mewn llys barn, yn 1444 aeth Syr Gruffudd a'i frawd a phedwar ar ddeg o'u dilynwyr ar herw i'r Cefn Digoll. Yno y buont am dair blynedd, yn dwyn oddi ar eu gelynyon ac yn cael lloches a chefnogaeth gan eu cyfeillion, nes i Arglwydd Powys, trwy dwyll, ddenu Syr Gruffudd i'r Castell Coch a'i ladd yn 1447. *Caffo hir grog!* oedd dedfryd Dafydd Llwyd ar yr arglwydd.⁶⁵ Y mae'n sicr fod Maredudd ap Rhys, Syr Siôn Mechain a Syr Rhys yn gwybod yn dda am herwyr y manau hyn, a'r patriarch o Fathafarn, Dafydd Llwyd, yn well na neb; sonia am herwyr yn llechu ar y Cefn Digoll, yng Ngwern-y-gof, Ceri, ar lethrau'r Dolfor, a than y Drum Ddu ar Fwlchfyfedwen.⁶⁶ Pan ddaw'r arwr mawr daw'r herwyr, tramor a lleol, i'w ganlyn (26.45, 47), hefyd y *gwylliaid* (29.18). Pobl i'w hedmygu, y gellid ymddiried yn eu cymorth, oedd yr herwyr a'r gwylliaid.

Lladdwyd Rhisiart, Dug Iorc, ym mrwydr Wakefield yn 1460, ond wedi buddugoliaeth Mortimer's Cross, ychydig i'r de o Lwydlo, yn 1461, daeth ei fab yn frenin Edward IV. Ceir cyfeiriad at yr arwydd gwyrthiol a ymddangosodd uwchben Wigmore y bore hwnnw, y tri haul a'r rheini'n toddi'n un

⁶³ WWR² 63 a 67.

⁶⁴ Am yr hanes a'r ffynonellau, gw. Enid Roberts, 'Hen Nantcriba', Mont Coll lxxiii (1974), 171–3.

⁶⁵ GDLI 121 (53.80).

⁶⁶ *Ib.* 120–2 (cerdd 53).

(26.42). Trechwyd y Lancastriaid yn llwyr; daliwyd Owain Tudur a'i ddiennyddio, ond llwyddodd Siasbar i ddianc. Disgrifia Lewys Glyn Cothi fel y bu iddo yntau ac ychydig gyfeillion ffoi i ardal Trefeglwys: *Llechu yng ngrug Cwmbuga*, ym Mhennant Bacho a Choedwig Allt y Brain, a chael croeso yng Nglyn Trefnant. Pan oedd yn fwy diogel symud ymlaen:

O Garno dros Glegyrnant,
Dros Waun wèn, uwch Drws y Nant,⁶⁷

ardal Syr Rhys, a'i gwneud hi am Ddinbych i uno â Lancastriaid eraill.

Ni sonnir yn y cywyddau hyn am ddarostwng Harlech yn 1468 nac am drychineb brwydr Bambri yn 1469. Croesawodd Syr Rhys ailorseddu Harri VI yn 1470–1 (28.17–20), ond wedi brwydr Tewkesbury yn 1471, pan laddwyd mab Harri VI a'i garcharu yntau (a'i ladd), ymddangosai fod gobaith plaid Lancastr ar ben. Wedi hynny cafwyd deuddeng mlynedd fwy heddychlon nag a gafwyd drwy gydol y ganrif; nid rhyfedd i Faredudd ap Rhys glodfori Edward IV (cerdd 13). Yr oedd y Cymry, fel rheol, yn hynod deyrngar i'r sawl a ystyrid yn frenin cyfreithlon.

Cefndir crefyddol y cywyddau duwiol (cerddi 15–20)

Y tebyg yw mai hyfforddi oedd diben pennaf y cywyddau duwiol. Yn ôl gorchymyn Archesgob Pecham yn Synod Rhydychen yn 1281, yr oedd hi'n ddyletswydd ar offeiriaid hyfforddi eu plwyfolion o leiaf bedair gwaith y flwyddyn yn holl arferion ac egwyddorion y ffydd, a gofalu am eu heneidiau.⁶⁸ Cyfeirid at hyn yn barhaus yn y bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed ganrif, ac yn y llyfrynnau i gynorthwyo offeiriaid yn eu gwaith cynhwysid rhigymau yn iaith y bobl. Nid yn aml y byddai offeiriaid yn pregethu; y brodyr teithiol a wnâi hynny fynychaf, ond teimlai Syr Rhys y gallai yntau drosglwyddo'r un neges mewn cywydd (cerdd 29), sy'n gymysg o frud a lladd ar bechodau'r oes.

I achub enaid rhaid credu ym modolaeth Duw, bywyd tragwyddol, y Drindod, yr ymgawdoliad, anfarwoldeb yr enaid, ac angenrheidrwydd gras. Pwysleisid breuder bywyd a sicrwydd angau nad yw'n arbed neb (cerddi 15, 17, 20); rhaid gochel y tri gelyn—y byd, y cnawd a'r anysbyrd (cerddi 17, 20); ffolineb yw casglu cyfoeth yn y byd hwn, llawer gwell yw ei ddefnyddio i brynu nef i'r enaid (cerddi 15, 19, 20); nid eir â dim i'r bedd. Wedi marwolaeth rhaid wynebu'r Farn a dewis pa un o'r ddwy ffordd i fynd, ai fry ynteu obry (cerddi 15, 20). Fodd bynnag, drwy'r ymgawdoliad daeth gobaith, a chan mai Mair a ddewiswyd i esgor ar y Drindod a meithrin y Gwaredwr y mae iddi rinweddau a gallu arbennig: Ddydd y Farn, pan fydd

⁶⁷ LGC 408 (llau. 17–18).

⁶⁸ F.A. Gasquet, *The Old English Bible and Other Essays* (London, 1908), 158–78 ac yn arbennig td. 163.

Mihangel yn pwyso ein gweithredoedd yn y glorian, bydd Mair yn rhoi ei phaderau gyda'n gweithredoedd da rhag i'r rhai drwg fod yn drymach (18.55–60).⁶⁹ Y mae'n bwysig cofio am ddiodeffaint Crist a'i groeshoelio; fe anrheithiodd ef uffern, rhyddhau'r etholedigion o'r cyfnodau cyn cred a'u dwyn i nef; gallwn ymbil arno yntau am ein dwyn ninnau yno (cerdd 16).

Yn ôl Syr Glanmor Williams rhyw gymysgedd ryfedd oedd crefydd Cymru'r cyfnod hwn o 'sincere devotion and blatant superstition, of rarefied mysticism and gross credulity, of Christian piety and semi-pagan mumbo-jumbo'.⁷⁰ Efallai na fyddem ni heddiw'n cymeradwyo'r cyfan o ddysgeidiaeth yr Eglwys, ond ni ellir gwadu ei bywiogrwydd a'i gafael ar gymdeithas. Y mae geiriau E.F. Jacob yn garedicach: 'So far from running down in this period, religion, not merely in literary and artistic forms, but in the fervour of corporate devotion and in popular appeal achieves a place in the ordinary life of the country which it has seldom been accorded by historians of pre-Reformation England.'⁷¹ Y mae hyn yn wir iawn am Gymru.

Yr oedd ail hanner y bymthegfed ganrif a dechrau'r unfed ganrif ar bymtheg yn gyfnod eithriadol fyw yn hanes crefydd yng ngogledd Cymru, cyfnod ailadeiladu a harddu eglwysi, cyfnod awr anterth y mynachlogydd pan oedd aelodau diwylliedig o deuluoedd uchelwrol lleol yn rheoli'r tai crefydd.⁷² Pa waeth os oedd yr esgobion yn aml yn estroniaid absennol, yr archddiaconiaid, 'llygaid yr esgob', a oedd yn gofalu am yr esgobaethau, ac aelodau o'r un teuluoedd uchelwrol oeddynt hwy, gwŷr a oedd yn gyfarwydd â natur ac ansawdd y cynulleidfaoedd dan eu gofal.⁷³ I ganlyn y gobaith o gael Cymro i wisgo'r goron tyfodd math o genedlaetholdeb, o ymwybod ac ymfalchïo ein bod ni'n genedl ar wahân. Oherwydd y diddordeb a flodeuodd yn y seintiau lleol, y canu iddynt, ymbilio arnynt a phererindota at eu creiriau gellid edrych ar y cyfnod fel Ail Oes y Seintiau. Gŵr a oedd yn rhoi sylw amlwg i gwlt y seintiau oedd Rhisiart Cyffin, Deon Bangor, c. 1477–1502, cefnogwr selog i Harri Tudur; byddai amryw o'r beirdd a oedd yn troi o gwmpas Mathafarn yn ymweld ag yntau hefyd.⁷⁴ Os y brodyr teithiol (29.1–2) a fyddai'n pregethu, y mae toreth o ganu'r offeiriaid ar gael, canu a oedd yn egluro egwyddorion y ffydd ac yn addysgu'r plwyfolion. Dichon fod y cywydd a'r englyn yn fesurau mwy cywrain na'r 'mesur esmwyth perfffaith' a ddewisodd y Ficer Prichard yn yr ail ganrif ar

⁶⁹ NCE VI, 702.

⁷⁰ WCCR² 464.

⁷¹ E.F. Jacob, *The Fifteenth Century, 1399–1485* (Oxford, 1961), 687.

⁷² CTC lxi.

⁷³ Gw. Browne Willis, *A Survey of the Cathedral Church of Bangor; and the Edifices belonging to it* (London, 1721), 131–46, D.R. Thomas: HDStA i, 247.

⁷⁴ Beirdd fel Llywelyn ap Gutun, Gwerfyl Mechain, Syr Siôn Leiaf.

bymtheg, ond nid newyddbeth oedd ei syniad ef; yr oedd offeiriad Cymru'n hyfforddi ar gân ers cenedlaethau lawer.

Y cywyddau serch (cerddi 21–4)

Y mathau arferol o ganu serch a geir yma. Yng ngherdd 21 y mae'r ferch yn gwrthod y bardd; cymharer cywydd Dafydd ap Gwilym 'Morfudd fel yr Haul';⁷⁵ canu 'Eiddig', y gŵr eiddigeddus, yw cerdd 22, a mawl i'r wraig a gogan i'r gŵr (Eiddig eto) sydd yng ngherdd 23. Taran yn tarfu ar yr oed yw testun cerdd 24, cymharer 'Cywydd y Ddyluan' a briodolir i un o gyfoedion Maredudd ap Rhys, Syr Siôn Leiaf.⁷⁶

Awgrymwyd droeon mai cyfle i fardd fwrw prentisiaeth oedd llunio cywyddau serch, ac mai fel math o ymarferion llenyddol y dylid edrych arnynt. Gallai sinig awgrymu bod hyn yn gyfle i offeiriad fyw bywyd ffantasi, ond yr oedd Maredudd ap Rhys a Syr Rhys yn briod.⁷⁷

I gloi

Yn y casgliad hwn ceir cipolwg ar ddsbarth neilltuol yng nghanolbarth Cymru yn ail hanner y bymthegfed ganrif, offeiriad diwylliedig a fyddai'n ymhél â phrydyddiaeth ond nid am dâl. Yr oedd eu clust yn agos iawn at y ddaear; yr oeddynt yn ymwybodol o helyntion y cyfnod ac yn gyfarwydd, o bosibl, â pheth o'r cynllwynio. Byddent yn troi, o bryd i'w gilydd, yng nghwmni'r mân uchelwyr, ac yn cydlenydda ag ambell fardd swyddogol, a hynny heb esgeuluso gofalu am eneidiau eu plwyfolion. Nid oeddynt yn diystyru pregethu (29.1–2), ond prydyddu oedd eu prif gyfrwng hwy i ledaenu'r neges. Yn ogystal â thraethu egwyddorion y ffydd yr oedd rhywbeth hynod ymarferol yn eu crefydd. Y rhinwedd bennaf oedd rhoi elusen: mewn cyfnod pan nad oedd dim ar gyfer yr hen a'r amddifad, y claf a'r methodig ond dibynnu ar gymorth a haelioni rhai gwell eu byd, dyna a oedd yn prynu nef i'r enaid (cerddi 19, 20).

Byddai'n ddiddorol, ac yn fanteisiol, cael casgliad helaeth o waith y beirdd-offeiriad hyn. Nid yn unig ceid gwybodaeth am y ffydd a chredoau'r cyfnod, ceid hefyd awgrym pa rannau o'r Ysgrythur a oedd yn hysbys yng Nghymru pan nad oedd ond testunau Lladin ar gael. Trwy gasglu ymadroddion beiblaidd a chyfeiriadau at yr Ysgrythur ceid cipolwg ar y cyfieithu a oedd yn cael ei wneud gan unigolion cydwybodol, a rhoddai hynny syniad i ni pa gymorth a oedd ar gael i gyfieithwyr yr unfed ganrif ar bymtheg.

⁷⁵ GDG³ 114–16 (cerdd 42).

⁷⁶ LIGC 17114B, 347.

⁷⁷ Gw. td. 2.

1
Cywydd y fwyall
Maredudd ap Rhys

Bu anfudd dyrnod bwyall,
A'r neb a'i gŵyr ni bu gall.
Neidiodd o ran nad oedd rus
4 Yn nhop y troed anhapus.
Llamodd a chyfeiriodd fi,
Llem oedd wrth roi llam iddi.
O Dduw, pam wrth ei thramgwydd
8 Yn torri 'nhroed? Nid twrn rhwydd.
Ymadael dros 'y modïau
Â'i menybr, och! i'w min brau.
Troi ei min i'm twrn a wnâi,
12 Ac â'i chil y'm gochelai.
Torres yr Wyddeles ddur
Y traws fysedd tros fesur.

Nid diriaid iawn eu torri,
16 Nid gwaeth ar faeth yr wy' fi;
Nid af o dir Syr Dafydd
Petai 'y nhroed pwt yn rhydd.
Ni bu neb, o iawn wybod,
20 Well ei fwrdd, ni allai fod.
Bardd dig a gaiff y bwrdd da,
Diwedd Eigr a'i dyddia,
Arglwyddes aur o Gloddaith
24 A fydd i mi o fedd maith.
Garlliw rodd ger ei llaw'r wyf,
A chredir, iacháu'r ydwyf.
Swyno ym a wnaeth Sioned,
28 Y wraig rym orau o Gred.
A medd i swyno i mi—
Mae a wyddiad fy meddwi.
Swyno â hwn sy yn hawdd,
32 Hebddaw swynaw sy anawdd.
O droed drwch yn y dydd drud,
Toriad asgwrn troed esgud,
Cynyddodd cyn ei addef,
36 Cael y medd a'i clymodd ef.

40 Y saint trwy lysiau Ieuan,
 A minnau gas fedd glas glân.
 Meddyg gŵyr fydd gŵr meddw, gau,
 Medd, gwin fy meddyg innau,
 Gydag a wnêl Llywelyn,
 Ei iechyd oedd iacháu dyn.

44 Deubeth ni cheir eu deuben
 On'd â byd na da i ben,
 Pyst haul yn golau pob parth,
 A chlod y ferch o Lwydiarth.
 48 Archaf gael o ferch Ddafydd
 Oes yrhawg, Iesu a'i rhydd,
 Rhag amled ym yfed medd,
 A haelioni haul Wynedd.

Ffynonellau

A—Brog (y gyfres gyntaf) 4, 97 B—BL Add 14882 [= RWM 31], 100^v
 C—BL Add 31071, 108^r

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 145–54.

Amrywiadau

5 C Llanwodd. 22 ABC ai dyddie aga. 33 C Od oedd drwch. 38 ABC gafas.
 44 B ond ar byd; A ond da r byd nad a i ben. 46 C i ferch. 48 [C].

Cywydd i Grog Caerlleon
Maredudd ap Rhys

Garllaes fŷm o'r gwayw oerllwm
 O'r glun a'r troed a'r glin trwm;
 Ni allwn ffo mewn llan na ffair
 4 Ond llusgo y naill esgair.
 Mae'n hawdd i minnau heddiw
 Wylltio ar hyd allt a rhiw.
 Pa nad iach o'm penyd wyf?
 8 Pedestr mawr ei hap ydwyf.

Gwir a brau 'y mod ger bron
 Gŵr llawir o Gaerlleon.
 Y Grog drugarog, wiwrym
 12 A fu, Dduw gwiw, feddyg ym;
 Urddasol arwydd Iesu
 Urddedig o feddyg fu.
 Miragl Duw a gymerais—
 16 Mae'r glun heb y nemor glais.

Llun Duw yng Nghaerlleon deg,
 (Lle rhoed ym allu rhedeg),
 Yn yr un modd y'i rhodded
 20 Ar bren croes i brynu Cred.
 Pam ond er prynu pumoes
 Yr âi Grist awr ar y groes?
 Duw oedd pan fu'n dioddef
 24 A'i fron yn waed, Frenin Nef.
 O nef y daeth yn ufydd,
 I nef yr aeth yn fyw, rydd,
 A'i lun yn reiol enwog
 28 Sy grair yn Eglwys y Grog.

Llyna'r ddelw fyw a elwir,
 Llanw a'i dug dduw Llun i dir.
 Llawenydd i'r dydd a'r don
 32 A'i llywiodd i Gaerlleon,
 Lle daeth nerth a gallu dwys
 O law Agla i'w eglwys.

Mawr firagl Mab Mair Forwyn
 36 A'i wyrthiau sy orau swyn.
 Meddyg a wŷr modd a gwedd
 Yw'r Grog i wŷr a gwagedd.
 A fu feddyg ufyddach?
 40 A fynnai, a wnâi yn iach:
 Crupul i gerdded y gwledydd,
 A dall i weled y dydd,
 Byddar clustgraff yn braffddadl,
 44 A mud i ddwedyd ei ddadl,
 Ynfyd a wŷr synhwyrail,
 Fu afiach, yn iach a wnâi,
 A'r miragl pur a'r mawredd,
 48 A'r marw yn fyw o'r murn fedd.
 Ef a gyfodes Iesu
 Lasar o fol ddaear ddu,
 A dynion meirw dianach,
 52 Pan fynnai, a wnâi yn iach.

Ffyrf wyf, Iôr y Ffurfafen,
 Iacháu 'y mhwynt uwch 'y mhen;
 Ac iach wyf, a gwych hefyd,
 56 O wyrthiau'r Gŵr biau'r byd.
 Y gwayw oedd i'm gŷau i
 Yn gweithio yn y gwythi,
 Trwy Dduw y treiodd ei waith—
 60 Tri symud a'i troes ymaith:
 I'r glun y bu'r gelyniaeth,
 O'r glun ddiig i'r glin ydd aeth,
 O'r glin i'r troed, gwâr lonydd,
 64 O'r troed i'r coed rhoed fi'n rhydd.

Ffynonellau

A—Pen 312, iii, 25 B—BL Add 14967 [= RWM 23], 37 C—BL Add 14876, 79^v D—BL Add 31071, 93^v

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 145–54.

Amrywiadau

1 *BD* a gwayw. 2 *A* troed ir glin. 4 *C* yn llusgo. 6 *C* âllt y rhiw. 10 *C* Gŵyr llawer. 12 *C* dduw gwir, *D* dduw gwyn. 14 *C* Urddedig Feddig a fŷ. 16 *C* heb nemor o glais. 21 *AD* i brynnu. 23 *BD* vv dioddef. 25 *AB* doeth. 29 *C* ddelw llawn addolir. 34 *A* aglaw, *C* a glaw. 45–6 [*A*]. 46 *C* A'r afiach, *D* Un

aviach. 49 *A* yfo a roddes yr Jessu. 52 *BD* vo ai gwnaeth yn vyw ac yn iach, *C* Fe'i gwnaeth yn fwy ag yn iâch. 53 *BD* yw ior. 55 *A* *A* gwych wyf ag iach. 60 *C* Trwy ddiamau trôdd ymaith. 61 *C* I'r Glûn y rhoed gelyniaeth.

*Cywydd hiraeth am Syr Rhys
Maredudd ap Rhys*

4 Hiraeth a wnaeth ym neithwyr
Am wŵr hael gysgu mor hwyr;
Y mae, yn y llygaid mau,
Heno nos hun yn eisiau.
8 Hiraeth deugaeth hydygwyn
Heno 'dd wy' fy hun i'w ddwyn.
Dyn, oherwydd dwyn hiraeth,
Nid â yn well ond yn waeth.
12 Mwy a' hiraeth 'y mywyd
Am wŵr byw yw'r mau o'r byd.
Sorrais pan gefais hiraeth—
Syr Rhys i Bowys yr aeth.

16 Un trist wyf o'i fyned draw,
On'd drwg hyd y mae'n trigaw?
Ni ddaw i'r claim neddair clod,
Ofni 'dd wy' ni fyn ddyfod.
Ni edir i un adwy,
Ni chair o Lanbryn-Mair mwy.
20 Sonwyr cyweithas yno
A glyw fawl o gwyl efô;
Yntau â'i eiriau a wŵr
Cyd-sôn lle y caid synnwyr—
24 Sôn gwawd a chytsain a gwŷr,
Serchog Cyfeiliog filwyr.

28 Ni roddynt yno ruddaur
Syr Rhys, er ei bwys o'r aur.
Och ym un amser o chaid
O'i ben air ni bai'n euraid.
Geiriau teg, pan geir oed dydd,
Digrifion diagr Ofydd;
32 Geiriau o'r llyfrau yw'r llail,
A geiriau serchog eraill.
Saer awdl pob mesur ydoedd
Syr Rhys, a'n confessor oedd;

- 36 A chlo'r iaith, uchel ei wraidd,
A chywyddol merch weddaidd.
- Trist yw rhianedd ein tre,
A didrist pe dôi adre.
I ddiawl i'r gwÿdd a welwn
40 Ddeilio hyd oni ddêl hwn.
Nen hud aeth dros Nanheudwy,
Ni chân adar mân air mwy;
Llais ceiliog bronfraith weithian
44 A glywaf i yn glaf wan;
Mwyalch yn ei phlu mwyar
Mwy ni chwsg, minnau ni châr;
Eos aeth, er ys wythawr,
48 A chog i Gyfeiliog fawr.
- Minnau a af â'm annedd
I Fryn-Mair, dafarnau medd,
Lle mae'r adar, lafar lais,
52 A'r gŵr mwyaf a gerais.
Ac ef aeth gydag efô
Ddiddanwch hoywddydd yno;
Aeth haul lluniaeth haelioni,
56 Aeth, aeth, cam a wnaeth â mi;
Aeth y mawl a'i lif melys
Y sir oll gyda Syr Rhys.
Mynydd a choed a maenol—
60 Mae'n wag bob man yn ei ôl.
Mae rhai yn wylo mor hallt,
Oes, o'i eisiau 'Nghroesoswallt.
Am na welir mae'n wylaw
64 Ac yn drist serchogion draw.
Ni bu ddyn ar na bai ddig,
Ni bydd, er ni bo Eiddig.

Ffynonellau

A—LIGC 3050D [= Mos 147], 66 B—LIGC 17114B [= Gwysanau 25], 286

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 145–54.

Amrywiadau

15 *AB* nedda yr klod. 30 *AB* diagyr. 57 *A* aelif, *B* ailiv. 63 *AB* maen yn wylaw. 66 *AB* ar.

*Mawl Syr Siôn Mechain, person Llandrunio
Maredudd ap Rhys*

4 Y gleisiad o eglwyswr
 A'r glain nod, a'r glân o ŵr,
 Syr Siôn, berson bybyrsaig
 4 Llandrunio, dan gryno graig,
 Llew aur Mechain, lliw'r muchudd,
 Llyna ŵr un llaw â Nudd.
 8 Gŵr mawrgryf, grym ei orgraff,
 Gorau perchen tŷ pren praff.
 Fo rydd ym mron craig Freiddin
 Fwyd ac aur wrth yfed gwin,
 12 A bragod gloywber agwedd,
 A brig cwrw 'Mwythig, a medd.
 Pawb, i dyddyn pab Deuddwr,
 Pe bai gant, y cyrch pob gŵr.
 16 Dioer na rôl'n Llandrunio llys
 Drinio, er da yr ynys.

Yn y man yno y mynnwn
 Fy mod, hir yw'r cyfnod hwn;
 20 Y gaea' du ni'm gad i,
 A'r henaint, och i'r rheini!
 Och i'r trimis chwerw trymion,
 A'r eiry a'r rhew sy'r awr hon;
 24 Dunos hir ar greigdir grug,
 Dydd byr heb doddi barrug.
 Darfod y mae y gaeaf
 Fel y derfydd hirddydd haf.
 28 Duw, o cheir mis dichwerw mwyn,
 Da gennyf, diwedd gwanwyn.
 Pasg yn ôl y Nadolig
 Pur a ddaw, heb neb rhyw ddig;
 32 A'r gog ddoniog, ddianach
 I roi ysbonc, a'r eos bach,
 A dail glas ar dalog lwyn,
 A gwennol ddiwedd gwanwyn.

36 Dechrau'r fan dichwerw ar fyd,
 Dechrau haf dichwerw hefyd,
 O myn Duw, fel damwain dis,
 I mi orfod y marwffis,
 40 Syr Siôn, lle mae'r gras a'r sâl,
 Ydd af ato'n ddfwtrial,
 Draw i Lan-, lle dyry wledd,
 Drunio, i'w dir a'i annedd.
 Fry cefais, heb frig gofal,
 44 Fawredd teg ar ei fwrdd tâl.
 Treulio bwyd, trwy elw y bydd,
 A fu raid i Faredudd.
 I mi ni adai fy mur
 48 Ar ei seigiau awr segur.

Syr Siôn, mwy yw'r siars a'r saig,
 Myn Asa', nag mewn nawsaig.
 52 Sôn yn y byd sy na bu
 Saig i wr haws ei garu.
 Ni châr eiriach ei fara,
 Na gwrthod y ddiod dda.
 Nid eiriach y min iach mau
 56 Na'i sew agwrdd na'i seigiau.
 Ni bu mor glotgar barwn,
 Ni buont hael neb ond hwn.
 Ni byddwn heb ei addef,
 60 Ni bôm heb ei wyneb ef.

Ffynonellau

A—LIGC 17114B [= Gwysanau 25], 478 B—LIGC 6681B, 181 C—Card 5.167 [= Thelwall], 102^v–103^r (*daw f. 100 rhwng ff. 102 a 103*)

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 145–54.

Amrywiadau

16 *B* da or ynys. 31 *ABC* ddiynach. 49 *AC* mwyr siars, *B* newidiwyd i mwy fy ar i siars. 51 *AC* byd os yna bv. 56 *AC* agwydd.

*I Syr Siôn Mechain, person Llandrunio
Maredudd ap Rhys*

- Selais, ni chefais olud,
Solas Adda Fras ar frud.
Ynfydu gŵr anfadwych
4 A wnâi'r brud anniwair, brych.
Addo dyfod, amod oedd,
Gŵr marw dros gyrrau moroedd;
Haws oedd ddwyn i dir Gwynedd
8 Gŵr byw nag agori'r bedd.
Cymro gwych, cam yw i'r gwaith,
Cyw'r wennol, nas ceir unwaith.
Tarw tridyblyg naturiaeth
12 Torri â nyini a wnaeth.
Dagr ym mol y byd awgrim,
Am addaw'r gŵr ni ddaw ddim.
Deall y bûm chwe diau
16 Chwedl y barcud o'r brud brau;
Hwnnw a gyrch ei hennyth,
Yn iach bellach, bellach, byth.
- Af â'r brud i'w fwrw i'r brain,
20 Oferwaith fu ei arwain.
Doethach ym fyned weithian
I barlwr eglwyswr glân;
Bwriadu coeth a bryd call
24 I bryderu brud arall,
I'r hwn, mi a'i gwn i gyd,
Y caf wraidd cyfarwyddyd.
Pob gwers yn llyfr y person
28 Sy'n wir, myn Iesu a Non.
Syr Siôn hael sy rosyn haf,
Mechain, yn y salm uchaf.
Yr eryr hir ei wryd
32 Biau gwybodau y byd.
Mae natur ym i neitiaw
Ato, i Landrunio draw.
Gwae fi Dduw a Dewi deg
36 Am hyder ym i hedeg!

Pe mau esgyll mentyll mawr
Yno mi awn yn unawr.

- 40 Ni ddeuaf, od af i'w dai,
Ddeufis o'i neuadd ddifai.
Ymado, i gurio gŵr,
Nid hawdd ag enaid Deuddwr.
44 Y mae arnaf, mau oernad,
O mynnwn wledd mewn un wlad,
Hiraeth am berchen hoywryw
Llandrunio, hir y bo byw.
48 Caru mae perchen corun
Cynnal llys mewn canol llyn.
Ni wn eithr hwn athro hael,
Nid un wyneb dyn anhael.
52 Derwen fawr lle rhoid arian,
Dyry mwy na'r derw mân.
Da yw'r lliw, benadur llên,
Darlleodr dewr a llawen.
56 Dewrder sy raid i wrda
Gyda'i ddysg i gadw ei dda.
Pedr a fu ddewr, 'ym Padrig,
Pwy'n fyw un ddysg pan fai'n ddig?
60 Pedrog wrth ei rywogaeth
A fu ddewr, i nef ydd aeth.
Siars a wnaent, Syr Siôn yntau
Y sy ddewr megis y ddau.
64 Dewr fu fel Derfel o faint,
Dêl i hwn hoedl a henaint.

Ffynonellau

A—BL Add 14967 [= RWM 23], 88 B—BL Add 31071, 96^v

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 145–54.

Amrywiadau

26 AB y kyvarwyddyd.

*I Wiliam Eutun i ofyn bwa
Maredudd ap Rhys*

4 Wiliam, iôr waywlym eryr,
 Eutun, gwalch ffortuniog wŷr,
 Glain y tad galawnt ydwyd,
 Ac och ym! onid gwych wyd.
 Mae ffrîw yt a lliw a llun,
 Oes, a natur Siôn Eutun;
 8 Angel heb ryfel brofiad,
 Llawen gwych, a llew 'n y gad,
 Gŵr dewr lle bo geiriau dig,
 Gwrol, fel Gei o Warwig.
 12 Gwreiddyn mab a gwŷr iddo,
 Gwrol fydd ei gweryl fo.
 Gorau swydd dewr, gwŷr sydd dau,
 Gosawg dewrfalch, gwisg d'arfau;
 16 Lladd a wna pob lluyddwr,
 Llyma'r byd enbyd i ŵr.

Mae dy gyngor, dewr ŵr da,
 I mi, f'ewythr, am fwa?
 20 Arf dda yw bwa o bell,
 A chystal fydd â chastell;
 Ef a'm ceidw rhag direidwyr
 Arf o goed ac a friw gwŷr.
 24 Dewr a'i dwg wrth dorri'r dydd,
 Dillyn cefnwyn cyfiawnwydd;
 Enfys dan bedwarbys dyn,
 A'i fol yn dân ufelyn,
 A'i ledu fel dôl eidion
 28 Dros fy mraich ar draws fy mron,
 A'i ollwng ef a ellir
 I fwrw saeth ofras hir.
 Ei rhan, ef a bair honno
 32 I ar y ffordd i wŷr ffo.
 Nid gwell lle disgyn, nid gau,
 Llurig na charthen lloriau.
 Bwa o'r yw o bai raid
 36 A rôl darf i rai diriaid.

40

Y mae yt, Wiliam Eutun,
 Fwa yn llaw fain ei llun;
 Dyro, dy gnawd a eurer,
 Dy fwa i'th nai, difaith nêr.
 Os caf i'm cadw 'mhob adwy
 'Y nhyb y bydda' fyw'n hwy.

Ffynonellau

A—BL Add 14967 [= RWM 23], 7 B—BL Add 31071, 98^v

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 145–54.

Amrywiadau

17 *AB* dewr Ior da. 26 *AB* dan i felynn. 42 *A* vyw yn hwy.

*Cywydd i ofyn rhwyd bysgota gan Ifan ap Tudur o Lanufudd
Maredudd ap Rhys*

Ifan dda o fewn ei ddydd,
 Gorau Ifan ei grefydd;
 Pendefig, pwy un dyfiad?
 4 Penadur o Dudur dad.
 Llin union, llew un annwyd,
 Llaw Nudd, â llin Ruffudd Llwyd.
 Hil ac etifedd haelwych,
 8 Hael iawn o fraint Heilin Frych.
 Ni bu eryr na barwn
 Mor hael ag yw'r Cymro hwn.
 Da wr ei fodd, dewr ar farch
 12 Wyd, a llew o waed Llywarch.
 Da yw'r lliw, y darllëwr,
 Da dy nerth, od adwen wr.
 Dy ras a aeth ym dros Siob,
 16 Dy ddysg fel Dafydd Esgob.
 Mawrddysg synhwyrâu Merddin,
 Mae'r ddwy gyfraith faith i'th fin;
 Mewn dadl ni cheir man didwyll,
 20 Cymen ond o'th ben a'th bwyll.
 Drudwych yn y frwydr ydwyd,
 A sant yn yr eglwys wyd,
 Un difalch yn y dafarn,
 24 Athro y beilch wrth roi barn,
 Yn wr tal yn yr oed dydd,
 Yn Ifor yn Llanufudd.
 Pawb a wyr bod tafod doeth
 28 I chwi Ifan, a chyfoeth.

Poed hir, gair gwir, y gwr gwych,
 Foch o nerth, f'achwyn wrthyich:
 Hely'r wyf hoywalau'r afon
 32 Ar hyd dwr â'r dryllrwyd don;
 Gweled pysgod brig Alun,
 Gwylio'r wyf heb gael yr un.

- 36 Praff awdur y'm proffwydwyd,
Prudd yw Maredudd am rwyd.
Ef a'i prawf, gwell gan fab Rhys
Eitha'r dŵr na thir dyrys.
Esgud yr af i'r afon,
- 40 A chael haf i chwilio hon,
A chael ynn a cheulennydd,
A chael rhwyd uchelwr rhydd.
Y mae rhwyd lân, amcan iôr,
I chwi, Ifan, awch Ifor.
- 44 Medd a'i gŵyr, mae iddi god
A basgau a ddeil bysgod.
O cha' rodd, chwenychu'r wyf
48 Eich rhwyd, a'i herchi'r ydwyf.
Rhawd frythylliaid o rhodir
Rhwng deuddyn a dynn i dir.
Dwy ffon ydyw ei ffyniant
- 52 I'w diwyd waith, a'i dau dant;
A'i gwydraidd blwm i'w godrau,
O thramwy hon, i'w thrymhau.
Fry yn bert ei dwyfron barch,
- 56 Obry'n gau, wybren gywarch;
Gwe deg i anrhegu dyn,
Gaened fel diliau gwenyn.
Brwydrai'r dŵr, bwriwyd ar dant,
- 60 Brecini aber ceunant;
Llurig o waith llaw wrol,
Llaes ei hun llawes o'i hôl.
Dŵr hardd a dorri'r â hi,
- 64 Dŵr a dreiddia, dioer, drwyddi.
Drwy y dwfr dy rwyd, Ifan,
A ddaw o led i'r ddwy lan.
- 68 Gras mawr y Grawys ym oedd
Gael rhwyd, a gwylio rhydoedd;
A'i chael yn rhodd gennyh chwi,
A cherdd a geffwch erddi.

Ffynonellau

A—Gwyn 3, 129^r B—LIGC 6495C, 89 C—BL Add 14866 [= RWM 29],
210^r D—LIGC 5265B, 40^v E—Llst 11, 113 F—Card 4.101 [= RWM 83],
141^v G—LIGC 3050D [= Mos 147], 528 H—CM 4, 19 I—BL Add 14976
[= RWM 22], 216^v J—BL Add 14969, 379 K—Card 1.550, 61

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 145–54.

Amrywiadau

1 *AC* Juan ddoeth. 5 *F* llew anynwyd. 5–6 [*ACEH*]. 8 *BH* hael iawn i fraint, *GK* hael vn fraint, *IJ* hael un fraint o. 12 *GJK* y llew. 15 *BH* ynn dros; *DFGIJK* sy vn dro a siob. 19 *DFGK* ni cheid, *I* ni chaid, *J* ni gaid. 21–2 [*B*]. 29 *AC* gair penadur. 30 *DFI* fo ywch nerth, *G* a fo vwch nerth, *K* a fo iwch nerth, *J* a fo'ch nerth. 31 *IJ* helwr rwyf. 43 *I* Mae rhwyd lan mawr huodl ior, *GJK* mae rhwyd lan mawl hudol Ior; *F* mor huawdl jor. 45–6 [*GJK*]. 47 *A* Uchaf rhodd. 52 *DFGIJK* ai diwid; *F* waith rhwng dau dant. 53 *AC* Gwydraidd blwm yw i godrau. 54 *FJ* a thramwy. 55 *A* yn berth; *DF* a dwyvron. 61–2 [*F*]. 64 *AC* draw drwyddi. 67 *A* a grawys. 70 *J* a gerdd; *D* kymerwch erddi, *F* hwdiwch i erddi, *GK* a hwdiwch erddi, *I* hwdiwch chwi i erddi, *J* hwdiwch chwi erddi.

*Cywydd i Ifan ap Tudur o Lanufudd i ddiolch am y rhwyd
Maredudd ap Rhys*

- Pa ŵr ydwyf tra fwyf iach?
Pysgodwr pwy esgudach?
A mil o bysgod Maelawr
4 Ar fy mwrdd, llyna rif mawr.
Pawb yno sydd pob nos Iau
Yn aros y Gwenerau.
Deliais ar nos Nadolig,
8 Pa waeth dydd caeth na dydd cig?
Hawddamor i'r catgoriau,
Hawddfyd bwrw yr ynyd brau.
Paham na ddaw y Grawys
12 Mal y daw mefiliau dwys?
Ystyried teg ystôr tŷ
O rwyd aml a roed ymy,
Ysgo ebrwydd ysgubwraig,
16 Ysgipiol ar ôl yr aig.
Mân a bras, y mae'n brysur,
A ddeil y rhwyd a ddly'r hur.
- Pwy a'i rhoes o hap a rhan?
20 Pendefig, pwy ond Ifan
Ap Tudur, awdur ydyw,
Llew doeth ap Gruffudd Llwyd yw?
Llin Heilin, llon ei hiloedd,
24 Frych, a'i law ail Frochwel oedd.
Llyna'r mab a'r llun a'r modd
Yn ŵr addwyn a wreiddiodd.
Boneddigaidd yw'r gwreiddyn
28 O bwriwyd twf ar bryd dyn.
Gŵraidd a geidw ei gweryl,
Gwalchmai y'i galwai a'i gwyl.
Gŵr drud wrth agori'r drin
32 Fu ar wanar i'w frenin,
Gŵr yn rhaid, gwir anrhydedd,
Gwych â'i law â gwayw a chledd.
Ar ddydd ef a ŵyr ddyddio,
36 Ac ar far gorau yw fo.

- Heliwr yw'r gŵr a garwn,
 Hoedl hir fo i'r huawdl hwn.
 Helied Ifan, hael dyfiad,
 40 Ar ei dir teg wir dre tad.
- Mewn awr dda minnau ar ddŵr,
 O fodd hael, a fydd heliwr.
 Madog wych, mwyedig wedd,
 44 Iawn genau Owain Gwynedd,
 Ni fynnai dir, f'enaïd oedd,
 Na da mawr ond y moroedd.
 Minnau rhodiaf yr afon
 48 Ar hyd y gro â rhwyd gron.
 Gwell bod yn wraig pysgodwr
 Na'r rhai nid elai i'r dŵr.
 Pedr, mawr ei hap ydoedd,
 52 Pysgodwr, oreugwr oedd.
 I'r un helwriaeth yr af,
 Mwy na Phedr mi ni pheidiaf.

Ffynonellau

A—LIGC 6495C, 90 B—Gwyn 3, 130^v C—BL Add 14866 [= RWM 29],
 211^r D—Llst 11, 117 E—CM 4, 23 F—BL Add 14969, 506 G—BL Add
 14976 [= RWM 22], 236^r H—LIGC 727D, 165

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 145–54.

Amrywiadau

4 *BCH* dyna rif. 15 *H* osgo. 21 *B* Mab Tudur. 23 *BC* o hiloedd. 25 *D–G* or
 llun. 28 *BC* bwriwyd twf ar y bryd hyn. 29 *BC* gwr yw a geidw. 32 *FG* fo ar.
 35 *ABCE* Ar dydd. 38 *B* hudol hwn, *C* hydol hwn. 40 *BC* ar y tir teg wedi r
 tad. 48 *EF* ei gro. 51 *H* gwr o hap.

*Cywydd i ofyn cwrwgl gan Siôn Eutun
Ifan Fychan ab Ifan ab Adda*

Meddylio'dd wyf o nwyfiant,
 Meddwl chwith, mau ddala chwant,
 Pa fodd y dof, cof cyfiawn,
 4 I gael pysg o'm dysg a'm dawn
 Sydd yn Rhedmor bob bore,
 Myn Duw glân, mae'n deg ei le.
 Ni ddaw i'r tir, ddir ddarnu,
 8 Nid â dyn llwfr i'r dwfr du;
 Ac am hyn, ennyn annerch,
 Rhaid ym anfon drwy sôn serch
 Lle mae gŵr, llyma gariad,
 12 Heilin wledd, haela'n y wlad.
 Afraid doedyd i fudion
 Enw'r gŵr fyth, syth yw Siôn,
 Ynad fraint, enaid y fro,
 16 Eutun, anfonaf ato.
 Ceisio'dd ydwy' mwy na mil
 Cennad o ryw ddyn cynnil,
 Er hyd y bwyf, di-rwyf dro,
 20 A'm enaid yn dymuno.
 Adeilad yw f'adolwyn,
 Fy ngherdd a ddetyd fy nghwyn
 Am gwrwgl i ymguraw
 24 Am y pysg drud cyn Pasg draw.
 A minnau, fel y mynnwn,
 Dyn hael, yn dymuno hwn;
 Duw Gwener mae digoni,
 28 Y mae ar unsaig â mi.

Crair lledr, croywair Lladin,
 Cowdrwm du, caeadrwym din;
 Bold gweddus, baeled gwiddon,
 32 Bylan tew ar lethr blaen ton.
 Hoedl i'r corff, lun hidl o'r cwm,
 Herlod i gythraul hirlwm;
 Cefn ysgâl megis mâl melltt,
 36 Cod groenddu, da ceidw grinddellt.

Mal ennill yw moliannu
 Y gerwyn deg o groen du.
 Bwyled sud be celid sôn,
 40 Bas ydyw, o bais eidion;
 Hanner brân yw hwn ar bryd,
 Toron gŵyr nofio teiryd;
 Padell ar ddŵr, ni'm pydia,
 44 O groen cu eidion du da.
 Pe soniwn, eurwn araith,
 Hyd ddydd brawd, myfyrdawd maith,
 Ni wn ddoedyd ehudair
 48 Aren o'm pen am y pair,
 O gred ar y twredyn
 Camp dda, ond rhoi cwymp i ddyn.

Er hyn, dyfyn diofal,
 52 Rhaid ym fyth, ŵr syth fy sâl,
 Diolch i'r gŵr, myn Dewi,
 Rhwydd am aur a'i rhydd i mi.
 Drwy 'styried, ail roddged ryn,
 56 Eto, y mab o Eutun,
 Am orfod ym, drallym dro,
 Bryd addysg, brydu iddo,
 O rhydd Siôn, fawr ddigoni,
 60 Rhwydda' mab, y rhodd i mi,
 Y cwrwgl ym er cariad,
 A rhwyf, ni chaf ddim yn rhad.
 Gwybydded Siôn, greulon grair,
 64 Mogeled fy mygylair,
 Cana' gywydd cyn gaeaf,
 Naws cwyn, os y rhodd nis caf;
 Gwrdd ddyfyn o gerdd ddifai,
 68 A gwir ddychan fydd rhan rhai.

Ffynonellau

A—Pen 64, 69 B—BL Add 14866 [= RWM 29], 212^r C—BL Add 14882
 [= RWM 31], 7 D—Gwyn 3, 131^v E—LIGC 3051D [= Mos 148], 261 F—
 LIGC 11087B, 30^v G—LIGC 3050D [= Mos 147], 207 H—Pen 99, 579
 I—LIGC 5269B, 125^v J—BL Add 14966, 270^v K—Pen 152, 234 L—CM
 12, 385 M—Card 1.2 [= RWM 12], 226 N—LIGC 11816B, 40^r O—BL
 Add 12230 [= RWM 52], 106 P—BL Add 14969, 227 Q—Bangor (Mos)
 9, 86^v R—Pen 198, 292 S—LIGC Mân Adnau 1206B [= Tanybwllch 1],
 272

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 145–54.

Amrywiadau

1–28 [Q]. 1 *A* pa nwyfiant, *D* am nwyfiant, *JKOP* om nwyfiant, *F* pa nwyfiant (*cywiriwyd yn om nwyfiant gan law arall*), *C* pa nwyddiant. 2 *J* meddala chwant. 5 *DEIKORS* sy n rhedeg mor bôb bore; *AF* hedmor; *P* llyn Redmor. 6 *FH* mwyndec ei le. 10 *G* rrvw son; *H* swyn serch. 11 *GJL* llym i gariad, *CIKNP* llawn i gariad, *EOS* llawn o gariad, *BD* howddgar fwriad. 13 *H* os rhaid doedyd ehûdion, *GJP* os Raid dwedyd i hvdion; *IKO* ehudion, *N* i hydion. 16 *ACF* anvoned. 17–18 [HL]. 19 *AF* drymglwyf dro. 22 *R* attebed fy. 24 *L* Cawn y pysg. 27 *N* im digoni. 27–8 [GH]. 29 *HJL* lledr yw'r croyw air; *BD* croyw yw'r Lladin, *Q* ywr croyw air lladin. 31 *HL* baled. 32 *CFGIKMN* bwlan, *BD* bilain. 34 *H* Heûlrod, *S* hirlod, *E* hvrlod, *P* hevrlad, *N* heiriad. 35 *IK* Kafn. 37–60 [Q]. 37 *BD* Mal ynyd. 39 *L* Clywid sôn, *R* celid son *gyda* clywid son *yn amrywiad*. 41–2 [H]. 42 *AFP* Tarian, *CGMN* taran, *IKO* toryn. 43 *BD* peidia, *H* pedia. 48 *S* acen. 49 *BD* am y twred tynn; *CN* twred ydyn; *A* ir twred toryn. 54 *J* rhwydda modd; *BDEPR* am air, *L* am aur (*cywiriwyd yn am air gan law arall*). 55 *F* drwy styried ail roddged rym (*cywiriwyd yn drwy 'styried rhodddged er hyn gan law arall*), *EJR* ystyried rhodddged er hyn, *BDL* Ystyried rhodded er hyn. 55–60 [HKO]. 55–6 [G]. 57 *GJ* Er gorfod. 58 *BDEIJLRS* bryd addas. 59 *GJ* sion er digoni. 63 *BD* gwybydded greuloned grair; *L(R)* groywlon grair. 63–8 [Q].

Cywydd ateb
Maredudd ap Rhys

- Ystod hir wastad hoywrym,
 Astudio'r wy' wastad rym
 Am gywydd, diddeunydd da,
 4 Ym a ddanfoned yma
 I erchi'n hy' gwedy gwin
 Y tlws lle cad Taliesin:
 Boly croen ar waith bual crwn,
 8 Blwch byrflew, tondew, tindrwm;
 Basged ddelw bysgod ddyllyn,
 Bach dudedd blaendwr lled llyn;
 Rhyw swm cod ledr wrth edrych,
 12 Rhidyll yn dal brithyll brych;
 Nofiwr o groen anifail,
 Noe serchog foliog o fail.
- Pwy'r gŵr glân drwy amcan draw
 16 A wnâi gerdd enwog erddaw?
 Och erioed ym o chredais
 Wneuthur o Ifan, lân lais,
 Foes hoywdrefn, ar fis Hydref,
 20 Fychan, gyfryw gân ag ef;
 A phe Ifan Fychan fai,
 Ardderchog rodd a archai.
 Nis erchis un gŵr serchog
 24 Noe ddelltlestr llun hadlestr log,
 Llestr dudedd f'arbed fawrboen,
 Llestr rhwth fal crwth fola croen.
 Ni allaf, ni feiddiaf fi
 28 I ŵyr Adda ei rodidi;
 Nid oes un dyn yn ei dai
 Na chwegwr a'i marchogai.
 Coflaid o ledryn cyflo,
 32 Cefn o glwt ar waith cafn glo,
 Myn Pedr, mae yn y lledryn
 Rywogaeth ŵyll a dwyll dyn.
 Od elai'r cwrwgl dulwyd
 36 I'r llyn â'r pysgodwr llwyd,

Er dim ni ddeuai o'r dŵr
 Heb ysgŵd i'w bysgodwr.
 Tra hawdd oedd ganddaw trwy hud,
 40 Hen gefen chwilen, ddymchwelyd.
 Heliwr ni ddichon hwyliaw
 Nyth brân yn annoeth heb raw.
 Myn y ddeddf, mi ni ddiddawr
 44 P'le bo'r cawell morlo mawr.

Os fy nghares, dduwies dda,
 Angharad, a'i cynghora,
 Roddi hwn i'r gŵr addwyn
 48 Ar ddŵr llyn Rhedmor i'w ddwyn,
 Rhof serch ac annerch gennyf
 A'r boly croen i'r bual cryf.
 'Y nghred, onis cyngor hon,
 52 Na rof i'w ddwyn i'r afon
 Ystlysrân rhyw afran wefr,
 Ysgraff o groenraff grinrefr.
 Naw' Duw rhag myned Ieuan
 56 I ryw le oddi ar y lan.
 Nid âi fwrdaï o Sais hen,
 Ar fodd gwaith yr efydden,
 I drosi dŵr yn drasyth
 60 Dros fod yn ddibysgod byth.

Mi a glywais adlais awdl
 Yn hoyw am Ifan huawdl,
 Gan hen gularen gleiriach
 64 O un a ddywaid yn iach,
 Y dôi gwall, enaid y gwŷr,
 Yn union i lin Ynyr.
 Och Fair, pam na châi efô
 68 Long o groen newydd flingo?
 O gwyl i'w gyfyl gwffert
 Groen buwch ar waith gweren bert,
 Arched yn rhodd dan oddef,
 72 Eled i gerdded ag ef.

Ffynonellau

A—Card 2.114 [= RWM 7], 904 B—BL Add 14866 [= RWM 29], 213^r
 C—J 137 [= RWM 12], 92 D—Gwyn 3, 139 E—BL Add 14882 [= RWM
 31], 8^r F—LIGC 3050D [= Mos 147], 210 G—LIGC 3051D [= Mos 148],

266 H—Card 1.2 [= RWM 12], 229 I—BL Add 14966, 271^v J—Pen 152, 237 K—Pen 99, 581 L—LIGC 5269B, 127^r M—LIGC 11816B, 41^v N—BL Add 14969, 230 O—Pen 198, 293 P—BL Add 12230 [= RWM 52], 107 Q—Bangor (Mos) 9, 86^v

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 145–54.

Amrywiadau

1 *CHFKMN* ystad hoewrym. 2 *BD* astud rym. 1–6 [*Q*]. 4 *FH* anfoned. 6 *M* lle bv; *D* tlws y caed. 7 *BDGIKO* ar lûn; *M* bwla krwnn. 8 *CN* Bwch; *K* croendew crindrwm, *BDFIOQ* croendew crindwn. 9 *BD* ddilyn. 9–12 [*Q*]. 12 *CIN* i ddal; *AEHJLP* yn hel. 14 *BD* ne foliog fail. 15–26 [*Q*]. 15 *C* gwas. 18 *ABDEG–JMNP* lan i lais. 19 *JLP* hoywdrem ar fis; *BD* hoywdrefn fis o hydref. 23 *FIK* vn dyn. 23–4 [*M*]. 24 *C* llwm. 29 *CEFHKMN* un gwr. 31–2 [*Q*]. 32 *HLM* o waith, *FIK* ar lûn. 34 *D* o ryw fel wÿll; *Q* gwyll, *EL* wyllt; *AGM* o dwyll. 35 *ACGM* O delai, *K* Pe delai'r, *O* O delai'r. 35–72 [*Q*]. 36 *FIK* ai byscodwr. 39 *FG* yw ganddaw, *BI* yw gantho. 40 *FM* ymchwelvd, *I* ddymchwelyd. 41–2 [*FK*]. 42 *G* ar nyth bran yn noyth, *BD* ar nyth bran wr noeth; *I* ar nyth bran anoetha braw, *J* nyth brân yn anoetha braw. 43 *AEH* mine ddiddawr. 47 *I* i wr, *HN* iw gwr, *FKM* yw gwr; *JLP* ar ddwr addwyn. 48 *H* arddwr, *M* addwr; *BD* hedmor, *HM* rhyd mor. 50 *BD* ar bùal. 53 *CEHN* wefran wefr. 53–4 [*FK*]. 57 *EF* a sais. 58 *M* er a fedden. 61–72 [*K*]. 63 *AGI* glun aren, *M* gwyn aren. 64 *G* y nyn a ddowaid; *CEH* a wyddiad. 70 *CEMN* bwch.

*Cywydd ateb iddo yntau
Ifan Fychan ab Ifan ab Adda*

- Dihareb wir o hirynt
A gaf, ac a draethwyd gynt:
Hir y bydd mud, gwychedrud gwâr,
4 O byddai 'mhorth y byddar.
Ni wnaif ar gam ei hamau,
Gwir yw'r ddihareb, nid gau.
- 8 Rhwydd gyson, rhodd a geisiais
Gan Siôn, cynt y cawn gan Sais.
Hir y byddaf yn aros
Y rhodd rhwng Tegeingl a Rhos,
Hwy na'r gŵr cywir hirynt,
12 Gwych ail, a'r baich gwiail gynt.
Haws oedd ym gael uwch Maelawr,
Yn un dydd neu ennyd awr,
Damaid i'm rhaid, myn y rhin,
16 O'r lleuad o'r gorllewin;
Neu ddydd gaeaf diaraul
Gowlaid yn fy rhaid o'r haul;
Neu'r llong ddu braff, craff yw'r cri,
20 Dewfawr o Aberdyfi;
Neu geiniog groesog i'm gras
Y mebyn croenwyn crinwas;
Neu gael gafael, gwas haelwych,
24 Draw ar fy nghysgod mewn drych;
Neu'r gwelle y llas, rhygas rhwth,
Fy mogail er fy mygwth.
Coel rhyfedd, cael eu rhifo,
28 A gwsg, wedi dwyn ar go',
Nwyf llon goruwch Meirionnydd,
Y nifer o sêr y sydd;
Neu bob da, dan bwyth ffrwythlon,
32 Y sydd, na bola croen Siôn.

Da y gŵyr mai Duw a'i gad
Yn aren fel henuriad.

36 Pe prydaswn, gwn ganu,
 I hael o'r byd, da fyd fu.
 A brydais, eurais araith,
 I Siôn, ef a'i clybu saith.
 40 Sicir y cawn, dawn difai,
 Llong gan ehelaeth, nid llai.
 Tybied ydd wyf, myn Tiboeth,
 Am air mawr fydd cellwair coeth.
 Pe'i canwn—pwy a'i canai?—
 44 O'm ceudod, myfyrdod Mai,
 A ganodd yn eginyn
 Dafydd i Forfydd â'i fin,
 Na fyddwn nes, dralles dro,
 48 I roddion byth o'r eiddo.

Ac am hyn, erlyn arlwy,
 O'm nâg un difilain wy'.
 Minnau brofaf â'm tafawd
 52 Foli Siôn, ffynnon y ffawd,
 Fal y bo gwell dan gelli
 O fudd, o gwrendy fyfi.

56 Hael yw'r gŵr, hil aur goron,
 Hael yw pob hael os hael Siôn.
 Hael a di-fael a da fydd
 Os hael cyw abael cybydd.
 Achwyn oedd am na chawn i
 60 Hwyl iawn am ei haelioni.
 Anffawd i'r tafawd gwawdbwyll
 A'i ben, od oedd yn ei bwyll,
 A ddyfod ar Siôn ddifael
 64 Ei fod yn hynod, yn hael.
 Hwnnw yn awr, lwyswawr les,
 Â'i syml eiriau a'm siomes.

68 Hyn yw addef fy ngweddi,
 Er fwyn Fair erfyniaf i,
 O daw ar Siôn, ddigonwr,
 Garu gwen gywir i'w gŵr,
 Na bo well dan y gelli
 72 Ei hawl, o gwna oed â hi.

Ffynonellau

A—Card 2.114 [= RWM 7], 907 B—BL Add 14882 [= RWM 31], 9^v C—LIGC 3051D] [= Mos 148], 269 D—Card 1.2 [= RWM 12], 232 E—Pen 112, 29 F—LIGC 5269B, 128^v G—Llst 122, 89 H—Pen 152, 240 I—BL Add 14969, 223 J—Pen 99, 584 K—BL Add 12230 [= RWM 52], 108 L—Pen 198, 295

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 145–54.

Amrywiadau

9–12 [*J*]. 17–72 [*J*]. 25 *L* gwelle llas, *A* gwelle glas. 28 *DEGIL* o gwsg. 31 *BDI* dan lwyth. 31–2 [*CL*]. 40 *C* gann hael dy fael fai. 42 *ADGIL* a Mair. 49 *AB* erlwyn. 50 *CGI* o nag. 57 *AE* difael wyd Davydd, *G* difael wyd o fudd, *L* difael wyd o fydd; *B* divayl davydd. 64 *C* i vod un hynod yn hael. 65 *D* lwysfawr. 67 *BDI* diwedd vyingweddi. 68 *AE* y fwyn, *CGL* er i fwyn. 70 *ABD* i gwr. *Ar ôl ll. 72, ar yr ymyl yn A ceir*: nag fur mau eiria aroen / Bual cry am y bol croen *ac fe' i cynhwyswyd yn I*.

Englynion i Siôn Eutun ac i Faredudd ap Rhys

Ifan Fychan ab Ifan ab Adda:

4 Cenais, gofynnais, gwae finnau,—foly croen,
 Fel cronwal ei foddau;
 Rhoi'i gyngor ym rhag angau,
 Yn lle mael cael fy nacáu.

8 Cwrwgl ni chefais is Caerwys—eto
 Gan Siôn Eutun ddifrys,
 Ond araith ofni dyrys,
 Maredudd, prydydd, ap Rys.

Maredudd ap Rhys o Faelor:

12 Ifan Fychan lân, haelioni—Ifor,
 Ofer dy gynghori,
 Mab Ifan, drwg d'amcan di,
 Ab Adda, gofio boddi.

16 Oddi ar groen drwy boen o daw'r byd—gwallus
 I gollu dy fywyd,
 Ni chei gwyn, yn iach i gyd,
 Cei anfawl, fel llanc ynfyd.

Ifan Fychan ab Ifan ab Adda:

20 O cheisiais gwrwgl, ni cheisiaf—foddi,
 Na feddwl mo'r gwaethaf;
 Cyn cael y rhodd ni foddaf,
 Ba ddyn wŷr mai boddi wna?

24 Gwylia di foddi, fawddyn—annhymig,
 Yn nhomen Rhys Gutyn;
 Gwas wyt ti, yn gas hyd hyn,
 Sy'n ateb dros Siôn Eutun.

Maredudd wawdydd wrth wden—y bych
A bach yn dy grogen;
Er dy waethaf, suraf sen,
Ofer iawn, ni ro' frwynen.

28

Ffynhonnell
BL Add 14892, 77^r

Darlleniad y llawysgrif
25 ioden.

Ymhellach ar y llawysgrif, gw. td. 146.

Marwnad y Brenin Edward IV
Maredudd ap Rhys

Mae sôn o Gemais i Ard
 Ym mrudiau beirdd marw Edward.
 Os marw fu, eisiau mawr fydd,
 4 Tarw diofnog tri defnydd;
 Cadlew dewr glew mewn dur glas,
 Cadernid, cae y deyrnas.
 Breuddwyd, pan fwriwyd f'eurwawr
 8 Y bwriwyd Lloegr lwyd i lawr.
 Gwannach oll, gwyw yn ei charn,
 Yw hi gwedy Hu Gadarn.
 Marw drud, ymherawdr ydoedd,
 12 Muriâu Ard, mwya' marw oedd;
 Marw heddwch, gweddiwch i gyd,
 Marw rhyfel morwyr hefyd;
 Marw Edward, nerth llewpard llon,
 16 Marw'r eryr mawr yr owron;
 Marw Derfel o Lywelyn,
 Marwolaeth, ysywaeth, s'ynn.
 Mwyaf oerchwedl am farchawg,
 20 Och farw hwn, na châi fyw 'rhawg.
 Och Fair, marw crair a mur cred,
 Och i'r einioes ei chrined,
 A'r angau a'r borau byr,
 24 A'r awr bu farw yr eryr.

Am ddwyn, mau gŵyn am y gŵr,
 Y cing, gorau cwncwerwr,
 Brenin, ni bu ŵr anhael,
 28 Brytwn oedd hwn, i Dduw hael.
 Serchog a thrugarog oedd,
 A chadarn a gwych ydoedd.

Amseroedd yr ydoeddynt
 32 Yn wahardd gwŷr y Nordd gynt,
 Lladdfa ar ieirll lluyddfawr
 A wnaeth yn farfolaeth fawr.

- 36 Gwylmabsant, yn Northantwn,
Brain hen a wnâi'r brenin hwn.
Ym myw Edward, mwy ydoedd,
Marwnad ieirll ym Marned oedd.
- 40 Och heno, ple'r achwynwn?
Och Dduw Tad o chuddiwyd hwn.
Och wŷr o'i fedd na chair fo
Yn fyw unwaith gan Feuno.
44 Duw ni roes dan awyr iach
Dyn ar elyn wrolach.
Cydweddi'r ŷm, cadw oedd raid
Rhag aliwns a rhoi gwyliaid.
48 Pob porth a gedwid, pob part,
Pob adwy pe byw Edwart.
Ei lun rhag ei elynion
A saif yn yr ynys hon;
52 Wrth luddias i'r porthladdoedd
Aliwns, hen alanas oedd:
Ni ddeuai fyth, pan oedd fyw,
Ato aliwns hyd dilyw.
Marchog arfog a orfu,
56 Milwr a rhyfelwr fu.
Aml iddo fu'r ymladdoedd,
Ymherawdr aur ym mrwydr oedd.
- 60 Bwrw ergyd i'r byd ar ben
Yw bwrw'n hunbraich brenhinbren.
Nis bwriodd rhyfel gelyn,
Trwy Dduw nis anturiai ddyn.
64 Bu rydaer Duw, brawdwr dwys,
Bwrw Edward i baradwys.
Brenin, cyd bo blin i'w blaid,
Brenin nef biau'r enaid.

Ffynonellau

A—Pen 80, 65 B—BL Add 14967 [= RWM 23], 166 C—BL Add 24980
[= RWM 39], 221^v D—BL Add 31058, 103^v E—LIGC 2033B [= Pant 67],
50^v F—LIGC 20574A, 333 G—Card 4.10 [= RWM 84], 598 H—Card
5.167 [= Thelwall], 365

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 145–54.

Amrywiadau

12 *BD* Muriau jork. 13 *B* gweiddwch. 15 *B* ffrwyth llewpart. 23–4 [*H*]. 25 *ACE–H* mae gwae am. *Ar ôl ll. 44 yn B ceir*: duw ni ro dyn ar i ol / dan goron ond vn gwrol; *ac yn D*: Duw na roed ... ond dyn gwrol. 45 *BD* weiddi. 51–2 [*D*].

Cywydd y gwynt
Maredudd ap Rhys

Tydi'r gwynt, tad eiry ac ôd,
 Traws cefnir tros y cyfnod,
 Anadl oer, anwadal wyd,
 4 A'th wyneb a wnaeth annwyd.

Dianc yr wyd o'r deau
 I berfedd y gogledd gau;
 Oer yw d'aros o'r dwyrain,
 8 Er Duw, cyrch i'r deau cain.
 Blinder fydd blaen d'arfeddyd,
 Byhwman bedwar ban byd.
 Deuddeg gwynt y'th fedyddiwyd,
 12 Ac yn y twyn un gwynt wyd;
 Dy rif yn bedwar prifwynt
 A wnawn i'w gael yn un gwynt;
 Dy hun y gwn dy henwi
 16 Yn wyth asgellwynt i ni.

Pa herwydd y'th ddarparwyd?
 Peth rhyfedd heb ddiwedd wyd:
 Yn braff, ac yn fain heb rus,
 20 Yn wresog, yn oer eusus;
 Yn wan, yn gry' uniownoed,
 Yn ddrwg, ac yn dda erioed.
 Un lled â'r byd enbyd wyd,
 24 Ac un hyd y'th ganhiadwyd.
 Troed nid oes, nid rhaid, na dwrn,
 Na gosgedd corff, nac asgwrn.
 Ni'th aned o'r tudded tau,
 28 Ni'th ludd ing, ni'th ladd angau,
 Ni'th fedda tân, ni'th fawdd ton,
 Ni'th wyl dyn, ni'th ddeil dynion.
 Piliwr adail, p'le'r ydwyd?
 32 Planed wyllt, pa le nid wyd?

Môr a thir, rhag merthyri,
 Ni ddichon bod hebod ti;
 Melinau gwynt ymlaen gŵyl,
 36 Dy gyrch a'u dwg i'w gorchwyl;
 Y llong, pan êl i'w helynt,
 Nid âi o'r lle bai heb wynt.
 Duw Tad i'th ruad a'th roes
 40 I ni'n hanner ein heinioes;
 Dau einioes corff dyn, os caid,
 Ydyw'r anad' a'r enaid;
 Gennyt ti mae, y gwynt main,
 44 I ni'n hanadl ein hunain.

Cyn y dydd y cawn d'oddef,
 Creadur wnaeth Creawdr nef.
 Ystent flin, estynnit floedd,
 48 Ysturmant yr ystormoedd.
 Moes gainc, coed a maes a'i gŵyr,
 Moes gywydd, musig awyr.
 Un dôn yw'r erddigan dau
 52 Ag anadl y meginau.
 Bronwynt i beri annwyd,
 Breibiwr oer, bwa'r wybr wyd;
 Berw a dyr craig, bwrdiwr craff,
 56 Blaidd wybr yn rhoi bloedd obraff.
 Treisiaist goed am eu trysor,
 Tymestl a mawrwestl y môr.
 Cân brofiad, dyhead hwyr,
 60 Cria ar hyd cwr awyr.
 Bwrw ddail i wybr o ddolydd,
 A briwo coed a brig gwýdd.

64 Trig yn iach, corn bwbach cau,
 Trwy air Duw, tro i'r deau;
 A chwyth yn y twymnyth tau,
 A chân awdl ocheneidiau.

Ffynonellau

A—Llst 117, 32 B—Card 2.114 [= RWM 7], 140 C—BL Add 14882
 [= RWM 31], 63^r D—BL Add 14866 [= RWM 29], 187 E—LIGC 17114B
 [= Gwysanau 25], 147 F—LIGC 722B, 54 G—Card 2.201 [= RWM 63],
 266 H—Gwyn 2, 74^v I—Gwyn 3, 94^r J—LIGC 6511B, 232 K—Pen 71,
 43 L—Pen 83, 107 M—LIGC 5265B, 33^r N—Llst 155, 51 O—BL Add

14979, 138^r P—LIGC 3057D [= Mos 161], 301 Q—LIGC 3050D [= Mos 147], 34 R—LIGC 5272C, 56^v S—LIGC 11087B, 92^r, 94^r T—Pen 97, 114 U—Llst 118, 572 V—LIGC 3056D [= Mos 160], 397 W—Pen 312, iii, 1 X—Card 5.44, 226 Y—Card 2.15 [= RWM 16], 424 Z—Card 2.68 [= RWM 19], 422 a—Pen 184, 100 b—Card 2.617 [= Hafod 3], 76 c—Card 2.616, 38 d—BL Add 24980 [=RWM 39], 64 e—BL Add 14965, 218 f—BL Add 14984 [= RWM 51], 253^v g—BL Add 31060, 195 h—BL Add 14973, 39^v i—LIGC 1559B, 172 j—CM 21, 272 k—Card 1.5, 144 l—Brog (y gyfres gyntaf) 5, 211 m—Card 5.30, 66 n—BL Add 14976 [= RWM 22], 227^r o—Bangor (Penrhos) 1573, 261 p—BL Add 14874 [= RWM 51], 150^v q—Bodewryd 2, 231 r—LIGC 13061B, 194^v s—LIGC 644B, 54 t—BL Add 14969, 479 u—Llst 134, 231 v—LIGC 2691D, 79 w—LIGC 6499B, 202 x—Bodley Welsh e 8, 36^r y—Bodley e Mus 63, 143

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 145–54.

Amrywiadau

3 *RWe* anwydol wyd. *Ar ôl ll. 8 yn Gm ceir*: ac o'r dwyrain blygain blin, ac or lle ir gorllewin; *gks* o'r llew. 9–16 [*S*]. *Ar ôl ll. 10 yn N ceir*: gyrrv ymyrddv in mysg, *y* kryf ddychryn meddyn yn mysg, *Ny* canllaw yr od ar cenllysg. 14 *BFJhopx* ai gael, *w* o'i gael. 15 *C* da i gwn, *K* da gwn; *O* i gwnawn dy. 16 *a* yn vn ysgellwynt ini; *ABCEFJ-NPQRUVX-eklo-ruwx* ysgellwynt, *OSW* ystlysswynt. 17–18 [*ABw*]. 17 *J* Pa arwydd; *H* yn bedwar y'th. 19–22 [*YZ*]. 19–24 [*UVa*]. 21–2 [*iv*]. 21–30 [*b*]. 21 *D* yn gryf yn wann yn an oed; *oq* yn unoed, *Hc* anianoed, *Q* yn an oed. 22–3 [*f*]. 23 *HYZhi* ennyd wyd. 24 *v* genedlwyd. 25 *LNQRUVWYZaefinpxy* traed. 25–6 [*q*]. 27 *DIUYax* tynged; *Zi* oer dynged. 29–30 [*Ko*]. 29 *DINPTfx* faedda, *H* faetha, *JXZiruv* vaedd, *GSm* feiddia; *hjl*m faedda tês. *Ar ôl ll. 30 yn g ceir*: *y* gwynt a dyr gant o dai / nid oes goed nid ysgydwai. 32 *HSPVXYZru* planed oer; *JXb* nad wyd. 33 *CHbgq* a myrthyri, *K* ban myrthyri, *OSW* y merthyri, *P* er myrthyri, *FMRe* a merthyri, *hjl* mewn merthyri, *o* a ferthyri, *p* o merthyri, *y* i merthyri. 34 *MQRejln*o Ni ellir bod, *f* ni alle bod, *p* ni allan. 36 *HJNXlnprt* i orchwyl, *CPfq* oi gorchwyl. 37–8 [*Bw*]. 37 *CPq* oi helynt. 39–42 [*b*]. 39 *y* Dieithr wyd a dyw ath roes; *FMRej*l oth rvad, *ACGLhkmo* iaith ruad, *P* faith ryad, *Wa* ath ruad, *f* oth rad. 41–2 [*FThj*]. 41–6 [*Uax*]. 41 *CMQRen* dvnos caid. 43–4 [*JLPTUVXYZrux*]. 43–6 [*YZi*]. 43 *C* ni chawn heb wynt mwyn hynt main, *Kq* ni chawn heb wynt meddynt main, *b* ni ad y gwynt tene mein, *o* ni ad y mab enbyd main. 45–6 [*CKNVboq*]. 46 *Didjflntu* Creadur noeth, *FQ* kriadvr noeth, *JLXr* kredyr noeth, *MRe* kvrawdvr noeth, *ghy* criawdr noeth, *p* kry awdwr noeth; *DIu* crwydrwr nef, *LMe* kreadyr o nef, *Q* kreodyr o nef, *ghly* cry wyd or nef. 47–8 [*T*]. 48 *aqx* ar ystormoedd. 52 *CKq* or meginay, *H* yn y genau. 53–4 [*j*]. 54 *CDIOTWdpy* bw ar wybyr, *H* bwar wybrwr, *c* bwa ar wybr, *f* browybyr. 55–6 [*EOQSWfnt*]. 55 *K* bwa a

dyr; *DIUdg* brwydrwr, *JK* brwdwr, *TVYZax* brwydr (*gyda bwrdiwr yn amrywiad yn T*), *Xu* brodiwr, *p* abrwydyr, *k* bwriadwr; *m* byrwydr wr craff, *r* briwdwr brâff; *jly* dordor craig dwrdiwr craff, *Fh* ar dor kraig dwrdiwr kraff. 57 *DZ* treisiaist yn coed an trysor, *Y* traisiais yn coed an trysor; *Kboq* treisiast dai; *EJLQXdnrtux* y trysor. 58 *A* ymar westl. 59 *OSW* kan gorniad, *ht* can ganiad, *c* kan profiad; *ABGMNPQRdeghj-mqwy* dyhuddiad. 59–60 [*p*]. 60 *MQRUVdeknqt* kria'r hyd kyrie'r awyr. 61 *OWbfgioqsv* o wybr i ddolydd, *Bw* o rwybr i ddolydd. 62 *N* bwrw coed, *Y* bwrw y koed, *Z* bwrw goed. 63 *K* kan yn iach, *b* cana'n iach, *j* dos in iach. *Ar ôl ll.* 64 *yn Koq ceir*: ac yno tric gwynt oer wyd / lle vynych bydd llai vanwyd. 65 *UVjl* tewnyth.

Cywydd i'r byd
Maredudd ap Rhys

- Doe yn gyfflybrwydd y daw,
 Dydd oedd a diwedd iddaw.
 Boregwaith hardd bregeth hy,
 4 Hanner dydd yn ôl hynny;
 Prynawn yr aeth i draethu;
 Einioes y dyn yn nos du.
 Darfod a wna ar derfyn
 8 Y dydd; felly derfydd dyn.
 Mabolaeth mab a welir
 I barhau fal bore hir.
 Diau i'r mab wedy'r maeth
 12 Yn greulon ddwyn gwrolaeth.
 Wedy hynny daw henaint,
 Ac yn hen gorwedd gan haint;
 Yna nosa, myn Iesu,
 16 Einioes y dyn yn nos du.
- Pa ddelw, neu pa ddialedd
 Yr â'r byw yn farw i'r bedd?
 20 Dialedd trwch fflwch, a phla
 Dros afal a droes Efa;
 Dir i'r bobl, dewr yw'r bwbach,
 Ryngu bodd yr angau bach.
 Nid eiriach un aderyn,
 24 Na balch, na difalch, na dyn.
 Drud Alecsander ydoedd,
 Cyn cred cwncwerio yr oedd;
 Ni allodd yr enillwr
 28 Unnos gael ond einioes gŵr.
 Ector gadarn, o'r farn fau,
 Ni ddiengis yn nydd angau.
 Hefyd Arthur ddihafarch,
 32 Ond tra fu ni bu'n ei barch.
 A fu darfu ei derfyn,
 A fydd a dderfydd o ddyn.

- 36 Rhaid i berchen anrhydedd,
Myn fy nghred, fyned i'w fedd,
A gorwedd yn y gweryd,
A chau'r bedd; yn iach i'r byd!
A faco'r ddaear aren
- 40 A lwnc oll, fal afanc hen.
Dall mewn daear dywyllwg
Dan draed, ni wŷyr da na drwg.
- 44 Yr enaid ni wŷyr yna
Pa ffordd o ddwyffordd ydd â:
Ai lle bo'r farn a'r llwybr fry,
Ai'r llwybyr arall obry.
Od â i nef rhaid yw'n wir
- 48 Ffinio dros y corff enwir,
A thalu'r ffin gatholig
Yn y tân o'r enaid dig.
Crist ni dderbyn o'r crastan
- 52 Enaid i'w law ond yn lân.
Yr un cnawd Ddydd Brawd a ddaw
Yn dudded enaid iddaw;
Clyd i'r corff, clodfawr y'i caid,
- 56 O phrynodd ffafir i'r enaid.
Pob cardawd i dlawd o'i law
A roddes, a roir iddaw;
Yn nef y rhoir, pan fo rhaid,
- 60 Yn aur yno i'r enaid.

Ffynonellau

A—LIGC 17114B [= Gwysanau 25], 189 B—Card 3.4, 78 C—BL Add 14875 [= RWM 30], 25^v D—Gwyn 2, 118 E—BL Add 14866 [= RWM 29], 221^r F—LIGC 3040B [= Mos 132], 63 G—Card 2.4 [= RWM 11], 69 H—Card 5.15, 28^v I—BL Add 14999, 19^r J—BL Add 14982, 8^v K—LIGC 5272C, 62^r L—BL Add 14979, 62^r M—LIGC 6471B, 163 N—BL Add 14879 [= RWM 38], 127 O—BL Add 14966, 14^r P—BL Add 14976 [= RWM 22], 263 Q—BL Add 31060, 193^v R—BL Add 14984, 264 S—LIGC 642B, 6 T—BL Add 14985, 20^v U—BL Add 31061, 179 V—BL Add 15007, 3^r W—BL Add 15006, 81 X—LIGC 6499B, 190

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 145–54.

Amrywiadau

1–6 [V]. 1–8 [U]. 1 *L* dyn wrth gyfflybrwydd; *ABHKW* yn gyffelib, *OPX* wrth gyfflybrwydd. 3–4 [FQ]. 4 *L* ar ol hyny, *EGJNPRSX* wedi hyny. 5 *DEKSVW* oi draethv, *O* wrth draethy, *R* yw drethu. 6 *CEGJLNX* yn newis dydd, *MRS* yn newis dyn. 7–8 [*ABHKMUW*]. 7 *D* a wnaeth; *F* darfod megis ar derfyn, *JLPX* darvv megis ar dervyn, *V* [] megis ar derfyn. 8 *O* fal i derfydd, *GNRT* modd y derfydd. 9 *AFHILQX* a elwir. 10 *DN* yn bŵrhaû. 11 *AH* knawd ywr mab gwedir maeth, *BM* gynnawd yw ir mab gwedir maeth, *C* Gnawd yn wir mab gwedir maeth. 13–18 *Yn aneglur iawn yn D*. 14 *AH* ac yn hir. 15 *IQ* yna y nos a; *BMU* yna nessa myn iesu, *R* Dyma nosa mwyn Jessû. 16 *M* einioes y dyn yn noes dŷ; *CG* val; *LOX* megis nos. 17 *GNRT* Pa ddelw yn pa, *BC* paddiliw ne pa, *HKU* pa ddelw dduw pa, *FJMOPQX* pa ddiliw pa. 18 *BCGT* i rayr byw, *R* yr a ir byw; *C* y raiys byw y farw ir bedd. 20 *ABHI* Dros afal diras efa, *CF* dros afal dyrras efa; *OT* a dorres Efa, *W* y tores efa. 21 *FM* dir ywr bobyl, *B* Dir yw ir bobyl, *L* drud ir bobl; *C* Diryw r bobyl daw'r bwbach, *GN* diau ir bobyl idaw r bwbach, *T* diau ir pobl i dawr pwbach. 23 *JLMPTX* yr yderyn, *U* hwn aderyn. *Ar ôl ll.* 24 *yn U ceir*: Nid erbyd truan anwydd / Na gwan na chadarn na gwyh. 25–8 [Q]. 26 *KW* kyn krist; *G* cyn crist cwn cwerwr oedd, *IJLOX* Cyn cred cwnwerwr oedd, *P* cyn kred cwnkerwr a oedd. 27–8 [F]. 27 *M* ni allodd pen ynillwr, *C* Ag ni allodd y pennillwr; *D* un ynyllwr. 28 *BCDHIKMPU–X* gael dros einoes. 29–30 *ychwanegwyd y llau. yn A gan law arall.* 29–52 *dechrau'r llau. wedi rhwygo yn S.* 29 *O* ar farn, *AFHM* yw'r farn, *Q* yw y farn. 30 *CO* ddiengodd. 32 *FJX* ni bv i barch, *QR* ni bu yn barch, *B* ni bu un barch; *AGHILT* yn y barch, *M* ny barch; *D* o barch. *Ar ôl ll.* 32 *yn C ceir*: Sefyll y Rwy try safwy / dan gryfange yr ange yrwy. 33 *LP* darvv ar dervyn; *D* yn i derfyn. 36 *AFHIJLO–R* i vedd, *X* ei fedd. 39 *DFGIKNQRT* A fag y ddayar. 40 *ACEHLP* a llwnk hi val; *F* A lwngk oll ifang a hen, *M* hi llwnk oll Ifank a hen. 42 *ACHIJLPX* ni all da, *B* ni all dda, *DEOSU* ni wna da. 43 *ABCEK NOW* ar enaid. 44 *C* o ddwyffordd, *GNT* or ddwyffordd. 45 *G* lle bo yr faint, *N* lle bo'r fraint. 47–50 [P]. 48 *FL–OQU* an wir. 49 *C* a thalv y ffydd, *OS* A thau'r ffydd, *R* A thalu yr ffydd, *EGNT* a thalur ffydd. 50 *JLORT* ir enaid. 50–1 [D]. 51 *FQ* ni chymer or; *R* ni dderbyn i hŵnan; *ABFHIQ* croestan. 52 *J* oi law. 53–6 [*ABHKW*]. 53 *CJU* Ar vn. 55 *EGINR–U* pwys y corph hapys u caid; *D* ywr corff; *P* clydwr o caid, *V* kledfawr i kaid. 56 *GNQTV* ffordd ir enaid, *I* ffordd yw enaid. 57–60 [U]. 57 *PV* Y gardawd, *JX* y gardawd. 59 *A* yn nef vry, *X* yn yn êf; *KW* o nef. 60 *D* un awr yno.

*Cywydd i Dduw
Maredudd ap Rhys*

- Duw Greawdr nef a daear
 A phawb, a gwyllt a phob gwâr,
 Ymherawdr y'th gymherir,
 4 Myr a thus, aur, môr a thir;
 A thi ni mynnaist i'th ddwyn
 Onid Mair yn oed morwyn.
 Gwry' oedd Fair, garuaidd ferch,
 8 Geirddoeth, heb ŵr na gordderch.
 Gwraidd holl drugaredd yw hon,
 Gorau oedd o'r gweryddon.
- Ei Thad a'i Mab doeth ydwyd,
 12 A'i hun Duw, a'i henaidd wyd.
 Dy ferch a gredaf i oedd,
 Duw fy mynd, dy fam ydoedd.
 Duw Tad o'r nef ydwyd ti,
 16 Duw a dyn wedi d'eni:
 Duw Tad, geidwad y gadair,
 Duw Fab, a aned o Fair,
 Duw Ysbryd Glân dewisbraff,
 20 Duw'n prynawdr a'n creawdr craff.
 Tri pherson y'th gysonwyd,
 Ac un Duw gogoned wyd.
- Oer ddiwedd i'r Iddewon
 24 A roes brath i'r asau bron!
 Torri'r gred, dy roi ar grog,
 Tri gair yn un trugarog;
 Drwy gawdd caeth, drwg oedd y cof,
 28 Dy ddengair ydoedd angof;
 Duw Sul a gwyliau dy saint,
 Duw Ddofydd, dy ddioddefaint.
 Sawdwyr dan dy groes ydym,
 32 Siesws Nasarenws rym,
 Recs teg, mawr yw'r gras tau,
 Siwdeorwm, sad eiriau.

36 Och i'r adar na chredyn',
 Duw yn Dduw, d'eni o ddy.
 Credu'r ŷm mai'n creawdr wyd,
 Credwn mai ein câr ydwyd.
 40 D'eni o Fair, da ynn fu,
 A ddewisaist, Dduw Iesu;
 A goddef gwaywrudd efydd
 Ar y groes a'n rhoes yn rhydd;
 44 A throi mewn blinder a thrin,
 A'th farw unwaith, Dduw Frenin.
 Mwya' enw ac amynedd,
 Mynnu bod ddwynos mewn bedd;
 48 Ac o'r bedd yn ŵr gwâr byw
 Y cyfodaist, cof ydyw,
 A pheri'n gaeth uffern gau,
 Anrheithiaist yn wir hithau:
 52 Dwyn Addaf, Duw naf, dyn oedd,
 Dwyn Efa hyd y nefoedd;
 Dugost etholedigion
 Oedd o hil Adda a hon.

56 Duw Frenin drud, dy farn drom
 Ddiörnod a ddaw arnom.
 Dwg lu bedydd, ddydd a ddaw,
 Dduw hael, ar dy ddeheulaw
 60 I'r lle cair barnu'r llu call,
 A'r llu oer i'r llaw arall.
 Dyn oer drud, enwir a drwg,
 Aed allan i dywyllwg;
 64 A dyn a fo dienwir
 I wlad nef eled yn wir.
 Dwg ni, a digona, Iôn,
 Duw, 'ngolwg dy angylion.
 68 Dydd Brawd yn y diwedd braw'
 Dy nerth oedd raid ynn wrthaw.
 Duw ragorawl drugaredd,
 Duw gwyn â'th law dwg ni i'th wledd.

Ffynonellau

A—Card 2.114 [= RWM 7], 697 B—Bangor (Penrhos) 1573, 103 C—
 LIGC 3048D [= Mos 145], 312 D—LIGC 5272C, 58 E—BL Add 31056,
 131^r F—LIGC 3057D [= Mos 161], 59 G—BL Add 14967 [= RWM 23], 3
 H—Card 5.167 [= Thelwall], 13 I—LIGC 17114B [= Gwysanau 25], 15

J—LIGC 644B, 40^v K—BL Add 31060, 131^v L—BL Add 15007, 10^v M—Bodley Welsh f 2, 36

X—darlleniad o *The Poetical Works of Dafydd Nanmor*, ed. Thomas Roberts and Ifor Williams (Cardiff and London, 1923), 92–5.

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 145–54.

Amrywiadau

4 *CFG* A myr a thus mor, *B* mvrr a thus a mor. *ALM* Ond Mair yn oedran morwyn. 7 *D* gorevfodd verch, *K* gowiraidd ferch, *E* gwiriodd ferch. 8 *BEK* heb fynnu gordderch. 9–10 [*H*]. 14 *L* Dyw dy benydfab ydoedd; *yn A newidiwyd* Duw dy benydfam *yn* Duw fy myd dy fam ydoedd. 15–18 [*B*]. 21 *BCDF–JMX* tair person. 23–4 [*L*]. 24 *EJ* dan asau. 26 *B* tri gwr ag vn, *EK* Tri gair ag un; *CDJ* tri gair vn duw trvgaroc. 28 *BCEHIK* deuddengair, *L* duv ddengair [*X*—Three MSS add a couplet ‘A Duw a roes waed ei fron / Drwy ais dyner er dynion.’] 29 *AL* i gwylied dy saint. 30 *GX* Dyddeddyf dy, *C* dy ddeddf fv, *BDEK* dy ddeddf oedd, *JM* Dy ddeddf yw, *HI* dyvedd vain dy. 31 *FG* dan dy grwys, *L* wrth dy groes, *X* am dy grwys; *HI* dan dy gwys ydynt. 33 *EK* gras da; *C* ar y groes teg mawr yw. 34 *GJL* sad i eirau; *EK* sad ara. 37–8 [*DEHIK*]. 38 *C* mae car yn ydwyd. 39–40 [*L*]; *ar yr ymyl yn A ac mewn llaw M*. 39 *BD* da iawn fv, *J* da iawn a fv. 41–2 [*EKX*]. *Ar ôl ll.* 42, *ar yr ymyl yn AM* [*cf. X td. 195n*] *ceir*: duw fo a roes waed i fron (M oi fron) / drwy ais dyner dros dynion. 44 *E* fwrw unwaith. 45 *CF* enw ai amynedd. 47 *AM* y gwr gwar. 48 *E* i cyfododd. 49 *E* Ac i ffwrn gaeth, *K* A ffwrn gaeth; *J* Ag uffern gaeth a’i ffwrn gav. 51–2 [*B*]. 53 *BCE* ddetholodigion. 57–8 [*BF*]. 57 *DGHIX* lur bedydd. 59 *EK* O’r lle cair; *CF* lle i kair bwrw llv kall; *B* barn ar. 60 *BDL* ar llaw, *EJK* ar y llaw; *CM* ir lle arall. 63 *DGJM* y dyn, *BEHIK* ar dyn. 64 *A* i dre tad ef yw nef yn wir. 67 *CF* a wna diwedd, *HI* avydd yn diwedd. 69 *BEGKX* dy rragorrawl, *C* dragwraw oth a *gywiriwyd gan law wahanol o bosibl yn dy rgorawl*.

Cywydd i'r byd
Maredudd ap Rhys

- Ebrwydd y daeth â braidd dâl
 Brithfyd a gyfyd gofal;
 4 Brith yw'r heddwch, trwch, nid rhwydd,
 Braith yw'r gyfraith ac afrwydd;
 Brith arfaeth farwolaethau,
 A braith yw'r einioes a brau;
 Buan y torres bwa
 8 Y bywyd hwn a'r byd da.
- Blin na phery un blaenawr
 Yn y byd ond ennyd awr;
 Troi yngod mae tri angau
 12 Tros y byd diras heb au:
 Angau dyw ing a dywys,
 Ac angau dymodiau dwys;
 'E ddaw, fal yr addawyd,
 16 Angau lle bo eisiau bwyd.
 Dyn, pe cyn gryfed â dau,
 Digyngor y dwg angau.
 Dyn byw, a'i roi dan y bedd
 20 Yn farw, hwyr y gwnâi fawredd.
 Heddiw derfydd, hawdd derfyn,
 Hudol yw Duw am hoedl dyn.
 Ef wŷyr, i wyddfa weryd
 24 Pawb yr â, ni wŷyr pa bryd.
- I anghred na 'mddiriedwn,
 Na bo twyll yn y byd hwn.
 Diau, drwy adwyau drwg,
 28 Y'n twyllir mewn tywyllwg.
 Diymgêl yw'r tri gelyn
 A wna twyll i enaid dyn—
 Y cnawd anial, cnwd annoeth,
 32 A'r byd, a'r anysbyrd noeth.
 Lle drwg yn y gelli a draidd
 Yma i'r enaid morwynaidd

36 Megis oen, am ei gasáu,
Blwydd a fai ymysg bleiddiau;
Un hyder â'r aderyn
Ymysg gweilch yn y maes gwyn.
40 Duw deg, pam na cheidw doeth
Yr enaid mwy na'r annoeth?

 Gweled mae pawb ei gilydd
Yr un ffordd o ran y ffydd.
44 Cyngor periglor eglwys
Ydoedd i ddyn, nid oedd ddwys,
'Gwna a archwy'n gynhyrchiol,
Union farn, na wna yn f'ôl.'
48 Ninnau, o'n rhwysg a'n hynni,
Union a wnêl a wnawn ni—
Yn saint yr aem cyn nos Iau
Pe sant y pwysai yntau;
52 Yn ôl anwiredd y naill
Anwiredd a wna eraill;
I ddall, nid hwyrach dduwllun,
Dwyso'r dall arall i'r llyn
Neu i ffordd, ni wŷr ei ffau,
56 Ddyrys, nag i'r ffordd orau.

 Mogelwn, gwylw'n ein gwaith,
Meddylw'n am Dduw eilwaith.
60 Gwnawn dda o ganon ddiwg,
Na wnawn druth wenwyn na drwg.
Doedwn, coffawn, da ydoedd,
Duw a Mair, gorau dim oedd;
Draw caffom, drwy eu coffa,
64 Drugaredd a diwedd da.

Ffynonellau

A—LIGC 17114B [= Gwysanau 25], 373 B—BL Add 14866 [= RWM 29], 220^f C—Bangor (Mos) 5, 77^r D—LIGC 722B, 21 E—BL Add 14875 [= RWM 30], 38^v F—Pen 93, 93 G—Card 5.167 [= Thelwall], 27^v H—BL Add 14893 [= RWM 37], 9^v I—BL Add 14906 [= RWM 45], 45^v J—Pen 112, 7 K—LIGC 3056D [= Mos 160], 395 L—LIGC 13071B, 204 M—Llst 125, 745 N—CM 21, 212 O—BL Add 14971 [= RWM 21], 102^v P—Llst 47, 274 Q—BL Add 14984, 265^r R—LIGC 642B, 58 S—LIGC 727D, 170 T—LIGC 7191B, 48^v U—CM 22, 222 V—BL Add 14900, 124^v W—Llst 134, 68 X—BL Add 14962, 79^v

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 145–54.

Amrywiadau

1 *H* wybraidd dal, *FQ* o brvdd dal. 1–44 [*E*]. 3–8 [*FLPW*]. 5–8 [*ADGIKNQUV*]. 8 *MX* y bowyd hir. 9–10 [*C*]. 10 *IV* or byd ond, *MX* or byd onid. 12 *Q* deiroes heb, *CKS* teiroes eb, *IMV* nid trais heb, *X* ei drais heb; *JORT* trais heb, *U* traws heb. 13 *AG* yngod dwys, *I* yngo dywys, *KT* yngo a dywys, *ORV* yn godowys, *X* yn godwys. 14 *IKQSVX* daw angau. 15–16 [*V*]. 17–20 [*U*]. 19–20 [*IQV*]. 19 *S* o rhoid; *BHORT* a roid yn, *DN* ai dan, *FJ* wedi roi n, *K* ai fod tan, *X* iw roi dann. 20 *A* yn varw ni wnaef orwedd, *DFKNPW* yn farw ni wna fawredd, *MP* yn varw ag ny wna vawredd, *RT* yn farw ni wnai fowredd, *S* yn farw ni wna hwnn. 21 *BCJORT* darfu; *ORT* awr derfyn. 25 *U* Myn fynghred ymddiriedwn, *X* Myn 'nghrêd, od ymddiriedwn, *C* wrth weled na 'mddiriedwn, *K* i angav nag ymddiriedwn *wedi ei gywiro gan law arall yn* ir dynged na ymddiriedwn. 28 *F* yw n twyll yn y tywyllwc. 29 *QU* diogel. 31 *ORT* knawd enwir. 32 *SU* y byd. 33 *ACGQ* ynghelli, *IVX* yn y gell, *DLNPW* ynghelliav, *S* mal y nghelli; *F* gelli draidd; *K* a lle drwg ynghell a draidd. 36 *W* ymlaen bleiddiau. 37–8 [*Q*]. 37 *IMV* bruddder, *X* blinder. 41–2 [*CIQSU*]. 42 *F* o rvn ffordd orau'n y ffydd, *X* yr un ffael o ran y ffydd; *R* orav a ffydd. 44 *R* pand oedd, *STX* ond oedd. 46 *M* a gwna yn f'ol. 47–8 [*ADFGIKLNPQUVW*]; *X* O'n Annwn rwysg a nyini / Ninnau a wnawn a wn i. 49 *X* sant yr ei; *I* yr aen, *K* i rann, *P* awn, *Q* yr elon. 52 *DMNS* a wnai. 54 *BJKQST* dall y llall, *AG* dall or llall. 55 *AJ* ne ir ffordd ni wyr y (*cywiriwyd yn* enwir ai yn *J*) ffav; *B* enwir i ffaû. 56 *S* mwy na ffordd, *W* mwy nar ffordd. 57 *CS* ystyriwn gwelwn; *AGIKSUV* y gwaith, *M* em gwaith. 58 *F* am dduwoliaeth. 59 *A* gwna dda y ganon ddiwc (*ag* y ganon *wedi ei gywiro gan law arall yn* ac yno yn), *EFKM* gwnawn dda y ganon ddiwg, *G* gwna dda ac yno yn ddiwc, *DLNPW* gwnawn dda ac yna yn ddiwg; *X* drwy'r Ganon. 60 *AF* drwch wenwyn da drwg, *GU* drwch wenwyn na drwg, *X* neu wenwyn drwg. 61 *IVX* koffa da; *C* geiriau da ydoedd. 61–2 [*U*]. 61–4 [*H*]. 62 *ES* duw mawr a gore. 63 *IV* kaffwn; *DFGNP* dioer i kaffom, *M* dioer i caffwn, *QR* diau y caffom, *T* Diau kaffom, *AW* dioer y kaffon; *J* Duw in koffa, *T* Duw coffa.

Cywydd i Fair
Maredudd ap Rhys

Henffych well, Fair ddiwair, dda
O rieni, wŷyr Anna,
Mamaeth o rywogaeth rym
4 Siesws, ac wŷyr Sioasym.
Seren nef y'th fesurwyd,
Santa Maria, Mair, wyd;
Ym mamau dysg Mair wen deg
8 Yw Maria 'Nghymraeg.

Disgynnodd, pan luniodd les,
Oen Duw, fun, yn dy fynwes.
Yna cad y Mab rhad, rhwydd
12 O'r Tad a'r Ysbryd dedwydd.
Tri i'w henwi ohonun',
Troi a wneir y Tri yn Un:
Tad a Mab er yn faban,
16 Ac Ysbryd eglurbryd Glân.
Da fu, diau yw ei fod,
Duw yn rowndwal y Drindod.

Mab o Fair, yma y bu fo
20 A dynol gnawd amdano.
Brenin hynod brenhinoedd
Yw Brenin Nef, barn iawn oedd,
Y gŵr a wnaeth agori
24 Y nef a'r ddaear i ni,
A'r byrddydd, a'r gwŷydd, a'r gwynt,
A'r haul a'r lloer i'w helynt;
Ac yn ôl tywyllwg nos
28 A bair ddydd ar wybr ddidodos.
Mawredd fu i'th fru a'th fron,
Mair wen, haul y morynion;
Megaist heb ei ddirmygu
32 Y Mab a'n gwnaeth, da faeth fu.
Dy un Mab yw Duw a'n medd
Drwy agori'i drugaredd.

36 Trindod pob tir yw Unduw,
 Tair ystad yt a roes Duw:
 Brenhines Nef wyd hefyd
 Sy ben Arglwyddes y byd,
 Ymerodres, a phresen,
 40 A ffrwyno holl uffern hen.
 Â'th deg arglwyddiaeth dau—
 Mae ein bywyd mewn beiau—
 Nad ynn gael myned yn gaeth
 44 Ym mrwydr dy ymerodraeth;
 Lle ydd wyd lluniwyd ein lles,
 Fair wen, heno'n Frenhines.
 Dwg fyth, a chadwedig fo,
 48 F'enaid i gael nef yno.

Ym mharadwys o phwysir
 I ddyn ei gelwydd a'i wir,
 A wnêl o ran ei olwg
 52 O dda ac o draha drwg,
 Ymddiried o rym ddeuryw
 I chwi, Fair, am na cha' fyw.
 Od â 'nrwg i dynnu ar ôl
 56 Er ei faint ar y fantol,
 Dyro bwys dy baderau
 Ymysg y daioni mau;
 Dy laswyr bid elusen
 60 Wrth raid i'm henaid; Amen.

Ffynonellau

A—LIGC 17114B [= Gwysanau 25], 84 B—LIGC 5272C, 59 C—Card 5.167 [= Thelwall], 15 D—LIGC 695E, 37 E—LIGC 5273D, 23^v

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 145–54.

Amrywiadau

1–4 [DE]. 7 ACDE y marn dysg. 9 E lanwodd les. 10 E vn düw; D fv yn. 14 E a wnaeth. 17 B a diav i fod. 19 DE i fair. 22 DE a brenin. 26 DE ar helynt. 37 D Brenhiniaeth. 38 DE Arglwyddesaü byd. 44 DE Ond y mrwydr. 47 E dwg fair. 53 E y rym, D yr ym. 54 DE na chawn. 56 D er dy faint ar dy fantol, E er dy faint ar dy faentol.

Cywydd yn erbyn cybydd-dra'r byd
Maredudd ap Rhys

Yma'r ŷs yn ymryson,
 Anras sydd yn yr oes hon;
 4 Mynnu 'marddel mewn mawrdda,
 (Maddau, Duw, er meddu da),
 Ac arfer llawer o'r llaill
 Ydyw arwain da eraill.
 8 Ymladd â llafnau amlwg
 Am y da y mae a'i dwg.
 Bai ysydd, ni bu wiw sôn,
 Bod barcutanod tynion,
 12 Bron na pherth, na bryn na phant,
 Na da'r byd nid arbedant.
 Trech a gais y fantais fer
 Na'r hwn a'i ceidw o'r hanner.

Dialedd unwedd ennyd
 16 Aeth ar gybyddiaeth y byd.
 A grawn cybydd, gar union,
 A ŷs glwth safnrwth dan sôn,
 20 Drwy wg a hawl, drwg yw hyn;
 Gwaeth yw cybyddiaeth bawddyn
 A mawr ei bechod, merydd,
 Murnio'i dda ym mron ei ddydd;
 Ac ni fydd rhydd, pan fo rhaid,
 24 Yr ewinedd i'r enaid.

Gwae a garo, gwag oerair,
 Y da'n fwy na Duw neu Fair;
 Iawnach i gybydd enwir
 28 Garu Duw nag erw o dir,
 A tharo, yng ngwaith arian,
 Yn rhaid i'r enaid ei ran
 I brynu nef drwy lefair:
 32 Gan dlawd, er cardawd, y'i cair;
 Prynai ddyn, prin oedd ei ddydd,
 Â'i dda nef iddo'n ufydd.

- Beth a dâl, ond dialedd,
 36 Da'r byd wrth fyned i'r bedd?
 Dyn a aned yn annoeth:
 Nid â i nef ond yn noeth.
 Symledd y byd sy amlwg
 40 Ysywaeth, fal am draeth drwg:
 Dyn od âi, diannod oedd,
 Drwy y llanw i dre'r llynnoedd,
 Gorau i bawb garu o'u bodd
 44 Y trai i fyned trwodd.
 Dyn main glân, fel edn mewn glud,
 A êl yn llawn o olud,
 Hir yw ei daith, hwyr y daw
 48 I'r nef ar hyder nofiaw.
 Anodd gan berchen canmuw
 Rannu o'i dda'r un i Dduw.
 Cybydd ni rydd, yn ei raid,
 52 Frwynen, er nef i'r enaid.
 Ei famaeth, a'i nef benna',
 Fydd i ddyn cybydd ei dda.
- D'led cywaeth i dlawd cywir,
 56 A'i dreftad ef yw nef yn wir.
 A nef yr wy'n ei ofyn,
 Fy Naf a roddo nef ynn.

Ffynonellau

A—Card 2.114 [= RWM 7], 929 B—BL Add 14967 [=RWM 23], 170 C—
 Pen 78, 30 D—LIGC 3040B [= Mos 132], 82 E—Card 2.5 [= RWM 11],
 134 F—LIGC 3056D [= Mos 160], 399 G—BL Add 14979, 59^v H—BL
 Add 31056, 194^r I—Pen 100, 245 J—LIGC 3048D [= Mos 145], 78 K—
 BL Add 14984, 148 L—BL Add 31060, 279 M—Card 5.30, 70 N—Pen
 88, 30 O—CM 22, 79 P—Bangor (Penrhos) 1573, 105 Q—Pen 198, 195
 R—BL Add 14977, 91 S—BL Add 14900, 123^v T—Bangor 1268, 15^v

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 145–54.

Amrywiadau

1–30 [S]. 1–46 [O]. 2 *FHIP* ar ias. 5 *GH* Ar arver. 7 *E* ar kledde, *K* a
 chledde, *PR* ar llafnau. 10 *DELMR* dynion. 11 [D]. 13 *BC* Trech a gais trais
 fantais fer, *F* trecha a gais fantais ferr, *H* y trech a gais fantais fer, *I* Trech
 yw a gais fantais ferr, *T* trech a gais trwy falais fer. 14 *C* nor rhwn ageidw r
 haner, *FPQ* a hwn a geidwr hanner, *H* a hwn ai ceidw or haner, *IQ* na'r

hwnn a geidw o'r hanner; *T* a geidw'r hanner. 15–58 [*N*]. 16 *FHIMPQ* a aeth ar gybyddiaeth byd. 17–18 [*FHIP*]. 21 *BKT* Mawr yw ei bechod, *E* mawr yw bechod; *G* ond mawr i; *C* myredydd. 23–4 [*C*]. 29 *T* unwaith arian. 30 *CEKLMQT* wrth raid; *BDFQ* yr enaid. 33–4 [*H*]. 33 *Q* Pe rhannaü ddyn prin i ddydd; *EFIJKPRS* prynned, *G* prynodd. 34 *FIJPQR* oi dda, *AG* oi ddaf. 37–8 [*DL*]. 39 *BCDLMQT* Symledd da'r byd, *EK* ymladd y byd. 41 *BCT* Dyn nid ai. 42 *A* mewn llanw; *BCT* drwy r llanw i dir or llynnoedd, *DL* Drwy llanw draw i'r llynnoedd, *E* Drwy y llanw i dreio llynodd, *FHIP* drwy lanw i dref lynnoedd, *K* drwy y llanw i dreio lluoedd, *MQ* Drwy r llanw i droi yr llynnoedd. 44 *FIS* wrth fyned, *H* wrth ddyfod, *P* wrth ddowod. 46 *EK* a elo mewn llawn olud; *A* mewn llanw. 48 *T* o hyder. 51–2 [*FI*]. 52 *EGHJKPRS* ronvn. 53 *A* i nef ai benaeth ynaf, *F* i nef ai bennaeth yma, *G–JP* Ei nef ai bennaeth yna, *ER* I benaeth ai nef bena, *K J* bennaeth ar nef benna. *Ar ôl ll. 54 yn BC (ar ôl ll. 44 yn T) ceir:* nefoedd ir corff yn wyfawl / a ddwg yr enaid i ddiawl; / a chorff mewn purdan o chaid / a freinia nef ir enaid. *Ar ôl ll. 52 yn DLMOQ ceir:* y nef ir korff annwyfol / a yrr yr enaid ar ol. 56 *CT* adre i daw ir nef yn wir. 57 *OQ* Nef y ddym yn i ofyn. 58 *T* Fy Nuw fyth a ro nef yn.

Cywydd yn erbyn caru'r byd
Maredudd ap Rhys

- Gwn nad da, gwaec enaid dyn
 Draw goelio i dri gelyn:
 Ei gnawd un gan udone'
 4 Ni chaid un enaid i ne';
 A'r cythrel yw'r ail gelyn,
 Bwriad tost, a wna brad dyn;
 Hudol yw'r byd hefyd hwn,
 8 Fal Mai ddail, o meddylw'n.
- Pam na wyl gw'r, cyflwr caeth,
 Mor ful y daw marfolaeth?
 Yr hwya'i oes yn rhoi'i win,
 12 Yn farwniaid, yn frenin,
 Meddylied am wýdd elawr,
 Ni phery'r byd ennyd awr.
 Mynnu tiroedd a mw'nai,
 16 Ennill o gestyll a gâi;
 Mynnu gwneuthur tai meinin,
 Seilio'r gwaith, selerau gwin;
 Gynau sidan dan amod,
 20 Meirch a chlêr mawrwyd a chlod.
 Pwy'n wych ei ddeudroed pan ân?
 Yno'n haws yn un hosan?
 Ac yno yn ei gynfas
 24 I'r tŷ o glai a'r to glas,
 A'i gywely fydd gwialen,
 A chau ei borth uwch ei ben;
 Gado'r golud, hud yw hwn,
 28 A'r gwindai ar y gwndwn.
 Mae yno y tai meinin?
 Mae'r tyrau gwych? mae tai'r gwin?
 Mae'r dwbledau o sidan?
 32 Mae'r gwin pêr? mae'r gynau pân?
 A gasglo oddi yno o dda
 Drwy gam, ef a drig yma,

36 A'i weithred wrth yr edef,
Coelio'n wir, a'i calyn ef.
Myned a wnawn i'r mynydd,
Yno y down yn un dydd;
Y dyn a'i weithred i'w dâl
40 Yn dyfod dan ei ofal.
Ofned anghred a bedydd,
Mor gadarn yw'r farn a fydd!

44 Trown at Duw teg a'n tre-tad,
Yno dêl ynn adeilad,
A'r saith weithred, o credan',
A'u troi i gyd at rai gwan:
Rhoi bwyd a diod o dôn',
48 Ac edrych clefrych cleiffrion;
Hebrwn corff o'r bryn i'r côr,
A charu pob carcharor;
Rhoi llety a gwely i'r gwan,
52 A dillad rhag bod allan.
Llyna'r saith bren i'w henwi
Ar dâl nef adeilwn ni;
A heliwn goed gwehelyth,
56 A gwnawn dŷ a bery byth.

60 Down yno at Dduw a'n hannedd,
Ac yn ei lys y gwnawn wledd.
Archwn i'r uchel Geli,
Lle prynodd ef nef i ni,
Gael i ni oleuni'i wledd,
A bodd Duw'n y bedd diwedd.

Ffynonellau

A—LIGC 3037B, 321 B—Card 5.167 [= Thelwall], 19 C—Card 2.114 [= RWM 7], 657 D—Card 2.4 [= RWM 11], 56 E—BL Add 14885 [= RWM 34], 35^v F—LIGC 3056D [= Mos 160], 482 G—BL Add 14979 [=RWM 38], 228^r H—Llst 155, 92 I—LIGC 13079B, 4^r J—BL Add 14906 [= RWM 45], 24^v K—LIGC 17114B [= Gwysanau 25], 542 L—CM 5, 128 M—LIGC 6706B, 162 N—Pen 137, 118 O—LIGC 970E, 16 P—Bangor (Mos) 6, 66^r Q—Pen 312, i, 4 R—Llst 35, 28 S—BL Add 14900, 115^v T—BL Add 31060, 93 U—Llst 47, 46 V—Card 5.44, 10^r W—LIGC 13072B, 209 X—Llst 134, 4 Y—LIGC 16B, 105 Z—BL Add 14966, 21^r a—CM 22, 217 b—BL Add 15007, 6^v c—LIGC 15543B, 35^r d—LIGC 13178B, 26^r e—BL Add 12230 [= RWM 52], 248 f—Llst 42, 63 g—Bangor 1268, 55^v

h—Pen 198, 27 i—LIGC 21248D, 198^r j—LIGC 12443A, 183 k—LIGC 13061B, 134^v l—LIGC 13064D, 45 m—LIGC Mân Adnau 1206B [= Tanybwllch 1], 292

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 145–54.

Amrywiadau

1 *DJ* gan enaid, *b* gen enaid. 2 *BCKNg* yw dri, *JS* oi dri. *Ar ôl ll. 2 yn FILMRcfhm ceir*: tri gelyn i ddyd a ddaw / i roi dull ar i dwyllaw. 4 *U–Xdk* o chaid, *BDEHJKZbceg* ni ad, *I* ni aid. 5 *BGK* y kythrel. 6 *FHLPR* brad tost a wna bwriad dyn, *Mhm* i beri twyll a brâd dŷn. 7 *CHYZg* hyfryd hwn. 8 *CEGNSTbe* yma i ddail, *OU–Xd* yma ddail, *BJK* yma i ddiawl, *Yg* minne i ddail, *DH* yma i ddal; *FLPRf* am i ddal i meddyliwn, *Mh* am i ddal o meddyliwn. 9 *DELNTYZg* pan. *Ar ôl ll. 10 yn e ceir*: *Ar ein hoedl na rown hyder / nid oes i fyw ond oes fer.* 12 *c* A'i Faroniaeth. 13 *LMNPRm* meddyliwn; *QSTaegj* am wedd elawr, *i* am waedd elawr, *H* am vod elawr. *Ar ôl ll. 14 yn CDGg ac ar ôl ll. 12 yn T ceir*: *Afraid i lawen hyfryd (T y neb hyfryd) / i awydd beunydd ir byd.* 15 *FLMPRU–Xdfhklm* arian a mw nai, *Y* arian a mynai, *C* aur tir a mw nai; *T* ynill miliwn of w nai. 17 *Cajl* gweithio tai; *FGLMOPRU–Xdfhkm* a mynu gwaith tai, *N* mynv gwaith tai, *Qi* mynnu y gweithdai, *EJ* mwy na gwaith tai; *Y* llinio turau a llinin. 17–20 [Tb]. 19 *Eg* tynu sidan, *UVXdk* mynnu sidan; *FLMRfsh* heb ddanod. 20 *BDEGHKSZe* a chlych, *N* a clych, *OUVXdk* a chledd; *J* a gwelych. 21 *FLMRfsh* pa nerth ir ddeudroed, *P* pw y nerth ir ddeudroed, *UVXd* pw y noeth i ddwykoes; *C* ar ddeudroed. 22 *EH–KNZc* yma yn haws mewn, *ST* yno yn haws meawn [sic]. 23 *FLMPRfsh* ag yn fud yn; *OUVXdk* y govud yno a gavas. 25 *FLMORUVXZdefhkm* a gwely o hyd gwialen. 26 *CEFGLMOPRTU–Xabdefhkm* bwll, *Y* ball, *c* Barth. 27–8 [G]. 29–32 [ITc]. 30 *f* a'r tyrau gant. 31–2 [FLMPRfsh]. 33 *C* a gasglodd a ddenodd o dda; *BK* a dyrro da, *D* a ddygo dda, *GH* a ddenodd dda, *OU–Xad* iddo o dda, *Qaij* ynddo o dda. 36 *BFKLMRYfsh* koeliwn. 37–40 [Dicg]. 37 *FLPR* myned fydd rraid; *MYfsh* sydd raid, *m* sy raid. 38 *MP* gwn y dydd, *Y* yn enw duw yn vn dydd. 39–40 [EJNbe]. 39–44 [K]. 40 *Mhm* daw n ufudd dan; *Y* yn treio'i ofid trwy ofal. 41 *FLMPWfsh* ofni, *OUVXdk* ofna; *g* ofned am i gred, *Ic* koyled angred; *EJ* a gwledydd, *b* y gwledydd. 43–4 [DEHJSZbe]. 43 *OUVXk* duw lle mae n. 44 *T* yno i dylen y deilad; *FLMPRfsh* dylwyth a gwnawn ydeilad, *OUVXdk* adolwyn gwnawn adeilad, *Y* dilesg a gwnawn ydeilad. 45–6 [FLMOPRU–Ydfhkm]. 45 *Ga* om credan, *Q* om cred[], *b* o godan. 46 *DSbe* tuar gwan; *aij* ai rhoi i gyd ar yrhai gwan. 47 *Qaij* Dwyn bwyd. 48 *DGS* edryd clefyd cleifion, *M* gweled clafed y cleifion; *OUVXk* edrychyd clefyd; *Ng* klefrych kyleifion. 49–50 [S]. 49 *DEJem* cyrff; *FPRf* kyrff obry ir cor, *LMh* kyrff obru yn cor; *Ici* erbyn korff, *CQl* erbyn cyrff. 51–2 [INOPU–Ydk]. 53 *HOP UX–ai* saith ben, *Vdk* saith penn, *j* sarth ben. 54 *LR* yn y nef; *H* a dal ef yn

nef in ni. 55–8 [c]. 55 *OU-XZdik* hoeliwn goed; *CGT* gwiw helyth. 57–8 [I]. 57 *BGK* Awn yno, *H* Awn at Dduw; *Rfh* ir hwn yr awn, *FLM* i hwn irawn, *OU-Xdk* yno i ddawn, *P* i hwn i rawn. 58 *JNb* y kawn, *U-Xdkl* ni gawn, *GRYaij* ni a gawn. 59 *DEFLMNPRSZbeshm* archaf, *J* archa; *Qaij* in vchel. 60 *FLMPRfsh* barnodd, *OUVXdk* bwriawdd; *Z* rhanodd. 61 *OU-Xcdk* goleini gwledd. 62 *Eb* duw yn y dywedd; *Aa* erbyn diwedd, *CDGHNe* ni bydd diwedd; *OUVXk* a byw i Dduw heb ddiwedd.

*Cywydd merch
Maredudd ap Rhys*

- 4 Cerais wen, cares hinon,
 Ac a'i câr a gaiff gwg hon.
 Er caru f'aur cywiriaith,
 F'aur ni châr arnaf ychwaith.
 Naw cynt ym gael fy nacáu,
 Neu'i chas wên, na'i chusanau.
 8 Ni'm câr y fun a'm curiawdd,
 Myfi a'i carwn hi'n hawdd.
 Twyll y gannwyll a'i gweniaith,
 Olew a gaf wyl a gwaith.
- 12 Mis Mai yr addawai'r ddyn
 Ym oed dydd, amod deuddyn.
 Penyd o anap anial,
 Pob Mai y'm twyllai i'm tâl.
 16 Llawer Mai felly ermoed
 A fwriais mewn oferoed.
 Mae anap i ddymunwr,
 Merch ni fyn gordderch na gŵr.
 20 Och ym o gwn ddychymyg
 I ddwyn gwen dan bren a brig.
 Ni chaf feingan o'i hanfodd,
 Ni fyn bun finnau o'i bodd.
- 24 Nid oes iarll, *ac* nid wiw sôn,
 A dwyll wen, na dillynion.
 Gwir Dduw, ni chymer gwawr ddydd
 Gae o aur nac o irwydd;
 28 Mwnai yn hud ni myn hon,
 Ni myn gerdd na main gwyrdion.
 Ni rydd gwen, geinrudd gwynroch,
 Er mawl, un o aur y moch.
 Na chorff lunieiddiach ni chad,
 32 Ni chair er ofn na chariad.
 Gwyn ei byd fy myd o'i modd,
 A gwae byth a'i gobeithiodd.

36 Beth a dâl gobeithio dyn
Fain wendeg? Ni fyn undyn.

40 Y byd yn well nag y bu,
Myn Mair, a gair i garu;
Pob bardd a chwardd, a cherddawr,
Pan fo gwaith Cors Fochno fawr.

44 Aml gwraig mewn wmal a gra,
Ac anaml gŵr gwraig yna.
Saith wragedd ym mawredd Mai
Am un gŵr a ymgurai.
Yno cair yn y ceirydd
Merch yn rhad, a meirch yn rhydd.

Ffynonellau

A—LIGC 3056D [= Mos 160], 396 B—Pen 312, iv, 42 C—Bangor (Penrhos) 1573, 231 D—Bodley Welsh e 7, 79 E—CM 243, 73

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 145–54.

Amrywiadau

4 *AE* fawr ni; *B* ni chair. 5 *B* Naw cant y cawn oi nycau. 9 *A* a gweiniaith. 10 *BD* gawn. 11–12 [*AE*]. 12 *B* dydd am y tyddyn. 14 *D* miss mai hi am. 21 *A–E* cha. 23 *B* iarll od oedd wiw, *C* iarll nid oedd wiw; *D* nid oes wr ni o wiw son. 24 *B* a dull union, *DE* a dillynion. *Ar ôl ll.* 24 *yn B ceir*: Ni ellir o hynn allan / droi merch a modrweye mân. 28 *A–E* gwrddion. 29 *ACDE* gwnroch, *B* gwngoch. 30 *B* er mil [] y moch. 35–6 [*B*]. 37 *B* Y byd sy well. 42 *ABCE* yma. 44 *BCD* a ymwannai.

Cywydd i wraig ieuanc
Maredudd ap Rhys

Mae haul, a wêl dyma hi,
 Lawn o bryd a goleuni—
 Nid yr haul uchel felen,
 4 Haul yw o ddyn hylwydd wen.
 Nid rhaid, enaid y dynion,
 I neb haul ond wyneb hon;
 Ni ddaw tywyllnos dawl,
 8 Ni dderfydd lliw dydd lle dêl;
 Ni ddiffydd camp y lamp lwys
 Na'i phryd mwy na pharadwys.
 Nid dim fel main San Tomas
 12 Ond grudd ail Enid a'i gras.
 Ni bydd yn y man y bo
 Nos unwaith yn oes honno.
 Deillion y byd a allai
 16 Weled bun a'r wlad y bai.

Os dyn a ddengys y dydd
 Yw'n lluniaeth a'n llawenydd,
 Ni bu lawenydd na byd,
 20 O bai drwstan, heb dristyd.
 Melys ni chaf ym Maelawr,
 Heb chwerwedd, ddwy fodfedd fawr.
 Dunos fydd ym, myn Dwynwen,
 24 I dŷ y gŵr od â gwen;
 Ni wyl drem onid niwl draw
 O châl Eiddig ei chuddiaw.
 Y mae gwely i'm gelyn
 28 Lle machludd deurudd y dyn.
 Gwely Eiddig a luddiai
 I liw'r tes oleuo'r tai.
 Cannwyll pan êl i'w gwely,
 32 Cynnar y tywylla'r tŷ.
 Dybryd oedd fyned wybren
 Ar hwyl wyllt dros yr haul wen.

- 36 Cwypio, murnio mae oernad,
Clipsi ar oleuni'r wlad;
Gweddus, myn y grog, iddun'
Gweiddi o bawb guddio bun.
- 40 Gwae galon, breuddwydion braw,
Ei chywyddol o'i chuddiaw;
Gwae a rydd, a gŵr iddi,
Ar ferch ryw serch a rois i.
44 Caru gwraig ieuanc wriog
A'm gwnaeth, fel ych llawfaeth llog,
Yn wan, ac yn anuniawn,
Ac yn glaf, ac yn gul iawn.
- 48 Drwg, fel pwynt Uthr Bendragon,
Yw fy mhwynt i fyw am hon,
Gŵr a fu glaf o gariad
Eigr gynt, ef a gurai gad,
52 Hyd pan dynnodd, seiliodd serch,
Hud Merddin hoed am ordderch.
A minnau a ddymunwn
Gael hud mor ddirgel â hwn
A'm gwnâi, ni bo llai gwellhad,
56 Yn rhith gŵr f'arhaith gariad
I gael myned i'w gwely,
Gwarae twyll â gŵr y tŷ.
- 60 Och nad wyf, o nwyf fy nyn,
Fal Eiddig yno flwyddyn,
Ac o lid Eiddig wladaidd
Yn y glyn flwyddyn yn flaidd.

Ffynonellau

A—BL Add 14967 [=RWM 23], 88 col b B—BL Add 14999, 69 C—Pen 112, 474 D—LIGC 5269B, 151^r E—Pen 240, 64 F—BL Add 31071, 99^v

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 145–54.

Amrywiadau

10 *CD* na phryd. 16 *E* o'r wlad. 23–4 [*B*]. 24 *AD* o da gwen. 33 *B* oedd weled. 35 *BCF* mau oyrnad.

Mawl i wraig a gogan i'w gŵr
Maredudd ap Rhys

- Y ferch hir, fawr ei cherydd,
 Gywir, fain, gan ei gŵr fydd.
 Paham, fun, ddinam, fwyn, ddoeth,
 4 Y trigi, f'enaidd rhygoeth?
 Dirnad ei ruad a'i ranc
 Dan ei law, dyn ŵyl ieuanc.
 Gorau yt, ddyn a garwn,
 8 Ys gwir hud, ysgar â hwn.
 Er bod yt ŵr, bywyd tost,
 Teg addwyn, ti a'i gwyddost
 A fu neb mor fawai'n iach,
 12 Wen liw dydd, na'i wladeiddiach?
- Mae yrhod, mi a ŵyr hyn,
 Oes ragor a sarugyn.
 Hael didwyll wyd, hil Dewdwr,
 16 Cybydd, myn y dydd, yw d'ŵr.
 Llon wyd, Eigr, llawen d'agwedd,
 Trist yw ef, wtresud fedd.
 20 Dig yw achos mor deg wyd,
 Deddyw gwawd, diddig ydwyd.
 Niwr Dduw i hwn, gwyddwn ged,
 A dyciai dim dy deced.
 24 Penydiodd gorff—pand oedd gam?—
 Wen ei gwedd, ni a'i gwyddam.
 Rhoi milain y brain heb wres,
 Duw, o flaen difileines.
 28 Mwyn wyd, wen, Bronwen o bryd,
 Ac anfwyn yw, ac ynfyd.
- I gan Eiddig, wen addwyn,
 Y caut annod fod yn fwyn.
 Ni charai anwych oerwr,
 32 Na châr dithau yntau ŵr.
 Cared fwyn, mau gŵyn, yn gall,
 Maen eirioes, ddyn mwyn arall.

- 36 Myn Duw a farn, mwyn wyd ferch,
Mwynion a gâr ym annerch.
Mwyn wyd, teg yw'r amnaid tau,
Myn f'enaid, mwyn wyf innau.
40 Medru caru y'm cweiriwyd,
Mwyna' dim, a'm enaid wyd.
Carwn a maddeuwn ddig,
Och i'w rudd, ni châr Eiddig.
44 Os cadarn, os hocedwr,
Os dig a rhyfygus d'w'r,
Nac arbed, f'adduned fydd,
Garu er ofn ei gerydd.
48 Os dewr iawn, ystyr anun,
Os balch, gwyped eisiau bun.

Ffynonellau

A—Pen 112, 488 B—BL Add 14967 [=RWM 23], 172 C—LIGC 5269B, 166^v D—Bangor 13512, 26^v E—BL Add 31071, 105^v

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 145–54.

Amrywiadau

21 *A* Muwrdduw, *BCD* nvrdduw, *E* Ny wyr dduw. 27 *ADE* Branwen. 30 *B* kaud, *ACD* i kaid. 34 *ABCE* neirioes, *D* neinioes. 36 *CD* gâr ymannerch. 43 *D* cocedwr. 45 *A–E* vedduned. 47 *A–E* anun.

Cywydd y daran
Maredudd ap Rhys

- 4 Y mae gair ym o gariad
Gael is dail gwely o stad,
A cherdd gan fronfraith a chog,
A merch wen ym erchwyniog.
Mynnais yn dâl am anhun
Gael bod yn gywely bun
8 Dan lwyn mewn dien lannerch
A dail Mai rhwng dwylo merch.
- 12 Myn Duw, pan oeddem ein dau
Lawena', ddyn ael winau,
Taro a wnaeth, terrwyn oedd,
Trwst taran tros y tiroedd;
A ffrydiaw croywlaw creulawn,
A phoeri mellt yn ffrom iawn.
16 Gwylltio'r forwyn fwyn feinwen,
Gwasgu a ffoi gwysg ei phen.
Ffyntu'n deg, ffo yno'n dau,
Ffoes honno a ffois innau.
- 20 Drwyn fflam, drwg fu'r daran fflwch,
Dwyn gwarwyfa'n digrifwch.
Trwch oedd, a thristwch i'w thrwyn,
Trwst mawr yn tristáu morwyn;
24 Twrf a glyw pob tyrfa glau,
Tarw cryg yn torri creigiau.
Taran a dddwg, trin oedd ynn,
Trwst oerfa wybr tros derfyn;
28 Twrf awyr âi trwy Fuellt,
Timpr o fwg, tamprau o felt;
Tân amlwg, dŵr tew'n ymladd,
Tân o lid, dŵr tew'n ei ladd.
32 Clywais fry, ciliais o fraw,
Cerlaith utgorn y curlaw;
Mil fawr yn ymlyferydd
O gertweiniau'r sygnau sydd.

- 36 Braw a ddisgynnodd i'm bron,
Bwrw deri mewn wybr dirion.
- 40 Gwyllt yr awn a'm gwallt ar wŷyr
Gan ruad gwn yr awyr.
Gwiddon goch yn gweiddi'n gau,
Gwrach hagr, dan guro'i chawgiau;
Rhegen germen, gwn gormes,
Rhugl groen yn rhwygo glaw gwres;
Torri cerwyni crinion
- 44 A barai Grist i'r wybr gron;
Canu trwmp o'r wybr gwmpas,
Curo glaw ar bob craig las;
Croglam yn dryllio creiglawr,
48 Crechwen o'r wybr felen fawr;
Trwy ei hun y trawai hwrdd
Tebyg i ganu tabwrdd.
Nid gwaeth wrth fyned i'w gwâl
- 52 Er bremain o'r wybr wamal,
Oni bai faint braint ein braw,
Ofn deuddyn a fai'n dyddiaw.
Un dyn nid oedd ond ni'n dau
- 56 Mewn man, fy mun a minnau.
Fy nyn wen ofni a wnâi
Awyr arw pan weryrai.
- 60 Drwg fu'r daran ymannos,
Dwyn dlif ac ofni dyn dlos.
Arw fleiddiastr, oerfel iddi
Am ysgar meinwar â mi.

Ffynonellau

A—BL Add 14967 [= RWM 23], 37 B—Card 2.114 [= RWM 7], 263 C—BL Add 14866 [= RWM 29], 184^v D—LIGC 5265B, 30 E—Card 5.10i [= RWM 48], 46 F—Card 2.26 [= RWM 18], 170 G—Bodley Welsh e 1, 19^v H—Llst 120, 140 I—LIGC 5283B, 264 J—Llst 50, 55 K—LIGC 727D, 210

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 145–54.

Amrywiadau

5 BDEH mynaf. 7 G a dien; F lwyn diddan ar lanerch. 10 J mywn man y mun a minay. 11 F trystio a wnaeth trwst tan oedd; BDJH tra erwin oedd, E

tŷ erwin oedd. 13 *FI* syrthiaw. 15–62 [*F*]. 17–18 [*J*]. 17 *B* fy nyn deg fy ofni yn dau, *GH* Fy nyn deg ofni yn (*H* om) dau; *EI* ffo (*I* ffoe) ni yn dau. 19 *K* darn fflam; (*C*)*I* duryn fflam fu'r. 21 *J* drwy drwth a; *C* trwch i thro tristwch. 25–6 [*AJ*]. 25 *CGIK* a ddug. 26 *C* arfau, *G* dyrfa; *I* tarfav. 27–8 [*J*]. 28 *K* a fag. 32 *C* carlaidd, *J* karlaid, *G* carlam, *I* karlais; *D* vthyr, *E* yttgur. 34 *C* o gadwynau'r. 35 *E* braw a ddatseiniau ein bron, *G* braw a droes briwloes i'm bron; *D* a chystynedd. 36 *C* or wybr. 37–8 [*J*]. 37 *I* gwlltio r wen ai gwallt ar wyr. 38 *AIK* o rawyr. 41 *A* gwyn gormes, *C* gwyn (gwn) gormes, *J* giw gormes. 45 *BH* ar yrwybr. 46 *BH* yn ael pob kraig, *GK* yn ael craig, *I* ar fol kraig. 47 *C* creglem, *G* Creglais, *J* kryglais. 48 *ACJ* y rwybr, *I* y ffvrfadden. 50 *J* y gaink y. 51 *A A* gwaeth; *CEK* oi gwâl, *BEH* ir gwal. 53–4 [*J*]. 53 *AEGL* mewn braintt braw. 55 *AK* ond yn dau, *I* ni yn dav (*a'r* ni *wedi ei ddileu gan law arall*). *Ar ôl ll.* 56 yn *AEIJ ceir*: Breferad (*I* Bryferod) yrwybr verrydd (*I* oferydd) / *J* a wnaeth (*A* barai) i ni (*A* im, *E* mi) dorri (*A* dorri) dydd. 59–62 [*J*]. 61 *EGJ* floeddiast, *K* arw floedd ag oerfel iddi.

*Cywydd i hen lyfr brud
Maredudd ap Rhys*

Y bardd:

- 4 Brat llwyd, cymysg brot a llaid,
 Brut hen lyfr y Brytaniaid,
 Brwydr ar dir Camber ydwyd,
 Brychliw dwrch brycheulyd wyd.
 Brathgroen hyfr, brithgrwn hyfedr,
 Barcutan tal llydan lledr,
 Beth a dâl ym d'obeithiaw?
8 Yn boeth y bych, hen beth baw.
- Eiddilwch ym dy ddilid,
 I ddiawl Gwent ydd êl i gyd.
 Y gŵr ag ysgrifen gau
12 A lanwodd dy ddolennau,
 Am roi ynfytgerdd Merddin
 Yn llawdr crwth hen lleder crin;
 A'r tarw moel, llyna goel gwan,
16 I'n twyllo o'n tai allan.
 Ffôl yw dy siarad, brad breg,
 Ffôl o eiriau ffiloreg;
 Addaw i'r bobl a wyddyn'
20 Fyd da, a heb ddyfod hyn.
 Cred fi na rown welltyn crin
 Er myrdd o eiriau Merddin.
 Mae ynod, bragod bregeth,
24 Gyfrinach Gwion Bach beth,
 Y gŵr a ddyfod geiriau
 Gwir gynt, heb draethu gair gau.
 Bellach ni chair gair o gân
28 Digelwydd rhwng dau galan.
 Sorrais am bob gair sarrug
 O'th ben, lyfr offeren ffug;
 Ni chawn, er a wnawn o nod,
32 Oer groenyn, air gwir ynod.

Hwyr ddadl, herwydd a ddwedy,
Hen bortas Adda Fras fry,

36 Bod yn anhwsmon bydol,
 A'r dasg am wneuthur ar d'ôl,
 Gwerthu gwartheg mawrdeg mau,
 A phrynu meirch a ffrwynau;
 40 Prynais, fel milwr gŵr gwrdd,
 Rif aml o arfau ymwrdd.
 Gwyllo bûm, ar gil heb wedd,
 Am y lan y naw mlynedd
 44 Ar fedr, wrth ymarfodi,
 Symud fyd, y siomed fi.
 Gorfod gwerthu'r graig arfau
 A'r meirch rhagorawl o'r mau,
 A gwerthu'r bais rhag trais trin
 48 I brynu heddwch brenin.
 A brydais yt yn brud serth
 A brydaf yt yn bridwerth.
 Ffaeledig lyfr ffôl ydwyd,
 52 Ffaeliaist o'r iawn, ffalster wyd;
 Ffugiol o'r hen brennol brych,
 Ffugiol fodd, poed ffagl fyddych.

Y llyfr yn ateb:

56 Taw di fardd, nid da dy foes,
 Tirion, rhoed Mair yt hiroes.
 Och fi, Grist, pam na chaf gred
 Am ei ham lyfr Mahumed?
 60 Gad ym, arglwydd gydymaith,
 Ateb i'th wyneb o'th iaith:
 Mae'r drin wedy eginaw
 Yn lle gwir drud yn Lloegr draw,
 64 Pan fo aeddfed i'w fedi,
 Yn amser yr R a'r I,
 Y mae gyferbyn â Môn
 Ar ei oddef arwyddion:
 Enynnu tân ym Manaw
 68 A fydd y rhyw ddydd a ddaw;
 I ddiawl, pe llosgai Ddilyn
 Oedd ddim mwy yn ôl i ddyn?
 Och ŵr, drwg wyd o chwarae,
 72 A chwerw a ffrom na cheir ffrae;
 Drwg yw, fel dirywio gŵr,
 Dy ddull, nid wyd ddeallwr.

76 Deall hyn, Duw a'i llunia,
Y daw y byd hyfryd ha'.
Edrych a welych o waith
A wnêl Duw yn y dalraith.

Y bardd:

80 Taw, taw â'th addaw eiddil,
Hwt, hwt, dros ysg;t is gil;
Temlau twyll odlau lledlith,
Yti ni choeliarf-i fyth.

Ffynonellau

A—BL Add 14866 [= RWM 29], 199^v B—Llst 135, 95 C—Llst 120, 242
D—Llst 41, 109 E—Llst 54, 207 F—BL Add 14984, 183^v G—LIGC
1578B, 440 H—LIGC 642B, 5 I—Bodley Welsh e 6, 313

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 145–54.

Amrywiadau

2 *B* bryt hen o lyfr brytanied. 4 [*D*]. 5 *CE* braith groen; *G* brithgroen hyfr
brath. 6 *G* llûn barcyttan lydan. 11–12 [*CE*]. 11 *G* a lvnies dy ddolennav. 12
G dwysg fwrn gylch dy scrifen gav. 13 *B* ynod gerdd. 15 *BD* y tarw. *Ar ôl ll.*
16 *yn BD ceir*: gwaeth wyd a ffyg nag a'th wyl / gau dduw gymry (*B*
Gymro) a Gwyddyl. 17–18 [*D*]. 19 *BG* a wyddym, *C* awddym. 20 *BCG*
ddyfod dim. 21–2 [*BD*]. 21 *CE* Credwn ni rown. 26 *BD* heb ddwedyd. 27 *D*
weithian ni, *B* weithey ny. 32 *D* groynen. 36 *B* awnythym, *C* a wnaethom, *D*
y neythym. *Ar ôl ll.* 38 *yn C ceir*: Vffern poen iti'r groen grach / dig o bu
gyngor degach. 39 *D* pryny. 42 *C* Ymlaen y naw, *D* yno ymlaen. 43–4
[*AFH*]. 45 *CE* gorfu im werthu'r arfau. 46 *G* ar cwbl or mav; *CE* ar meirch
ar harnes o'r (*E* ar) mau. 47 *G* a gwnevthyr pais. 49 *B* y brat serth, *D* ytt o
serch. 50 *AFH* brydverth. 52 *CE* ar wir; *B* ar wir ffalstwr. 53–4 [*G*]. 53 *BI*
ffentol hen, *CE* ffeintiol hên, *D* ffentol hen. 54 *BC* ffeigiol fyth ... fyddych,
E ffygiol fyth ... fythyach. 55–8 [*BD*]. 55–68 [*AF*]. 55–70 [*H*]. 58 *CEGI* i
ham. 59 *B* anwyl, *D* f'anwyl. 60 *BD* dy atteg; *G* ath waith, *B* oth waith. 63–8
[*BD*]. 68 *I* a fydd rhyfedd ddydd. 69 *D* ddail. 71–8 [*GI*]. 73 *B* a dirywiog wr;
D wyd ddirowiog. 76 *CEI* hefyd da. *Ar ôl ll.* 78 *yn D ceir*: na fydd y kroyw
brydydd kry / serth na dry foes ys wrthy. 79 *CI* taw taw taw addaw, *EG* Taw
taw tav addaw. 81–2 [*GI*].

Cywydd brud
Maredudd ap Rhys

- 4 Rhyfedd, o daw diwedd da,
 Yw damwain y byd yma;
 Rhai'n ennill rhannau uniawn,
 Rhai a gyll yn rhywiog iawn.
- 8 Chwarae glew chwerw a glywais
 Oedd dduw Sul rhwng y ddau Sais;
 Yna'r aeth yn yr eithin
 Fflwr-ddlis, fal bwrw dis ar din.
 Lloegr aeth ar y llaw hygoll,
 I'r llaw gre' yr aeth Lloegr oll;
 Wedi'r H, E ydyw'r ôl,
 12 Wedi'r E y daw reioli.
- 16 Y rhod a droes ar ryw dro,
 Rhaid ytoedd droi'r rhod eto;
 Troed y rhod trwy ado'r rhain,
 Troed at y Cymry truain.
 Hi a droes o hyd ar wŷr,
 Hi a dry hyd yr awyr.
 Mae arwyddion ym mreuddwyd,
 20 Mae rhai o fewn llam y rhwyd.
 Y mae'r aur yma'r awron
 Yng nghrog, wedi bod yng nghron;
 A'r fath, llyna wir a fai,
 24 Fanach, fanach yw'r fwnai.
 Anhybarch ydyw'r farchnad
 A'r fwnai'n glaf ar fin gwlad.
- 28 O glefyd ac o lefair
 Gwarded agored a gair.
 A fu hyfryd fyd heb fai?
 'E fu hyfryd fyd difai.
 Gwilier ar ôl glaw a'r iâ
 32 Gwanwynddydd gwyn a hindda.

- Ar hindda bydd cynnydd cwyn,
 Fawr ferw gan y fôr-forwyn.
 Yna'r wylaf ar olwg,
 36 Chwerthin ar y ddrycin ddrwg;
 Drycin yw'r hin sy'n parhau,
 Chwarddwn, enynnwn ninnau.
 Oer yw'r hin, eiry yw'r hanes,
 40 Ac efô fydd dydd o des.
 Arwydd blynyddoedd araul
 Yw euro rhos ar yr haul.
- Fe ddaw'r haf, a ddyry hur,
 44 Melyn hir ym mlaen herwyr.
 Herwyr a wna, hir yw'r nos,
 Herwa, mor hir yw 'maros.
 Mae hiraeth am yr herwyr,
 48 Mae'r Tarw'n torri'r garw i'r gwŷr.
 Mae'r Badd a wna Wadd yn ôl?
 Mae'r Arth finllem ar wrthol?
 Mae'n ddiriaid Lloegr, mae'n ddwyran,
 52 Mae Rhys ap Rhys ym mhob rhan.
 Yr oedd nod arwydd i ni
 Y bydd wir i'r Badd oeri.
 Beth a dâl boethi Dulyn
 56 Ond y dydd a noded ynn?
 Cwysel y fatel a fydd,
 A brad rhwng ei barwydydd.
 Treth hir a rennir ar rai,
 60 Ni ofynnir ynn fwnai.
 Cyrn cwyredd, rhyfedd yrhawg,
 Ar bennau pedwar bannog;
 Bedwen yn nhrum Pumlumon,
 64 A maen yn Aberffro'n Môn.
 Ymaros mewn mieri,
 O Dduw, ai mig ydd ym ni?
 Mae i rai waith mwy ar ôl
 68 O ryw arglwyddi reioli.
- Mae yn hyd, mi a'i hedwyn,
 O had aur a heuwyd ynn;
 A had a bair ehedeg
 72 Egin y tir yn gnwd teg.

Ceiliog yn farchog o Fôn,
 Brytaniaid o'r brut union;
 Cleddau'r deau, aur diwall,
 76 A'r llew o Frytaen yw'r llall.
 A'r llew arall o'i orwedd
 A gyfyd i'r byd o'r bedd.
 Llyna ddarpar llawenydd,
 80 Llew du a fu ac a fydd.

Ffynonellau

A—Llst 136, 96 B—Bangor (Mos) 10, 6^r C—Llst 165, 107 D—Bangor 1267, 52^v E—Llst 133, rhif 1202

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 145–54.

Amrywiadau

1–4 [ACE]. 9 *B* or llaw, *D* ir llaw. 11–12 *wedi cyfuno'n un yn E*. 17 *A* droed. 19–20 [*D*]. 25 *BD* fudd y farchnad. 26 *C* o fewn gwlad. 28 *C Y* Gair. 29 *A* enw hyfryd, *C* cawn hyfrud. 30 *CE* fo fydd byd hefyd difai. 31 *E* Gwelir ar ol glaw yr ha. 32 *B* gwanwun ddudd gwna hindda. 35 *E* Yma'r. 38 *D* o mynnwn. 66 *BD* ai inig. 67–8 [ACE]. 69 *E* yn hyd; *B* yn hydwyf mine ai hedwun. 70 *D* a had Jeirll.

Cywydd y gigfran
Maredudd ap Rhys

Y bardd:

Y gigfran oergan, arwgau,
 Iarlles y brain â'r llais brau,
 Gweiddi a wnaud, gwiddon wâr,
 4 Grin oediog, rhugl groen adar;
 Ai gwrach afiach yn ochain?
 Ai gormes wyd, garm ei sain?
 Ai Gwyddeles gau, ddulwyd
 8 Yn griddfan am ei mam wyd?
 Pibyddes a chyfnesa'
 Pobl is dwfn, pe bai lais da.
 Cod foel serth, cydafaefl sôn,
 12 Coeg dewines, cig dynion;
 Cofl arw ei llef, cyfliw'r llus,
 Craig lafar, cryg wylofus;
 Cwrwgl gwiddon aflonydd,
 16 Cryglais oer o'r cwrwgl sydd;
 Crom ferch yn crio am fwyd,
 Cwrrog adar, cryg ydwyd.
 Mwyardwf liw, mawr dy floedd,
 20 Môr-löyn y meirw luoedd,
 Mynag ym cyn mingamu,
 Dy hanes, Iddewes ddu,
 P'le lawnaf pobl eleni?
 24 A ph'le buost? Dangos ti.

Ateb y gigfran:

Rhodio bûm wrth fy rheidiau
 Ysgotland ac England gau;
 Canlyn, egwydfin gwaedfwyd,
 28 Llu mawr, ni bu well 'y mwyd.
 I ddiawl ydd êl y ddeulu
 Na bai'n lladd neb o un llu;
 Rhyfedd oedd nad ymleddynt
 32 Fel y gwÿr o ryfel gynt.

Yno y naill a wnawn oedd
 Ai lledofn, ai twyll ydoedd;
 Ai tynghedfen, rhyfeddod,
 36 Gan bawb eu geni a'u bod?
 Blin yw ceisio byw 'leni,
 Blwyddyn o newyn i ni.
 Mae'n dyfod mewn cyfnod caeth
 40 Ryfeloedd a marfolaeth,
 A maner llu mwy na'r llall,
 Mawr a them ar waith arall.
 Magu twyll, megis mwg tân,
 44 Lloegr hen, a'i llygru'i hunan;
 Brad a thwyll, briw adwyth oedd,
 A bair lifo'r aberoedd.
 Y mae ar hyd y ddaear
 48 Led y byd o lid a bâr.
 Blwyddyn a syrth i'r bleiddiau
 Ac i'r brain o gig ir brau.

Y bardd:

Taw, gigfran syfrdan, â sôn
 52 Â'th gelwydd, och i'th galon.
 Lledu y bu llid a bâr,
 Wylles greg â llais grugiar;
 God dew bodr, gad d'wybodau
 56 Yn gyfrinach, gigwrach gau.
 Cest ddera, cist eiddiorwg,
 Cilia draw rhag ofn cael drwg.
 Tarw ag aur teg ar ei gym
 60 Sy'n cadw Ynys y Cedym,
 O daw y gwŷr yn dair gwart,
 A chadarn yw braich Edwart.
 Mae iddo gorff, a modd gŵr,
 64 Ac wyneb daroganwr,
 A gwerin ym mhob goror,
 A gras Duw, ac aur ystôr.
 Dwrn y brenin cadarnaf
 68 A geidw'r hedd gwedy'r haf;
 A gwŷr grym, ac aur a gras,
 Gyda'r dwrn a geidw'r deyrnas.

Ffynonellau

A—BL Add 31057, 51^v B—LIGC 11087B, 43^v C—Llst 135, 122 D—Llst 120, 54 E—Llst 41, 146 F—Card 2.68 [= RWM 19], 206 G—Llst 173, 37 H—Llst 53, 530 I—Bodley Welsh e 6, 253 J—LIGC 3077B, 238 K—Llst 167, 283 L—Pen 239, 208 M—Pen 195, 35 N—BL Add 12230 [= RWM 52], 133 O—Bangor 1267, 3^v P—Bangor 401, 2 Q—Pen 198, 252 R—LIGC 6499B, 281 S—LIGC 6209E, 379

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 145–54.

Amrywiadau

1 *DK* organ arwgan. 2 *DK* brain. 3 *ABCGIS* ai gweiddi; *JR* ai gweiddi iddwyt. 5 *R* a chwyn fal gwrach yn ochain. 6 *ABCEGIJRS* garw i sain, *H* garw am sain. 8 *EFM-P* Yn gweiddi (*E* gwiddi, *N* gweddi) arnaf fi am fwyd, *H* gweiddi a gaf fi fwyd, *LQ* gweiddi arna fi am fwyd. 9–10 [*EFHLMOPQ*]. 11 *E* kaf fran dy safan heb son, *FHLNPQ* cryg bryd heb (*H* bo) symyd i son, *M* cryg bryd heb symyd a son. 12 *CR* kog, *S* Kag. 14 *FMNP* Carreg lefn, *O* carreg lafan; *CRS* gwraig lefair greg. 17 [*G*]. 19 *EFLMPQ* mae ar dy floedd. 21 *FM* im fran am ganu, *LN* yn fran am ganv, *Q* y fran am ganu. 22 *FHMNOQ* wyddedes; *GJ* y ddywines. 23–4 [*P*]. 27 *EFLMPQ* dilyn agydfin, *HNO* dilin ag edfin; *AS* egidfyn, *B* y gidfin, *C* egydfin, *D* y gydfyn, *GKR* y gydfin. 30 *FLMN* Na bai'n lladd bob un i llu. 31 *E* ond rhifedd nad, *FIO* Ond rhyfedd oedd, *HLMNPQR* ond rhyfedd nad. 33 *D* Ym ynaill am a wn oedd, *FHL-Q* yn y nordd ai (*O* i) anian oedd. 34 *D* lledwg, *K* ledwg; *C* ai towyll addaw ai twyll ydd oedd, *EFHL-Q* ai llid o flaen (*E* ymlaen) twyll ydoedd; *S* ai towyll addaw ai. 34 [*G*]. 35 *BCFIRS* tyngnefedd, *D* tangneddyf, *K* tynefedd; *H* ai tynghedfen yn benod. 36 *FHL-Q* gan y Beirdd ar gan y bod. 37–8 [*K*]. 37 *FHL-Q* o bydd lonydd (*O* llonydd) eleni, *E* byddan lonydd y leni. 39 *E* ym laen dyfod cyfnod caeth, *FHL-Q* *O* flaen dyfod cydfod (*H* kyfnod) caeth. 41 *EFHMNP* a mynnu llu, *LOQ* *A* mynnu'r llu, a mynnü or llü; *EFHM* na llall. 42 *J* threyn, *MQ* a threm, *K* a thrwm, *N* a theryn; *H* mawr a thario math arall. 43 *C* Mygu twyll; *EFHL-Q* a magu twyll fel mwg tan. 46 *EFHL-Q* liwio r, *C* friwio'r. 47–8 *EFHLM-Q* lled y bydd llid a (*N* a llid a) bar / a ddaw ar hyd y ddaear. 51–70 [*H*]. 53 *EFILMOPQ* bydd, *N* budd. 55 *J* ged tew budûr, *R* gwd tew budr; *FL-Q* gad di fod dy wybodau. 57 *D* Cist y ddera costeidd ddrwg. 57–8 [*K*]. 58 *E* rog kael y drog, *FL-Q* rhag cael y drwg. 59 *LOQ* aur to. 60 *FMP* ai ceidw, *NO* a geidw. 61 *E* eto trai gwir, *FLMOQ* ato r a gwyr, *N* ato ir gwir, *P* at i ra gwyr; *EFL-Q* y tair gwart. 63 *E* fo fidd y gorff arfog tor, *FL-Q* *E* fydd i gorff ar fodd gwr. 63–6 [*CRS*]. 64 *FLMNPQ* rhag wyneb. 68 *EFLM-P* rhain (*E* rhai) gida r haf, *Q* rhain gwedi'r haf. 69 *D* gwr; *E* a gwyr grym gore y gras, *FN* a gwyr ai (*N* a) grym gore i grâs, *LMOPQ* *A* (*O* ai) gwyr ai grym gorav gras.

Cywydd brud
Syr Rhys o Garno

Taer fu'r iaith yn tarfu'r I,
 Taerach pan fwriwyd Harri.
 4 Rhoi a wnaen' hwy, Rhonwen hil,
 Saeson, yn rheol Sisil.
 Deryw ei gras, drwg a rodd,
 Draig wen a'i daroganodd;
 8 Darogan waith, drwg yn wir
 A ddug, ac ni ddiwygir.
 Rhydu symud ar fyd fu,
 A hud er ei dihadu;
 Yr un sud fu'r ynys hon
 12 Â'r dall yn twyso'r deillion.

I Dduw yngod oedd angen
 Am Harri, wŷr Harri hen;
 16 Rhyw fodd oedd, rhyfedd ydd aeth
 Farnu hwn o'i frenhiniaeth;
 Rhyfeddach, fyrrach fwriad,
 Ei roi'n ei le o'r un wlad.
 20 Harri sydd, hir oes iddo,
 A'i fab yn ei ôl a fo;
 Ni chair un, ni choronant
 Yr ail Sais ar *ôl* y sant.
 24 O daeth ar rai, dieithr ynn,
 Wedy rhus wadu rhosyn,
 Ni wedir, ni newidiant
 Yr S hir o ros y sant.
 28 Yn tynnu wynt-wy ennyd
 A gair yn gywair i gyd.

32 Cordio, fel y cywirdant,
 I'r hen ddull, er hynny 'dd ânt.
 O daw hedd a'u dyhudda,
 O'r hedd yn ddihedd ydd â.
 Mae ennyd, er ymannos,
 Hyd pan ddêl Rhyfel y Rhos;

- 36 I'r rhyfel hwn y rhifir
 Trwy'r iaith y teiriaith a'r tir.
 Ni ddarfu'r hyn a dderfydd,
 Nid ânt, o deuant i'r dydd.
 Ac yn ôl, yn y gwn i,
 40 Ni bydd hir y bydd Harri.
 O'i wyllo, efô welir
 Beli yn ôl Harri hir.
 Llew o rwysg, hir oresgyn
 44 Lluoedd dros foroedd a fyn.
 Os deau'r â, ardwy rym,
 Blaenor y bobl einym,
 Brytwn o dir Brutus,
 48 Od eir hwnt, a dyr y rhus.
 Yn Owain o Eneas
 Wyd, darpar Siasbar y sias.

 52 Doed ystad, ni wnaud gost wan,
 Dy hynaif di dy hunan.
 Un hwyl fyddwch, un helynt
 Â Siarls o'r gŵys eurlwys gynt.
 Er Sawden nid arswydai;
 56 Lluedda'n ôl lladd ei nai,
 Rolant, arnynt yr eilwaith,
 Deliwch gof, dial eich gwaith.
 Chwi, eurner, a gewch arnun'
 60 Deuddydd o'i newydd yn un.
 O'th ôl y bydd a'th ddilyn
 Yn ôl rhoi rheol ar hyn;
 Y groes a ddygwch i gred,
 64 Siasbar, ond aros ysbed.

Ffynonellau

A—BL Add 14887, 56^v B—Bodley Welsh e 6, 227 C—BL Add 14892, 98^r
 D—LIGC 6209E, 362 E—BL Add 14994, 51^v

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 145–54.

Amrywiadau

5–10 [CE]. 11 CE yw'r ynys. 12 CE twyllo. 13–24 [CE]. 23 A–D doeth. 27–
 8 [C]. 27–30 [DE]. 27 AB yntwy. 43 AB rwsg; E orwst. 45–8 [CE]. 51–4
 [CE]. 56 B lladd a nai. 61 AB athylyn.

Cywydd brud
Syr Rhys o Garno

- Duw Naf, mae ar fy nhafawd,
 Oes, beth o bregeth y brawd.
 Duw sy ddig, a'i swyddogion,
 4 A'r rhes saint wrth yr oes hon.
 Drwg fargen drwy gyfyrgoll,
 Drwg o waith y dreigiau oll.
 Mae rhai, ac nid llai, yn lladd,
 8 Rhai'n edliw, rhai yn adladd,
 Rhai'n torri tai yn y tir,
 Rhai'n cywain rhan y cywir.
 Gyrru'n ffest mae gwŷr yn ffôl,
 12 Onid gyrwyr nid gwrol?
 Ni chawn yngod, chwaen angall,
 Un câr llin cywir i'r llall;
 Anodd yw cael dyn union
 16 Ar y sydd yn yr oes hon.
 Nid oes dyn yn dwyn ystad,
 Nis gall, megis y gwylliad.
 Nid adwaenir mewn dinas
 20 O'r gwŷr pwy'r meist'r neu'r gwas.
 Mae'r dull sy ar y dillad
 Mal nad edwyn dyn ei dad.
- A fu o fyd efô aeth,
 24 Weithian mae'n myned waethwaeth.
 Mae'r hael? mae a wŷr helynt
 Y cwncwerwyr a'r gwŷr gynt?
 Y naw pennaeth pan aethan'
 28 O'r byd i gyd fel y gwan,
 A heddiw, fal yr haeddodd
 Y bu ran, mae i bawb rodd.
 Odidog yw, nid ydynt
 32 Un gwrs â'r gwŷr o'r oes gynt.
 Anras yw yn yr oes hon
 Y rhoed oes i'r rheidusion.

- 36 Egwyddor ynn yw'r geudduw,
Ni fyn un dyn enwi Duw,
Eithyr ein hiaith aeth ar ôl
Y dynion anudonol.
A wnêl waith, diobaith dâl,
40 I'r geudduw, Duw a'i dial.
Gochel yn ddirgel oedd dda
Y dymestl a'r byd yma.
Wyth mlynedd heb ddyweddi
44 Di-rôl sydd yn ôl i ni.
Ni bydd y trydydd tridyn
Ar y sy yn aros hyn.
- 48 O fewn hyn ni fynnwn heddi,
Ynt-wy flin ond dwy flynedd.
Oddi yna, yn ddiannod
Y treiir hyn, y try'r rhod.
52 O bu draws neb a dreisiai,
Ni bu drais oni bai drai.
Dialedd sydd yn dilyn,
O daw, gwyn ei fyd y dyn
A fai, cyn myned i'w fedd,
56 Un â Duw yn y diwedd.

Ffynonellau

A—Ll1st 117, 30 B—LIGC 17114B [= Gwysanau 25], 272 C—BL Add 14984, 224^r D—Card 5.167 [= Thelwall], 23^v E—LIGC 408A, 50^v F—Pen 196, 168

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 145–54.

Amrywiadau

4 *AEF* ar saint wrth yr ynys hon. 9 *A* ar y tir, *BE* ein tir, *F* an tir. 11 *EF* mae'r gyrwyr ffôl. 12 *EF* ac nid gyrwyr anguriol. 18 *EF* ond megis gwylliad. 20 *EF* pwy'r gwas. 27 *C* Pe na doethiaid pwy nid aethan. 32 *B* un cwya. 33 *EF* oedd. 36 *EF* ofni Duw. 37 *BD* iaeth; *A* Arthuriaeth aeth. 43 *BCD* dda weddi. 46 *CEF* yn yr oes hynn. 48 *F* Wyntwy'n flin. 52 *BCD* hud na bai, *A* yna bai.

*Cywydd a fu rhwng Syr Rhys o Garno a Dafydd Llwyd ap Llywelyn
ap Gruffudd o Fathafarn ynghylch cymhortha defaid
Syr Rhys o Garno*

- 4 Gair da a gâi'r gwyrda gynt,
Cyfeiliog cu a folynt;
Mair a wŷyr fry, nid mor frau
Eu plant a'u hepil hwyntau.
Yn eu mysg y gwn 'y mod,
Ar rodd ym yr oedd amod;
Am hyd yr ŷs i'm hoedi,
8 Och i'r rhain oni cheir hi.
- 12 Owain Fychan yn feichiau
Ar y rhodd hon i'w rhyddhau.
Dafydd Llwyd ein proffwydwr,
Prydydd ar gywydd yw'r gŵr;
Mi a gawn gerdd fel Merddin,
A mawl fel y mêl o'i fin;
Er hynny oll, fy rhan i
16 O'i ddefaid aeth gan Ddyfi.
Ieuan Llwyd yn yr un llan,
Uchod, ab Owain Fychan,
Esgus a gaf am ddafad
20 I gadw ei lw gyda'i wlad.
Ac er gweled Maredudd
Ap Rhys, naf yn dwyn pwrs Nudd,
Ni ddôi fyth o'i dda efô
24 O'u cynefin i'w cneifio.
Marsial oedd Morys, a'i lys,
Ap Hywel, fwa Powys;
O'i ddefaid nid addefodd
28 Ddafad yn rhad nac yn rhodd.
Ieuan Llwyd yn yr un llais,
Unben cymen o'r Cemais,
Ni fyn ym ddafad na'i fod,
32 Ni ddyfyn ef gan ddefod.
Ail Lywelyn, Godwyn ged,
Dyn nefol, ab Ednyfed,

36 A Hywel ddoeth, hael o ddyn,
Amhadog, ef a'm hedwyn,
Rhodded ar ddefed y ddau
Llen gêl yn y llwyn golau.
40 Doniog, fel pair dadeni,
Fu Fachynllaith i'n iaith ni.

Dynion yw'r rhain da'n ein rhaid,
Difai, ond i roi defaid.
44 O ddefaid, lle'r oedd ddwyfil,
Ni ddaw mwy er addaw mil.
Addaw a'm gwnaeth yn ddiddim,
O'r pum plwyf ydd wyf heb ddim.

48 'E ddaw i mi addaw Môn,
Careennydd gwŷr Caereinion;
Dau fan ynn, nid yn anwych,
Am bob oen ym bawb ei ŷch—
52 Dau eidion gloywon o'm gwlad,
A dwyfuwch am bob dafad.

Ystor plaid, nos da i'r plant,
Un nos dirion o 'styriant.
56 O dygan', er eu digiaw,
Degwm treth dau gwmwd draw,
Mi farnaf gerbron Dafydd
Bardwn i'r rhain, burdan rhydd.

Ffynonellau

A—Llst 118, 99 B—CM 243, 121 C—LIGC 719B, 80^v D—Pen 99, 108
E—Llst 155, 61 F—Esgair 1, 14 G—Bodley Welsh f 1, 67 H—Llst 133,
632 I—BL Add 14989, 71^v J—LIGC 5474A [= Aberdâr 1], 361 K—CM
12, 28

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 145–54.

Amrywiadau

3 *FGHJ* Mair fry a wyr. 4 *CDEK* nai plant nai. 7 *AB* er hyd i rys yw hoedi. 8
B na cheir y hi. 10 *AB* a roddai hymn. 13 *FGJK* Mi gawn gerdd gan ail
Merddin; *I* ail merddin. 19 *B* esgus gwnaf rhag rhoi dafad, *I* Esgus naf rhag
rhoi dafad. 23–4 [*AB*]. 26 *FGHJ* fwyaf. 30 *D–HJ* y Cemais. 31 *AB* am
ddafad i fod. 32 *AB* nai ddyfyn ef am ddevod. 34 *AB* dv nefol. 37 *B* yr oedd
ar, *E–J* I ddoedd ar. 39 *C* vn pair, *K* i'n pair, *D* yn pair; *AB* donier a bair

daioni. 40 *AB* o fachynllaith. 47 *AB* o fonedd ion. 49 *F* Dôn yno, *ABJ* deuen in, *EGHI* deuan yn. 51 *CDK* glewion; *AB* mewn gwlad. 54 *F* Hynaws gweryl os gyrrant; *AB* nos olav ni noswylant. 55–6 [*AB*]. 57 *GHI* mi baraf, *ABFI* mi a rof. 58 *ABF* o bvrddan.

Nodiadau

1

- 5 **a chyfeiriodd fi** ‘Ac anelodd amdanaf’.
- 13 **yr Wyddeles** Mewn ystyr ddiffrïol, ‘yr hen genawes’; gw. GPC 1754 d.g. *Gwyddel*¹.
- 17 **Syr Dafydd** Llsgrau. *sir*. Pwy, neu offeiriad ple?
- 22 **Eigr** Mam y Brenin Arthur. Gw. 22.50n a 23.17n, yn ogystal â BD 136–40; WCD 228–9; TYP² lxxxix, 366n3. Cf. hefyd GSRh 3.8n a GGLl 4.41n.
- dyddia** Gw. yr Amrywiadau: a ddylid darllen *dyddie aga*? Ni chafwyd unrhyw oleuni ar yr ystyr, ond byddai’r gynghanedd yn gywir.
- 23 **Gloddaith** Plasty yn y Creuddyn; daeth yn eiddo teulu Mostyn yn y genhedlaeth nesaf, gw. ll. 27n isod.
- 24 **o fedd** Chwaraeir ar ystyron y gair *medd*—y ddiodyd a wneir o fêl (GPC 2394 d.g. *medd*¹), ac ‘awdurdod, nerth’ neu ‘eiddo’ (*ib.* d.g. *medd*²); cf. ll. 29 isod.
- 27 **Sioned** Gwraig Gruffudd ap Rhys, Gloddaith, oedd Sioned, ferch Dafydd (ll. 47) ab Ifan ap Hywel o Lwydiarth (ll. 46), Môn.
- 37 **llyisiau Ieuan** ‘*St. John’s wort, Hypericum*’, llysieuyn meddyginiaethol; gw. GPC 2280.
- 41 **Llywelyn** Pwy?
- 46 **Llwydiarth** Gw. ll. 27n uchod.
- 47 **ferch Ddafydd** Gw. ll. 27n uchod.

2

Yr oedd y Grog o Gaer yn enwog yng ngogledd Cymru am ei gallu i iacháu. Canodd Guto’r Glyn gywydd ‘Gweddi ar y Grog o Gaer’ i ofyn iachâd i Ddafydd ab Iefan ap Llywelyn,¹ a Llawdden awdl iddi.² Ni chrybwyll G. Ormerod wyrthiau’r grog, er iddo nodi mai *Rood Eye* yw enw’r maes lle

¹ GGL² 283–4 (CX).

² Llawdden, &c.: Gw 78–82. Gw. hefyd GIBH cerddi 10–11 a’r nodiadau rhagarweiniol.

y cynhelir y rasys ceffylau heddiw,³ a bod y cae ar un adeg dan y dŵr. Ychwanega:

The name of the Rood-eye is derived from an ancient Rood or cross in the centre, the base of which is or was lately remaining ... and Eye, often used in the composition of the names of places situated on the banks of rivers, and in this country usually applied to small islands formed by the course of rivers ...⁴

Wrth deithio gyda'r trê'n o Gaer i gyfeiriad Wrecsam, ar y llaw chwith, ychydig cyn croesi Afon Dyfrdwy (ac yng ngolwg y cae rasys) y mae rhybudd *Roodee Junction*, llygriad o *Rood Eye*. Ai coffa sydd yma am y lle y daeth y grog i dir?⁵

- 4 Twyll gynghanedd *d*; y mae darlenniad C, *Yn llusgo*, yn gywirach, ond y tebyg yw mai'r copiwr a'i cywirodd.
- 10 **Caerlleon** Gw. y nodyn cefndir uchod.
- 21 **pumoes** Pum oes byd, cyn Crist. Y syniad oedd fod un gŵr neu deulu neu genedl ym mhob oes yn cael ei alw i gredu ac ufuddhau, i gael ei achub ac i ddangos ffordd y bywyd, ffordd yr iachawdwriaeth i eraill: 1. Adda i *Noa* i'r dilyw; 2. *Noa* i *Abraham*; 3. *Abraham* i *Ddafydd*; 4. *Dafydd* i Gaethiwed Babilon—*Tŷ Ddafydd*; 5. Y Gaethiwed—llwyth *Juda*—i Grist. Y chweched oedd o Grist—*yr apostolion ac Eglwys Crist*—i'r Datguddiad. Ceir copi yn LIGC 3047C, 341. Gw. hefyd GIBH 8.8n.
- 25 **ufydd** Ffurf a droes yn *ufudd* yn ddiweddarach drwy gario crynder yr *u* yn y sillaf gyntaf drosodd i'r ail, gw. PKM 112–13 a cf. *ufyddach*, ll. 39 isod.
- 28 **Eglwys y Grog** Nid yw G. Ormerod yn enwi Eglwys y Grog yn ei restr o eglwysi Caer (Ormerod i, 371), a sylwa na wyddai'r Esgob Tanner, *Notitia Monastica*, un dim am eglwys o'r enw hwn. Fodd bynnag, noda Ormerod (i, 313) y gellir casglu oddi wrth y Lincoln Taxation, 1291, fod ar un adeg eglwys golegol o'r enw 'The Holy Cross' yn y tir o amgylch eglwys Sant Ioan Fedyddiwr. Yn ôl arolwg a wnaed yn 1535 yr oedd tair sedd i brebendariaid y Grog Sanctaidd yn eglwys Sant Ioan a'r tebyg yw fod Eglwys y Grog Sanctaidd erbyn hynny wedi mynd yn rhan o eglwys Sant Ioan Fedyddiwr. Yn Eglwys y Grog yr oedd y ddelw hon.
- 29 **delw fyw** Gw. GLIBH 4.17n.

³ Ormerod i, 371.

⁴ *Ib.* troednodyn (d).

⁵ Gw. ll. 30 isod.

30 Yn ôl Llawdden, Llawdden, &c.: Gw 78, *Rhwng dau lanw i'th weled ...*

Pum gweli o heli hoelion a'i golchai
 O gylchedd Iwerddon;
 Ni olchai'r môr dy goron,
 Na'th draed na'th friw-waed na'th fron.

Croes Duw ddelw Crist o Ddulyw, &c.

34 **Agla** Enw am Dduw, Cymreigiad o'r gair Groeg *aglaos*, yn golygu 'disglair', gw. GPC 47.

36 **swyn** 'Arwydd'; daw'r gair o'r Llad. *signum*; gw. GPC 3373.

50 **Lasar** Lazarus, cyfaill agos i'r Iesu a brawd Mair a Martha. Yn ôl Io. 11.1–44 cyfododd Iesu ef o farw'n fyw. Am ragor o wybodaeth amdano, gw. ODCC³, 961. Cf. hefyd gwpled Dafydd Nanmor, *Lazar a godes Iesu / Yn fyw o'r bedd, yn farw bu* (DN 85 (XXX.41–2)).

3

Bardd-offeiriad a chyfoeswr i Faredudd ap Rhys oedd Syr Rhys, gw. tt. 6–8. Pan symudodd Syr Rhys o Gorwen i Lanbryn-Mair a Charno canodd Maredudd ap Rhys y cywydd hwn yn mynegi ei hiraeth amdano.

5 **hydygwyn** Nid yw'r gair yn GPC. Ai cyfansoddair yw yn cynnwys yr elfennau *hyd* 'am amser hir', cf. *hydoedd*; *dy-* y blaenddodiad sy'n cryfhau (gw. GPC 1112–13 d.g. *dy*⁻¹) a *cwyn*: h.y. 'cwyn mawr sy'n parhau am amser hir'; ynteu dau air *hy(f) dygwyn* 'ffyrnig [yw] y cwyn mawr'?

12 **Syr Rhys** Gw. y nodyn cefndir uchod.

15 **neddair** Yn ôl GPC 2561 gall olygu 'llaw, ceuedd llaw; (geir.) dwylo; ysgrifen'. Yr ystyr olaf sy'n gweddu yma.

18 **Llanbryn-Mair** Plwyf yng nghwmwd Cyfeiliog, gw. WATU 104–5 ac isod ll. 24n.

19 **sonwyr** Ai y rhai sy'n sôn amdano?

24 **Cyfeiliog** Cwmwd ym Mhowys a gynhwysai'r plwyfi Cemais, Darowen, Llanbryn-Mair, Llanwrin, Machynlleth a Phenegoes, gw. WATU 54; yr oedd Carno yng nghwmwd Arwystli, *ib.* 7.

30 **Ofydd** Bardd Lladin (43 C.C.–?17 O.C.); alltudiodd Augustus Cesar ef i Tomis ger aber Afon Donaw er na chollodd na'i hawliau na'i eiddo. Gw. OCD³ 1084–7.

33 **saer awdl** Gw. td. 8.

- 36 Prawf iddo ganu cywyddau serch, er na nodir yr un yn MFGLI 3351–2.
- 41 **Nanheudwy** Cynhwysai'r cwmwd blwyfi Llangollen, Llangadwaladr, Llansan-Ffraid Glynceiriog a'r Waun, gw. WATU 162.
- 50 **Bryn-Mair** Llanbryn-Mair, gw. uchod ll. 18n.
- 56 Cynghanedd sain gadwynog deirodl, gydag *n* berfeddgoll dan y brif acen.
- 62 **Croesoswallt** Cyrchfan naturiol i drigolion Nanheudwy, a chyrchfan i'r beirdd hefyd, gw. GGI² 183–5 (LXIX), TA 261–4 (LXV), GLGC 453–4 (cerdd 208).
- 66 **Eiddig** Y gŵr eiddigeddus, testun gwatwar cyffredin mewn cywyddau serch, gw. td. 22 a GGLI 4.7n.

4

Yr oedd Syr Siôn Mechain yn berson Llandrunio, ar lan Afon Hafren, i'r dwyrain o'r Trallwm; c. 1470 yw'r dyddiad a roddir ar ei gyfer gan D.R. Thomas.¹ Yr oedd yn ŵr cyfoethog; yr oedd Llandrunio'n fywoliaeth fras ar lawr dyffryn ffrwythlon, ac yr oedd plwyf cyfagos Llandysilio ganddo ac, o bosibl, y Felwern hefyd. Rhwng 1291 a 1535 gallasai Llandrunio, Llandysilio a'r Felwern fod yn un fywoliaeth.² Sonia Guto'r Glyn, a ganodd ddau gywydd iddo,³ am Dysilio a Thrunio a hefyd am *dair allawr*. Yn ôl Guto, un o hil Iorwerth Foel ydoedd,⁴ ac felly o'r un gwehelyth â Maredudd ap Rhys.⁵ Sefydlodd disgynyddion Maredudd, pumed mab Ednyfed Gam ab Iorwerth Foel, ym Mechain a'r cyffiniau. Cynhwysai cwmwd Mechain blwyfi Llanfechain, Llanfihangel-yng-Ngwynfa, Llanfyllin, Llansan-Ffraid a rhan o blwyf Meifod.⁶ Gan nad yng nghwmwd Mechain yr oedd Llandrunio, cesglir mai cyfeirio at ei deulu a'i gynefin y mae'r 'Mechain' yn ei enw. Methwyd gweld enw Syr Siôn mewn cart achau, ond gellir awgrymu a ganlyn fel llinach bosibl iddo:⁷

¹ D.R. Thomas: HDStA iii, 158.

² Gw. *ib.* 153.


³ GGI² 273–6 (CVI a CVII).

⁴ *Ib.* 274 (CVI.30).

⁵ Gw. y cart achau, td. 3.

⁶ WATU 154.

⁷ Gw. HPF iv, 87, 145, 201.



3–5 **Syr Siôn ... Mechain** Gw. y nodyn cefndir uchod.

4 **Llandrunio** Plwyf yn sir Drefaldwyn. Gw. y nodyn cefndir uchod a WATU 108.

dan gryno graig Craig Freiddin, gw. ll. 9 isod. Y mae Mynyddoedd Breiddin ychydig i'r de-orllewin o Landrunio. Gw. hefyd td. 19.

5 **Mechain** Gw. y nodyn cefndir uchod.

lliw'r muchudd Cf. disgrifiad Guto'r Glyn ohono, confessor *â'r aeliau muchudd*, GGI² 273 (CVI.14).

6 **Nudd** Un o'r Tri Hael; y ddau arall oedd Mordaf a Rhydderch. Am gyfeiriadau at Nudd, gw. GGLI 13.29n a 17.61n.

8 **tŷ pren** Y mae'n amlwg, oddi wrth y cywyddau, mai tŷ *half-timbered*, un o dai du-a-gwyn y Gororau, oedd hwn. Gw. ymhellach 5.48.

9 **craig Freiddin** Gw. ll. 4n uchod.

12 **cwrw 'Mwythig** Yr oedd bri arbennig ar gwrw Amwythig; sonia Iolo Goch am *flaendrwyth cwrw Amwythig* yn Sycharth, GIG 47 (X.73).

13 **Deuddwr** Cynhwysai cwmwd Deuddwr, rhwng afonydd Efyrnwy a Hafren, blwyfi Carreghwfa, Llandrunio, Llandysilio, Llansan-Ffraid Deuddwr a rhan o blwyf Meifod, gw. WATU 57.

16 **Drinio** Ai'r f. *trinio* 'anghytuno, dweud y drefn', a'r bardd yn chwarae ar eiriau?

28 Twyll gynghanedd *dd*.

38 **gorfod y marwfis** Gallu byw trwy'r mis mwyaf ei farwolaethau; mis Chwefror oedd 'y mis du'.

40 **ato'n ddifwtial** Ai o *bwytal* 'tâl neu deyrnged mewn bwydydd', GPC 359? Neu ai amrywiad ar y gair *fitael*, *fitel*, *fitail* (o'r S.C. *vitaile*, *vittel*,

victual(s)) yn golygu 'ymborth, bwyd'? Gw. GPC 1270. Ni fydd yn mynd â dim i'w ganlyn gan fod yno ddiogonedd o bopeth.

- 50 **Asa'** Sant o'r 6g. a sefydlodd ar lan Elwy, ac yr enwyd, yn Saesneg, yr esgobaeth a ffurfiwyd yn ail chwarter y 12g. ar ei enw, *St. Asaph*. Yn yr esgobaeth hon y mae Mechain a Deuddwr.

5

Cywydd i'r un gŵr â'r gerdd flaenorol, sef Syr Siôn Mechain. A oes yn y cywydd hwn adlais o'r brwydro ar y Gororau ddiwedd y pumdegau a dechrau'r chwedegau? Gw. tt. 18–19.

- 2 **solas** Benthyciad o'r S.C. *solas* (neu yn uniongyrchol o'r H.Ffr.), yn yr hen ystyr '*amusement, entertainment*', gw. GPC 3317.
- Adda Fras** Bardd a brudiwr o fri (?1240–?1320), yr edrychai beirdd diweddarach arno fel meistr ar y gelfyddyd, gw. ByCy 4, GGI² 321 (V.60n), GST ii, 490n34, isod 25.34, a hefyd td. 17. Priodolwyd iddo lawer o ddaroganau heb fawr sicrwydd. Dywedir iddo gael ei gladdu yn Abaty Maenan, CLC² 8.
- 3 **Ynfydu gŵr anfadwy**ch Y mae agwedd Maredudd ap Rhys tuag at y brudiau yn amrywio; ambell dro y mae'n bur ysmala ohonynt (ll. 25), dro arall fel pe bai'n rhoi—neu fel pe carai roi—coel arnynt (27.23–4).
- 6 **gŵr marw** Ymadrodd ac arwydd cyffredin mewn brud; gw. td. 18.
- 10 **cyw'r wennol** Fel rheol Owain Tudur a olygir wrth y *wennol*, gw. td. 18 a GDGor 1.86n. Dienyddiwyd Owain ar ôl brwydr Mortimer's Cross, 1461, felly cyfeiriad at ddisgynnydd iddo a geir yma. Y tebyg yw mai cyfeirio at Siasbar ar encil a wneir.
- 11 **tarw tridyblyg** Arwydd arall cyffredin mewn brud, fel rheol am y mab darogan, cf. GDGor 6.57–8n. A oes yma awgrym fod rhywun wedi newid ochr? Ai William Herbert? Yr oedd ef gyda'r Lancastriaid ym mrwydr Ludford, 1459, ond daeth yn un o brif gefnogwyr plaid Iorc yn fuan wedyn (cf. 25.10n).
- 13 **awgrim** Ffurf ar *awgrym*, o'r S.C. *augrim, awgrime*, GPC 242, yn golygu'r dull arabaid o rifo, yna rhifyddiaeth. '*Awgrim stones*' y gelwid y cerrig a ddefnyddid i rifo ... Yn ddiweddarach aeth awgrym i olygu unrhyw arwydd', GDG³ 491n3 a cf. GIBH 2.39n. Yr oedd arwyddion yn rhan mor hanfodol ac amlwg o'r brudiau.
- 28 **Non** Mam Dewi Sant.
- 29–30 **Syr Siôn ... Mechain** Gw. y nodyn cefndir i gerdd 4 uchod.
- 34 **Llandrunio** Gw. 4.4n.

- 35 **Dewi** Yn y gerdd brotest 'Armes Prydain' (Arm P 51) edrychid ar Ddewi fel arweinydd mewn rhyfel; gydag ef a'i faner ar flaen y gad gobeithid gyrru'r Saeson yn llwyr o'r wlad am byth. Y mae mynych gyfeirio at Ddewi ym marddoniaeth cyfnod Rhyfel y Rhosynnuau.
- 39–40 **Ni ddeuaf ... / Ddeufis** Yr oedd Maredudd ap Rhys yn rheithor y Trallwm a Meifod. Y mae'n bosibl nad segurswyddi'n gyfan gwbl oedd y rhain iddo, ac y byddai'n treulio rhyw gymaint o'i amser yn yr ardal.
- 42 **Deuddwr** Gw. 4.13n.
- 48 **llys mewn canol llyn** Cywydd i dŷ newydd Syr Siôn Mechain yw GGI² 275–6 (CVII). Ymddengys mai tŷ a ffos o'i amgylch, *moated settlement*, math a oedd yn gyffredin ar y Gororau, oedd hwn, er y gall mai Afon Hafren oedd rhyw gymaint o'r ffos o'i amgylch. Am ddisgrifiad a llun (dychmygol), gw. Enid Roberts a Douglas Hague, *Tai Uchelwyr y Beirdd 1350–1650* (Cyhoeddiadau Barddas, 1986), 10–11. Credir mai'r tŷ a adwaenid wrth yr enw 'Henblas' oedd hwn.
- 54 **darlleodr** 'Darllenwr', GPC 894 d.g. *darlleawdr*, &c; yn y be. yn unig yr oedd yr *n* yn wreiddiol, a'r f. yn rhedeg *darlleaf*, &c., cf. 7.13. Ceir y ffurfiau *darlleaydd* a *darlleat* gan William Salesbury yn WS.
- 57 **Pedr** Gw. yr hanes yn Luc xxii.54–42 a'r cyfeiriadau yno, fel y bu'n ddigon dewr i gyfaddef ei gamwedd a gofyn am faddeuant, ac yn Llyfr yr Actau'n herio pob gwrthwynebiad er mwyn y ffydd Gristnogol.
- Padrig** Nawddsant Iwerddon; yn ôl traddodiad fe'i cymerwyd yn garcharor i Iwerddon. Ymhen amser llwyddodd i ddianc, ac wedi cyfnod ar y Cyfandir, anfonwyd ef yn 432 gan y Pab i Iwerddon. Yn ystod y deng mlynedd ar hugain y bu'n cenhadu yno y mae'n sicr iddo orfod wynebu treialon lawer. Gw. *St. Patrick: His Writings and Muirchu's 'Life'*, ed. and trans. by A.B.E. Hood (London, 1978), 1–16.
- 59 **Pedrog** Am gyfeiriadau pellach at Bedrog, ac yn benodol at ei wrhydri â'i waywffon, gw. Elissa Henken, *Traditions of the Welsh Saints* (Cambridge, 1987), 200–2. Gw. hefyd ll. 63n isod ar Derfel.
- 63 **Derfel** Derfel Gadarn. Cofir amdano yntau, fel Pedrog, yn bennaf am ei wrhydri a'i ddewrder, gw. y cyfeiriadau yn Elissa Henken, *op.cit.* 206–7. Diddorol nodi bod Pedrog a Derfel yn cael eu henwi gyda'i gilydd yn un o lsgrau. Evan Evans ymysg y gwŷr a ddihangodd o Gad Gamlan: TYP² 161 ... *Pedrawg Sant o nerth ei wayw, Derfel gadarn o gadernid* ... Yng nghyfnod Maredudd ap Rhys yr oedd delw bren ohono ar ei farch yn eglwys Llandderfel. Adeg y Diwygiad Protestannaidd anfonodd y drylliwr delwau, Dr Elis Prys o Blasiolyn, gerflun Derfel i'w losgi yn y Smithfield yn Llundain; y mae gweddillion y march i'w gweld yn Llandderfel. A oes awgrym fod Syr Siôn yn gawr o ddyn ym mhob ystyr?

6

Canu ar ran Siôn Eutun y mae'r bardd, i ofyn bwa gan ei ewythr (gw. llau. 18 a 40), Wiliam Eutun, brawd (neu hanner brawd) ei dad.¹ Yr oedd perthynas bell,² a chysylltiad agos, y mae'n ymddangos, rhwng teulu Eutun a Maredudd ap Rhys.³ Yr oedd Siôn Eutun (Hen), Plas Rhiwabon, yn un o ddilynwyr Siasbar Tudur adeg brwydr Mortimer's Cross, 1461.⁴ Ef oedd Stiward Maelor Gymraeg yn 1477.⁵ Yr oedd ei wŷr, Siôn ab Elis Eutun y cywydd hwn, ym Maes Bosworth yn 1485. Y mae ei feddfaen ef a'i wraig yn eglwys Rhiwabon, gyda'r dyddiad 1526 arno; cyn aildrefnu'r eglwys yr oedd o flaen yr allor, wedi ei liwio'n llachar. Fe'i symudwyd i'r capel gogleddol naill ai ddiwedd y ddeunawfed ganrif, neu yn 1845 pan barodd Syr Watkin Williams Wynn agor bwa ar ochr ogleddol y gangell. '... one of the finest monumental effigies in Wales', yw barn yr Hybarch T.W. Pritchard.⁶ Newidiwyd enw Plas Rhiwabon yn Watstay yna yn Wynnstay.

1–2 **Wiliam ... Eutun** Gw. y nodyn cefndir uchod.

6 **Siôn Eutun** Gw. y nodyn cefndir uchod.

10 **Gei o Warwig** Syr Gei o Warwig, arwr rhamant Saesneg o ddechrau'r 14g. Amserwyd y stori yn oes Æthelstan; yn ôl yr hanes dangosodd Syr Gei ddewrder arbennig wrth ymladd yn erbyn y Sarasiniaid ac yn erbyn angenfilod, OCEL 361.

14 **gosawg** O'r S.C. *goshauke* 'goshawk', GPC 1514, sef yr harddaf o'r hebogiaid a'r mwyaf a ddefnyddid wrth heboga; defnyddid y gair yn ffigurol am filwr dewr neu wŷr bonheddig urddasol.

26 **ufelyn** GPC 3699 'tanllyd'.

27 **dôl eidion** Ar *dôl* yn yr ystyr 'pren ar ffurf bwa sy'n cau fel coler am wddf ych o dan yr iau ac yn gysylltiedig â'r iau', gw. GPC 1073, a chyda'r cyfuniad *dôl eidion*, cf. *dôl ych* 'ox-bow', *l.c.*

7

Cywydd yn gofyn rhwyd bysgota gan Ifan ap Tudur o Lanufudd/Lanefydd, sir Ddinbych yw hwn. Am ach lawn a manylion, gw. Enid Roberts, 'Teulu Plas Iolyn', TCHSDd xiii (1964), 40–1.

¹ HPF ii, 159.

² Gw. y cart achau, tt. 3–4.

³ Gw. eto cerddi 9–12.

⁴ WWR², 84.

⁵ HPF ii, 158.

⁶ T.W. Pritchard, *Ruabon Parish Church Denbighshire* (Much Wenlock, 1998), 5.

Llywarch	
—	
Cynfrig	Ef a'i frawd yn dal tir yn Lleweni, 1334; ei fedd yn eglwys Ysbyty Ifan
—	
Cynfrig Fychan	Ei fedd yn eglwys Llanufudd
—	
Heilin Frych	Carwedfynydd a Berain
—	
Gruffudd Llwyd	Berain
—	
Tudur	Berain
—	
Ifan/Ieuan Fychan	Berain (gorhendaid Catrin o Ferain)

1–4 **Ifan ... o Dudur dad** Gw. y nodyn cefndir uchod.

6 **Nudd** Gw. 4.6n.

Gruffudd Llwyd Gw. y cart achau uchod.

8 **Heilin Frych** Gw. y cart achau uchod.

12 **Llywarch** Gw. y cart achau uchod.

13 **darllëwr** 'Darllenwr', GPC 895 d.g. *darllenwr*, *darllëwr*. Gw. hefyd 5.54n.

16 **Dafydd Esgob** Dafydd ap Bleddyn, Esgob Llanelwy 1314–46. Yn ei amser ef, yn ôl pob tebyg, y casglwyd 'Llyfr Coch Asaph' ynghyd, ByCy 85.

17 **Merddin** Myrddin; yn ôl traddodiad, bardd o'r Hen Ogledd a aeth yn wyllon i Goed Celyddon wedi brwydr Arfderydd, c. 573, ac yno daeth iddo'r gallu i broffwydo. Ymhen amser tyfodd chwedl amdano, a thadogwyd llawer o ganu brud arno. Ceir y cyfeiriad cynharaf ato mewn llenyddiaeth Gymraeg yn y gerdd 'Armes Prydein Fawr' a luniwyd c. 940 (gw. td. 17 a throednodyn 58). Yr oedd yn enwog fel daroganwr ganrifoedd cyn i Sieffre o Fynwy lunio proffwydoliaethau iddo a'u hymgorffori yn ei Frut; gw. BD 103–16, CLC² 527, WCD 492–3.

25 **tal** Ymddengys fod *tal*, fel y S. *tall* (a'r Gymraeg *hir*), yn gallu golygu 'dewr' yn y cyfnod hwn. Gw. GST ii, 20n4 a GPC 3424 d.g. *tal*¹ lle y rhoddir iddo'r ystyron 'glew, hy, hyderus, talog', &c.

26 **Ifor** Ifor Hael, gŵr a ddaeth yn symbol o haelioni wedi cyfnod Dafydd ap Gwilym, gw. TYP² 5–6.

Llanufudd Llanefydd yn sir Ddinbych.

- 31 **hoywalau** Gallai *hoywal* olygu 'llif chwyrn neu wyllt, ffrwd gyflym, ... rhan o'r afon sy'n llyfn a thawel, ... gwely afon', GPC 1902 d.g. *hoywal*¹.
- 33 **Alun** Afon sy'n codi yn Hesb Alun, yn rhedeg i'r de-ddwyrain, heibio i'r Wyddgrug, ac i Ddyfrdwy ger Trefalun, ychydig i'r dwyrain o Rossett.
- 44 **Ifor** Gw. ll. 26n uchod.
- 67 **Grawys** Cig oedd prif fwyd y cyfnod; ond yn ystod y Grawys ni chaniateid bwyta cig, nac ychwaith ar ddydd Gwener, gw. 8.6n. Yr oedd pysgod yn hanfodol at gynhaliath.
- 70 Y mae'r ll. yn gynghanedd lusk ac yn gynghanedd draws. Y mae'n amlwg mai cynghanedd draws y bwriadau'r bardd iddi fod gan na chaniateid cynghanedd lusk yn ail fraich cywydd.

8

Fel yr addawodd ar ddiwedd y cywydd gofyn, 7.70, lluniodd y bardd gywydd diolch.

- 3 **Maelawr** Yng nghwmwd Maelor Gymraeg yr oedd Rhiwabon lle'r oedd y bardd yn ficer, WATU 148.
- 6 y **Gwenerau** Yr oedd yr Eglwys yn gorfodi bwyta pysgod ar ddydd Gwener ac un dydd arall bob wythnos. Nid yn unig yr oedd hyn yn fath o ymryd, yr oedd rhesymau ymarferol yn ogystal. Pe caniateid bwyta cig bob dydd ni fyddai digon ar gael, ac yr oedd cefnogi pysgota yn y môr yn foddion darparu gwŷr i'r llynges. Gw. hefyd ODCC³ 641.
- 8 **dydd caeth** Byddai'r Eglwys yn caethiwo neu'n cyfyngu ar yr hyn y gellid ei wneud ar ambell ddydd; yma dydd na ellid bwyta cig arno.
- 9 **catgoriau** Dyddiau ymryd a gweddi, a gedwid ddydd Mercher, Gwener a Sadwrn ar ôl y Sul cyntaf yn y Grawys, ar ôl y Pentecost, ar ôl Gŵyl y Grog (14 Medi) ac ar ôl Gŵyl y Santes Lucia (13 Rhagfyr), gw. GPC 440 d.g. *catgor*.
- 10 **ynydd** Y dydd Mawrth cyn dechrau'r Grawys; daw'r gair o'r Llad. *initium*, yn golygu 'mynediad i, dechreuad'.
- 12 **mefiliau** *Mefilia* yw'r 'dydd o flaen dydd gŵyl a neilltuir ar gyfer defosiwn ac ymryd, gwylnos', GPC 2403 .
- 20–1 **Ifan / Ap Tudur** Gw. y nodyn cefndir i gerdd 7 uchod.
- 22 **Gruffudd Llwyd** Gw. 7.6n.
- 23–4 **Heilin ... Frych** Gw. 7.8n.

- 24 **ail Frochwel** Brochwel Ysgithrog, brenin Powys ganol y 6g.; dewrder oedd ei nodwedd arbennig ef—ar wahân i rod-di tir i'r Santes Melangell, ByCy 47.
- 30 **Gwalchmai** Yn y chwedlau Cymraeg am Arthur, gŵr addfwyn oedd Gwalchmai, tangnefeddwr.
- 32 **ar wanar** Gall *gwanar* olygu 'rhyfelwr' neu 'ryfel, brwydr', GPC 1573. Y tebyg yw i Ifan ap Tudur ganlyn y fyddin ar un adeg, efallai i Ffrainc neu'r Alban; yr oedd hynny'n arfer cyffredin i uchelwyr y 14g. a'r 15g.
- 43–4 **Madog ... / ... genau Owain Gwynedd** Hyd y gwyddys, dyma'r cyfeiriad cynharaf at gysylltiad Madog ag Owain Gwynedd. Ni ddywedir ei fod yn fab iddo; gallai *cenau* olygu aelod o'i osgordd, neu ddisgynnydd iddo, neu hyd yn oed fod Madog yn deilwng o gael ei ystyried felly. Yr oedd chwedl, o waith offeiriad o Fflandrys o'r enw Willem, a ymunodd â'r trwbadwriaid, am forwr o'r enw Madoc, yn hysbys ac yn cylchredeg erbyn dechrau neu ganol y 13g. Bu Willem ym Mhrydain a daeth Gwallter Map i gysylltiad ag ef cyn 1210. Ni ddarganfuwyd copi o'r chwedl hyd yn hyn. Gw. Gwyn A. Williams, *Madoc: The Making of a Myth* (London, 1979), 49–54.

Digwydd llinellau 43–6 ar eu pennau eu hunain, ac enw Maredudd ap Rhys wrthynt, yn Pen 97, 86, LIGC 1580B, 369, LIGC 4430, 337, Card 1.333, 181, Llst 118, 310^v a BL Add 14891, 5^r; *Madog wyf ...* sydd yn y rhain. Yn BL Add 14891, 5^r ceir nodyn: *Hwn a gafwyd yn y rhan honno o wlad yr India a elwir Mecsico; mewn cyffelybrwydd lle y claddwyd Madog ab Owain Gwynedd*. Mewn inc duach ysgrifennwyd, *Celwydd mawr anfeidrol*.

9

Gw. td. 6am yr awdur, Ifan Fychan ab Ifan ab Adda, a'r cart achau, tt. 3–4, amdano ef a Siôn Eutun (Hen), Plas Rhiwabon, a'u perthynas â'i gilydd. Yr oedd y ddau'n gyfyrdyr.

- 4 **pysg** Ai un. yw'r gair yma? Cf. llau. 6–7 a 24–6 isod.
- 5 **Rhedmor** Gw. 10.48 a 11.10n. Methwyd cael hyd i'r enw.
- 7 **dir ddarnu** Sef 'i'w ddifa'n sicr'.
- 12 **Heilin wledd** Enwir *Heilyn* yn CA 23 (ll. 574), lle y cymherir haelioni ei lys â llys Senyllt, tad Nudd, un o'r Tri Hael (4.6n). Awgrymir y gellir mai Senyllt, ac nid Nudd, a oedd yn y Triawd gwreiddiol. Gw. TYP² 6, 507–8; hefyd Kenneth Hurlstone Jackson, *The Gododdin: The Oldest Scottish Poem* (Edinburgh, 1969), 135–6.
- 14–16 **Siôn ... Eutun** Gw. y nodyn cefndir uchod ac i gerdd 6.

- 27 **Dyw Gwener** Gw. 8.6n.
- 29 **croywair Lladin** Y mae'r ystyr yn dywyll, ond cf. GDG³ 99 (35.47–8) (lle y mae *Lladin* yn cael ei gysylltu â lledr): *Ni ddysgais, gwbl drais, o drin, / Ar wiv ledr air o Ladin*. A yw *crair lledr* yn atgoffa'r bardd am ddalen o lyfr gwasanaeth yn Lladin, a hynny'n awgrymu rhyw fath o nodded?
- 31 **paeled** Rhestrir y ll. hon yn GPC 2667 d.g. *paeled*² 'arfwisg i'r pen, helm'.
- 44 Cynghanedd broest lafarog, neu ddybryd sain fel y gelwir hi pan fo mewn cynghanedd sain; fe'i caniateid bryd hynny.

10

Nid oedd Siôn Eutun (Hen) yn fardd, mwy na'i wŷr, Siôn Eutun (6.18, 40); Maredudd ap Rhys sy'n ateb drosto.

- 6 **Taliesin** Taliesin y chwedl, stori werin fytholegol gynnar. Trwy broses cymhleth o drawsnewidiadau ac ailymgnewdoliad trowyd Gwion Bach, gwas y dduwies Ceridwen, yn ronyn gwenith, ac yn rhith iâr llyncodd y dduwies ef. Pan esgorodd ar blentyn rhoddodd ef mewn 'boly croen' (bag lledr) a'i daflu i'r môr. Darganfuwyd y 'boly croen' gan Elffin ar bawl gored ar lan Bae Ceredigion. Pan welodd beth oedd ynddo, meddai, 'Dyma dâl iesin', talcen tlws; dyna sut y cafodd y plentyn ei enw. Er mai yng Nghroniclel Elis Gruffudd, yn hanner cyntaf y 16g. y ceir y copi ysgrifenedig cynharaf o'r chwedl, y mae profion pendant fod rhyw ffurf arni'n wybyddus yn y 9g. a'r 10g. Gw. CLC² 694–5 ac Ifor Williams, *Chwedl Taliesin* (Caerdydd, 1957). Am Gwion Bach, gw. 25.24n.
- 7 **boly croen** Gw. ll. 6n uchod.
- 9 **dylyn** Cyfuniad o *dy* + *glŷn*, gw. GPC 1138 d.g. *dylyn*², yma'n disgrifio basged y byddai pysgod yn glynu wrthi.
- 11 **swm** Yn yr ystyr 'maint (mawr), swmp', &c., gw. GPC 3365.
- 18–20 **Ifan ... Fychan** Gw. y nodyn cefndir i gerdd 9 uchod.
- 24 **llog** 'Mesur arwynebedd tir, sef ugain "lathen" neu 12,150 o lathenni sgwâr', gw. GPC 2202 d.g. *llog*³; cyfeiria yma at lestr i ddal digon o had i hau hynny o dir.
- 28 **Adda** Gw. y nodyn cefndir i gerdd 9 uchod.
- 45–6 **fy nghares ... / Angharad** Gwraig Ifan Fychan (ac aeres Mostyn), gw. td. 6. Yr oedd yn gyfyrderes i Faredudd ap Rhys, gw. y cart achau, tt. 3–4.

- 48 **Rhedmor** Gw. 9.5n a 11.10n.
- 55 **naw'** Ffurf amrywiol ar *nawdd*, gw. GPC 2556.
Ieuan Gw. td. 6 am yr amrywiad ar enw'r bardd.
- 61 Pe gwneid *adlaisawdl* yn un gair ceid cynghanedd lusg, ond byddai raid ystyried *huawdl* (ll. 62) yn unsill a *hoyw* yn ddeusill.
- 63 **cularen** Sef un a oedd yn denau o gwmpas ei arenau; rhyw ysgerbwdd o hen ŵr musgrell. (Ni restrir y ffurf yn GPC 629.)
- 66 **Ynyr** Gallai Ifan Fychan olrhain ei ach i Ynyr ap Cadfarch, cyff cenedl y teulu.
- 70 **gweren** Y pilyn a oedd yn orchudd dros ben plentyn cyn ei eni, a chredid bod cael ei eni gyda'r pilyn yn dal am y pen yn arwydd na fyddai iddo byth foddi.

11

- 3–4 Gw. William Hay, *Diarhebion Cymru* (Lerpwl, 1955), 31.
- 8 **Siôn** Siôn Eutun Hen, gw. y nodyn cefndir i gerdd 6 uchod.
- 10 **rhwng Tegeingl a Rhos** Cynhwysai Tegeingl gymydau Coleshill, Prestatyn a Rhuddlan, y tri i'r dwyrain o Afon Clwyd; cynhwysai Rhos gymydau Creuddyn, Is Dulas ac Uwch Dulas, i'r gorllewin o Afon Clwyd, WATU 202 a 188. A oes yma awgrym mai yn Afon Clwyd y bwriadai bysgota, ac mai yno y dylid chwilio am Lyn Rhedmor? Ynteu ar hyd yr arfordir? A allai'r enw olygu llyn pen llanw?
- 11–12 **gŵr ... / ... a'r baich gwiail** Y dyn yn y lleuad. Cf. cywydd Guto'r Glyn 'I ofyn cymod Ifan Fychan ab Ifan ab Adda', GGI² 73–5 (XXVII). Yr oedd gwahanol fersiynau ar y stori'n boblogaidd ganol y 15g. Yn ôl Reginald Pecock (a fu'n esgob Llanelwy 1444–50), c. 1455, 'A man which stale sumtyme a birthen [bundle] of thornies was sett to the moone, there forto abide for euere.' Gw. Reginald Pecock, *The Repressor of Over Much blaming of the Clergy*, ed. Churchill Babington (2 vols., London, 1860), 1553.
- 13 **Maelawr** Gw. 8.3n.
- 17 Ll. ddigynghanedd.
- 19 **llong ddu braff** Byddai'n ddiddorol iawn cael gwybod beth oedd hon. Yn ystod cyfnod Rhyfel y Rhosynnau, yn arbennig yn y chwedegau, yr oedd cryn fynd a dod ar hyd arfordir Meirionnydd, e.e. o'r tŷ gwyn yn Abermo, *Tŷ a'i hanner mewn tonnau*, a gododd Gruffudd Fychan o Gorsygedol er mwyn hwyluso'r ffordd i Siasbar Tudur fynd a dod, gw. GTP 27 (16.2).

- 41 **Tiboeth** Yr enw ar lyfr Beuno Sant a oedd yn eglwys Clynnog Fawr yn Arfon, gw. IGE² 3 (ll. 26) ac ymhellach *ib.* 341, lle y dyfynnir o waith Syr Thomas Wiliems o Drefriw, 1594. Cf. hefyd GPC 2308 d.g. *maen y Tiboeth*.
- 46 **Dafydd i Forfydd** Gw. GDG xliii–li. Canodd Dafydd ap Gwilym tua deg ar hugain o gywyddau i Forfudd ond heb ei hennill.
- 58 **abael** Ai 'ap hael', ynteu ffurf ar *abl*?
- 63 **a ddyfod** 'A ddywedodd'.

12

Ceir copi o'r englyn cyntaf, 1–4, yn BL Add 14990, 17^v (llaw Owain Myfyr a Huw Maurice, diwedd y 18g.), heb enw awdur wrtho, yn cael ei ddilyn gan ail englyn:

Gallut na maelyd â mi—ran rodres

Yr wy'n rhy drwm iti

A thro i awen i'th ddrewi

Ni thâl pluen d'aden di.

Maredudd ap Rhys

- 2 **cronwal** Yr oedd y cwrwgl fel 'boly croen' neu fel wal gron.
- 6 **Siôn Eutun** Gw. y nodyn cefndir i gerdd 6.
- 9 **Ifor** Gw. 7.26n.
- 22 **tomen Rhys Gutyn** Pwy oedd? Beth ac ymhle yr oedd ei domen?
- 25 **gwden** Llsg. *ioden*. Diwygir yn betrus ar sail ystyr; ond ar *ioden* 'gronyn', gw. GPC 2024 d.g. *iod*.

13

Cywydd marwnad yw hwn i Edward Mortimer, Iarll y Mers a mab hynaf Rhisiart Dug Iorc. Fe'i ganwyd ar 28 Ebrill 1442 a daeth yn frenin yn 1461. Bu'n alltud am gyfnod byr yn 1470–1 ac yna'n frenin hyd ei farwolaeth annisgwyl ar 9 Ebrill 1483, ar ôl gwaeledd byr a sydyn o ddeg diwrnod.¹ Yr oedd yn frenin poblogaidd, ac yn dderbyniol gan y Cymry am ei fod yn disgyn o dywysogion Gwynedd a Phowys.² Yn ystod Rhyfel y Rhosynnau

¹ Am hanes ei deymasiad, gw. S.B. Chrimes, *Lancastrians, Yorkists and Henry VII* (London, 1964); Charles Ross, *Edward IV* (London, 1974); *id.*, *The Wars of the Roses: A Concise History* (London, 1976).

² Gw. td. 17.

gwelodd y Cymry gyfle i wireddu hen, hen broffwydoliaeth o gael Cymro unwaith eto i wisgo coron Llundain, coron Prydain; nid oedd fawr o wahaniaeth am liw'r rhosyn.³

Y mae'n ddiddorol na sonnir yn y cywydd am fab i ddilyn Edward. A oedd y bardd yn ymwybodol y gallai ymryson am y goron ddigwydd eto?

- 1 **o Gemais** Pa un? Cemais Penfro, efallai.
Ard Neu *Art*. Y mae hwn yn peri problem. Yr unig enw lle posibl yw Ardres, heb fod ymhell o Galais. Teithiodd Edward a'i fyddin drwy'r lle hwnnw ar ei gyrch i Ffrainc, 18 Gorffennaf 1475, gyda'r bwriad o gael ei gydnabod yn frenin Ffrainc a'i goroni yn Rheims. Y syniad, efallai, yw fod y sôn am ei farwolaeth drwy Brydain a Ffrainc.
- 2 **Edward** Gw. y nodyn cefndir uchod.
- 5 **cadlew dewr** Disgrifir Edward IV fel llew dewr mewn brwydr. Barn Charles Ross amdano yw 'the most consistently successful commander' yn ystod y rhyfeloedd; enillodd bedair brwydr ac ni chollodd yr un; gw. Charles Ross, *The Wars of the Roses: A Concise History* (London, 1976), 122.
- 10 **Hu Gadarn** Ymherawdr Caergystennin yr adroddir amdano yn 'Pererindod Siarlymaen', chwedl a droswyd i'r Gymraeg o'r Ffrangeg efallai yn y 13g., ac y mae copïau ohoni ar gael o'r 14g. ymlaen. Gw. YCM² 179–204, CLC² 338 a GGL1 15.2n.
- 12 **muriau Ard** Gw. ll. 1n uchod.
- 14 **rhyfel morwyr** Yn ystod teyrnasiad Harri VI yr oedd herwlongwriaeth y Saeson yn rhemp, ond llwyddodd Edward i roi pen arno, a chadw'r moroedd yn glir. Darparodd longau i warchod masnach, ac yn ystod ei deyrnasiad trefnodd llynges. Gw. Charles Ross, *Edward IV* (London, 1974), 366–7.
- 17 **Derfel** Gw. 5.63n.
o Lywelyn Gw. y nodyn cefndir uchod a tt. 17–18.
- 18 **Marwolaeth ... s'ynn** Yr oedd ei farwolaeth yn annisgwyl, a'i salwch yn anesboniadwy ar y pryd—ac yn ansicr hyd heddiw, Charles Ross, *Edward IV*, 416. Nid oedd wedi cyrraedd 41 oed.
- 28 **Brytwn** 'Brython, Cymro; Prydeiniwr', GPC 341.
- 29–30 **Serchog a thrugarog ...** Yn ôl Charles Ross, *Edward IV*, 62, camgymeriad pwysig oedd 'his excessive clemency to his opponents' wedi'r rhyfelgyrch yn Northumberland a De'r Alban, 1462–4.
- 32 **y Nordd** Sef gogledd Lloegr, cf. GHS 7.6n.

³ Gw. td. 18.

- 33–5 **Lladdfa ar ieirll ... yn Northantwn** Ym mrwydr Northampton, 1460, lle'r oedd Edward ifanc yn arwain y fyddin flaen, yr oedd yr ymladd drosodd mewn hanner awr, y brenin Harri VI yn garcharor, a'i brif gefnogwyr—Dug Buckingham, Iarll Amwythig, Is-iarll Beaumont ac Arglwydd Egremont—wedi eu lladd; dienyddiwyd tri arall. Charles Ross, *The Wars of the Roses*, 47; *id.*, *Edward IV*, 27.
- 38 **ym Marned** Ym mrwydr Barnet, Sul y Pasg 1471, gorchfygodd Edward Warwick (a droesai'n fradwr) a theulu Neville; lladdwyd Warwick a Montagu, meibion Iarll Salisbury. Charles Ross, *The Wars of the Roses*, 123. (Sylw R.T. Jenkins mewn darlith i'w ddsbarth yng Ngholeg Prifysgol Cymru Bangor, 20 Mai 1938, oedd, 'One beauty of the war was the people who were killed were the people who were responsible; a very wholesome war, the only sensible war in history.'))
- 42 **Beuno** Sant a lwyddodd, yn ôl traddodiad, i godi chwech (neu saith) o farw'n fyw. Yn ôl Pen 75, 21, *Llyma henwaw y rrai a gyvodes bevno o veirw i vyw / llorkan wyddel / Ael haiarn / deiniol vab /, deiniel varch dv o bywys / gwenfrewy / Tygiwc v'ch ynyr Gwent*. Pump a nodir yn 'Hystoria o Fuchedd Beuno', LIA 119–27, sef Llorcan Wyddel a'i wraig, Gwenfrewy, merch Ynyr Gwent, a'r gŵr yn Aberffraw. Gw. hefyd GHS 7.60n.
- 49–52 **Ei lun rhag ei elynion ...** Adeg ei angladd gwnaed *similitude*, sef delw o faint, pryd a gwedd Edward, a'i gwisgo mewn gwisg frenhinol gyda'r goron ar ei phen a'r deyrnwialen a'r orb yn ei dwylo. Safai hon wrth ochr yr elor yn Abaty Westminster, 17 Ebrill, gw. Charles Ross, *Edward IV*, 416. Y tebyg yw fod y bardd yn gwybod hyn, ac yn cysylltu'r ddelw â hen draddodiadau, neu gred gynnar y gallai gosod gweddillion arwr neu ddelw ohono yn y porthladdoedd gadw gelyn draw, gw. TYP² 88, *Tri Chud a Thri Datcud Enys Prydein: Penn Bendigeituran mab Llyr, a gladwyt yn y Gwynvryn yn Llundain. A hyt tra vei y Penn yn yr ansavd yd oed yno, ny do y Ormes byth y'r Enys hon; Eil, Esgyrn Gvertheuyr Vendigeit a gladwyt ym pryf byrth yr Enys hon ...* Ceir syniadau cyffelyb yn llên Iwerddon, *ib.* 90–1.

14

Gw. tt. 9–10 am ddilysrwydd ac awduraeth y cywydd hwn.

13–16 ... **yn bedwar prifwynt ... / Yn wyth asgellwynt** Cyfeiria GPC 221 d.g. *asgellwynt* at Pen 67, 28 *pedwar prifwynt a ffedwar asgellwynt*.

17–30 Cf. y llau. hyn â'r hyn a geir yn 'Canu y Gwynt' a briodolir i Daliesin, T 36 (ll. 23)–37 (ll. 22); dyfynnir o Thomas Parry, *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900* (Caerdydd, 1944), 28:

Dychymyg pwy yw: cread cyn dilyw;
 Creadur cadarn, heb gig, heb asgwrn,
 Heb wythau, heb waed, heb ben a heb draed ...
 Ef ym maes, ef yng nghoed, heb law a heb droed ...
 Ac ef yn gyfled ag wyneb tydwed,
 Ac ef ni aned, ac ef ni weled;
 Ef ar fôr, ef ar dir, ni wyl, ni welir ...
 Ef yn ddrwg, ef yn dda, ef hwnt, ef yma ...

Ymhellach ar ganu'r Cywyddwyr ar y thema hon, gw. DGIA 141–3.

- 27 **tudded** 'Gorchudd, gwisg', &c. a hefyd yn ffigurol, yn ôl proflen GPC; yr oedd 'pilen' yn orchudd, ac y mae'r ystyr yn gweddu yma, cf. 10.70n d.g. *gweren*.
- tau** Gw. GPC 3455 'yn perthyn i ti, dy ran di, eiddot (ti)'. Gw. eto ll. 51 isod.
- 29 **ni'th fedda** Naill ai 3 un.pres.myn. y f. *meddu* yn golygu 'rheoli, llywodraethu, ... bod yn drech (na)', &c., GPC 2394 d.g. *meddaf*^f, neu'r f. *baeddu* yn golygu 'curo, taro, ... dryllio, ... trechu, gorchfygu', *ib.* 248 d.g. *baeddaf: baeddu*.
- 51 **erddigan dau** Gw. ll. 27n uchod.

15

Gw. td. 10 am ddilysrwydd ac awduraeth y cywydd hwn.

- 19 **fflwch** A. ac iddo'r ystyron 'llawn, llwyr; helaeth, mawr', &c., GPC 1298, yma'n cryfhau'r a. *trwch*, cf. IGE² 412.
- 25 **Aleksander** Alecsander Fawr, 356–323 C.C., cadfridog pennaf yr hen fyd, OCD³ 57–9; un o'r naw concwerwr a restrid ym maes llafur y beirdd, gw. 29.27 a Dafydd Ifans, 'Nawwyr Teilwng Plas Bodwrda', Cylchg LIGC xviii (1973–4), 181–6.
- 29 **Ector** Mab hynaf Priaf, a'r dewraf o arwyr Caerdroea, OCD³ 673, TYP² 336–7; un arall o'r naw concwerwr, gw. ll. 25n.
- 31 **Arthur** Cynhwysir yntau ymhlith y naw, gan nodi iddo gael ei glwyfo ym mrwydr Camlan a marw o'r clwyf. Yr oedd y beirdd yn gwbl sicr ei fod wedi marw ac ni cheir sôn ei fod i ddychwelyd; nid enwir ef gan y brudwyr fel mab darogan, yr arwr a oedd yn mynd i ddychwelyd i arwain y genedl i fuddugoliaeth.
- 46 Er mwyn y gynghanedd rhaid ystyried *llwybyr* yn unsill, ond yn ddeusill er mwyn hyd y ll.

- 51–2 **Crist ni dderbyn ... / ... ond yn lân** Hyd yn oed wedi i'r sawl a oedd yn cyffesu wneud y cyfan a ofynnid ganddo, a chael maddeuant o'i bechodau a derbyn y sacrament, ni châi ollyngdod llawn nes ymwadu â'i hunan yn llwyr a gweithio dros eraill, ymroi i weithredoedd da a rhoi elusen, gw. isod llau. 55–60n.
- 55–60 Rhoi elusen oedd y rhinwedd bennaf yng ngolwg Eglwys y cyfnod, cf. 19.27–34, a gw. td. 22

16

Gw. tt. 10–11 am ddilysrwydd ac awduraeth y cywydd hwn.

- 6 **Mair yn oed morwyn** Yn ogystal â chyfeirio at ieuentid Mair, gall *yn oed* olygu 'yn ystod' (gw. GPC 2621 lle y rhoddir i'r cyfuniad yr ystyron '*during, in the course of, in the space of*', a cf. *yn oed dydd* 'yn ystod y dydd'); yr ystyr, felly, yw 'yn ystod ei morwyndod', a hithau'n dal yn forwyn. Cred Pabyddion a rhai Eglwysi Diwygiedig iddi barhau'n forwyn ar hyd ei hoes (Marina Warner, *Alone of All Her Sex: The Myth and Cult of the Virgin Mary* (London, c. 1976), 19), ei *bot yn wryr kynn esgor a gwedy esgor* (dyfyniad o Saunders Lewis, *Gramadegau'r Penceirddiaid* (Caerdydd, 1967), 11). Gw. hefyd GM 3 (ll. 2) *Morwyn yn ymdwyn* a Jane Cartwright, *Y Forwyn Fair, Santesau a Lleianod: Agweddau ar Wryryfod a Diweirdeb yng Nghymru'r Oesoedd Canol* (Caerdydd, 1999), 37–59.
- 17 **y gadair** Term cyffredin am orsedd nef.
- 28 **dy ddengair** Ai cyfeirio at anwybyddu'r deg gorchymyn, yn arbennig at beidio ag anrhydeddu Duw, drwy ei roi i farwolaeth? Nid yw'r cwpled ychwanegol y cyfeirir ato yn DN, 95 yn dilyn yn naturiol yma.
- 32–4 **Siesws Nasarenws ... / Recs ... / Siwdeorwm** Y teitl a roddwyd ar y groes, *Iesus Nazarenus Rex Iudaeorum*, 'Iesu o Nasareth Brenin yr Iddewon', gw. Io xix.19–20 a cf. Luc xxiii.38.
- 33 Y mae'r ll. hon sillaf yn fyr a chynnwys *r* berfeddgoll neu gamosodiad r.g = g.r.
- 35 **Och i'r adar ...** 'The allusion to the birds is obscure to me', DN 195—ac i minnau.
- 49–50 **A pheri'n gaeth uffern gau ...** Cyfeiriad at ysbeilio uffern. Tystia Credo'r Apostolion i Grist ddisgyn i uffern. Credid yn gynnar iawn (cyn 700 O.C.) i Gredo'r Apostolion gael ei lunio drwy i bob un ohonynt gyfrannu rhan o'i gred. Yn ôl Wiliam Cynwal (Bangor 5943, 169) cyfraniad Sant Tomos oedd *a ddyscynodd j vffern a gododd y trydydd dydd o farw j fyw*. Credid iddo afael yn llaw'r rhai cyfiawn a fu farw cyn

prynedigaeth, a'u dwyn i ogoniant tragwyddol wrth ei ochr yn y nefoedd, Marina Warner, *op.cit.* 320. Yn ôl Efengyl Apocryffaol Iago disgynnodd Crist i uffern a rhwymo Satan mewn cadwynau.

- 57 **bedydd** 'Y byd Cristionogol neu fedyddiedig, gwledydd Cred, pobl fedyddiedig', GPC 267.

17

Gw. td. 11 am ddilysrwydd ac awduraeth y cywydd hwn.

- 2 **brithfyd** 'Cythrwfl, cynnwrf, ... adfyd, trallod', GPC 327; gall *brith* / *braith* olygu 'amherffaith' neu 'amheus', *ib.* 326 (d.g. *brith*¹ (2)), cf. *aderyn brith* am gymeriad amheus.
- 21 Bai cynganeddol rhy debyg—ond nid ystyrif ef yn fai yn y 15g., gw. J. Morris-Jones: CD 303.
- 23 **i wyddfa weryd** Dau air bron yn gyfystyr: *gwyddfa* yn golygu 'beddrod', GPC 1755, a *gweryd* yn golygu 'pridd, ... bedd', *ib.* 1649 d.g. *gweryd*¹; i'w fedd yn y ddaear ddu yr â pawb.
- 29 **tri gelyn** Y byd, y cnawd a'r cythraul, cf. 20.2.
- 33 Rhaid cywasgu i gael yr hyd cywir.
- 49 **Yn saint ... cyn nos Iau** Y mae'r cyfeiriad yn dywyll.
- 53–6 **I ddall ...** Gw. Math xv.14 a Luc vi.39; gw. eto 28.12.

18

Gw. td. 11 am ddilysrwydd ac awduraeth y cywydd hwn.

Y mae llinellau 1–4 yn eisiau yn llawysgrifau D ac E, ond ar ddechrau'r cywydd, yn rhagflaenu llinell 5, ceir 42 llinell, gyda'r pennawd 'Cowydd i Dduw' yn llawysgrif D, a 'Cywydd i'r Byd' yn E, llinellau sy'n amlwg yn rhan o gywydd gwahanol.

- 1–4 Awgrymir mai rhediad y frawddeg yw, 'Henffych well Fair ddiwair, dda o rieni, mamaeth o rywogaeth rym Siesws (Iesu) [sy'n] wŷr i Anna a Sioasym (rhieni Mair)', neu fod *wŷr* yn golygu disgynnydd yn gyffredinol.
- 5 **seren nef** Awgrymwyd yn gynnar fod y ffurf Lad. *Maria* yn tarddu o'r gair Llad. *mar*, yn golygu 'môr'. Galwodd Sant Sierôm hi'n *stillis Maris*, 'defnyn o'r môr'; camgopiwyd hwnnw'n gynnar yn *stella maris*, 'seren y môr', a dyna deitl newydd a esgorodd ar lawer delwedd a

- darlun, a chysylltu'r Forwyn Fendigaid â'r sêr ac â seren y gogledd; gw. Marina Warner, *Alone of All Her Sex: The Myth and Cult of the Virgin Mary* (London, c. 1976), 262–3 a cf. GM 34 (ll. 11) *Morseren Iwyswen*, a GHS 21.29–30 *Yn Ebryw gloywder seren / Yn y môr yw enw Mair wen* (?Hywel Swardwal), ac *ib.n.*
- 33 **a'n medd** 'Sy'n ein rheoli', gw. 14.29n.
- 37 **Brenhines Nef** Yr oedd gwahanol hanesion am 'y modd yr aeth Mair i nef' yn gyffredin yn y dwyrain ac yn y gorllewin er yn gynnar iawn. Wedi ei dyrchafael edrychid arni fel brenhines ac fe'i darlunnid a choron ar ei phen, Marina Warner, *op.cit.* 103; *Regina caeli et terrae*, Saunders Lewis, *Gramadegau'r Penceirddiaid* (Caerdydd, 1967), 11.
- 40 **a ffrwyno ...** Y mae traddodiadau o'r dwyrain yn tystio i Fair naill ai gael mynd i uffern neu i uffern gael ei datguddio iddi er mwyn iddi weld dioddefiadau'r drwgweithredwyr a'r anghyfiawn. Galwodd ar Grist am faddeuant iddynt. Mewn ambell fersiwn y mae'n cael gollyngdod iddynt am gyfnod, mewn fersiynau eraill y mae'n crefu ar ei Mab am gael gweddïo dros bechaduriaid ac y mae yntau'n caniatáu hynny (gw. ll. 59). Marina Warner, *op.cit.* 321–2.
- 49–60 Yn y llau. hyn cyfeirir at y gred y byddai Mihangel, ar Ddydd y Farn, yn pwysu ein gweithredoedd yn y glorian. Ar un ochr byddai'r diafol yn ceisio tynnu'r badell gyda'r gweithredoedd drwg i lawr, ond ar yr ochr arall byddai Mair yn rhoi ei phaderau a'i llaswyr *ymysg y daioni* (ll. 58), y gweithredoedd da. Ceid portreadau o hyn, mewn lluniau a gwydr lliw, mewn eglwysi, e.e. yr oedd un yn Llangwstennin, yn hen eglwys Hanmer, a daeth gweddillion un i'r golwg yn Wrecsam yn gymharol ddiweddar. Gw. ymhellach Jane Cartwright, *Y Forwyn Fair, Santesau a Lleianod: Agweddau ar Wryfyddod a Diweirdeb yng Nghymru'r Oesoedd Canol* (Caerdydd, 1999), 65–70 *et passim*.
- 53 **o rym ddeuryw** Fel bod dynol gallai Mair gydymdeimlo â'n gwendidau, ond yr oedd iddi hefyd allu arbennig fel mam Duw.
- 59 **llaswyr** Trawsosodiad o *sallwyr* o'r Llad. *psalterium*, y Salmau, gw. GPC 2099 d.g. llaswyr¹, *ib.* 3174. Yn Eglwys Rufain defnyddid y gair hefyd am y 'gleiniau ... wedi eu llinynnu ynghyd a ddefnyddir i gyfrif gweddïau'r defosiwn hwnnw, rosari'. Edrychid ar yr Afe fel 'Sallwyr ein Harglwyddes', Marina Warner, *op.cit.* 306.

- 17 **gar union** Cymerir mai *gar* ‘coes’ sydd yma a bod y cyfuniad yn disgrifio un nad yw byth yn plygu glin i neb, sy’n ddeddf iddo’i hun. Posibilrwydd arall yw deall *gâr* yn ffurf dreigledig *câr*.
- 25–34 Gw. td. 22.
- 42 **i dre’r llynnoedd** Ni lwyddwyd i ddeall ystyr y cyfeiriad. Er mwyn y mesur rhaid ystyried *llanw* yn ddeusill oni ddarllenir *Drwy y llanw* gyda llsgrau. EK.
- 55–6 Tor mesur, y mae’r llau. yn rhy hir.

20

Gw. tt. 11–12 am ddilysrwydd ac awduraeth y cywydd hwn.

- 2 **i dri gelyn** Gw. 17.29n.
- 3 **udone’** Sef ‘anudonau’. A ellir cywiro’r testun yn *O’i gnawd ...?*
- 8 Cynganedd groes o gyswllt a’r *f*yn wreiddgoll.
- 13 **am wŷdd elawr** H.y. am farwolaeth; dyma’r hyn y dylid meddwl amdano ar y drydedd awr, yn ôl Llawdden, gw. Llawdden, &c.: Gw 83. Priodolir y cywydd hwnnw i Faredudd ap Rhys yn LIGC 695E, 28.
- 19 Cynganedd sain gydag odl yn unig.
- 22 **yn un hosan** Mor ddiymadferth fel na fedrent symud mwy na phe bai’r ddau droed yn yr un hosan. A oes yma gyfeiriad at y modd y byddid yn ‘diweddu’ corff cyn ei gladdu gan wneud yn siŵr na allai wneud dim drwg pellach? (Cf. mewn cyfnod diweddarach gwisgo ‘hosan garu’ cyn ‘caru yn gwely’.)
- 25 **gwialen** Torrid gwialen yr un hyd â’r marw i gael mesur ei fedd, yna cleddid y wialen gyda’r corff. Gw. Alwyn a Brinley Rees, ‘Gwialen Fesur’, B xiv (1950–2), 212–16.
- 28 **gwndwn** ‘Tir heb ei droi ers blynyddoedd, hendir, ... lle agored, gwastadedd’, gw. GPC 1772 d.g. *gwyndwn*, *gwndwn*, *gwyndon*. Yr awgrym yw fod y cyfan yn ddiffaith, ddiwerth.
- 37 **i’r mynydd** Sef i Fynydd yr Olewydd; yno, yn ôl cred gyffredin y cyfnod, y byddai’r Farn Fawr; gw. GIBH 6.77n.
- 39 **a’i weithred i’w dâl** Credid bod pechodau’n gadael marc ar yr enaid a hwnnw i’w weld ar y talcen. Er edifarhau a chael maddeuant a gollyngdod, cyn ennill nef rhaid mynd drwy’r purdan i buro’r enaid a dileu holl olion pechod. Gw. Eurys I. Rowlands, ‘Dydd Brawd a Thâl’, LICy iv (1956–7), 80–9, a nodyn Saunders Lewis, ‘Inc ar y Tâl’, *ib.* 177. Gw. hefyd 15.51–2n.
- 43 Cynganedd draws wreiddgoll ynteu draws bengoll?

- 45 **saith weithred** Saith Weithred y Drugaredd: rhoi bwyd i'r newynog, diod i'r sychedig, dillad i'r noeth, lloches i'r teithiwr, gofalu am y claf, ymweld â'r carcharor, a chladdu'r marw. Gw. td. 12 a GIBH 5.43–4.
- 47 Nid oes cynghanedd yn y ll. hon.
- 48 **clefrych cleifrion** Y rheswm am y nifer amrywiadau ar y ll. hon, o bosibl, yw ymgais i gael cynghanedd gywir. Gan Isgrau. N ac g yn unig y ceir y gair *clefrych*, ac ni ddigwydd *cleifrion* o gwbl. Ac eto, yr oedd y *clafr*, y gwahanglwyf, yn ddigon hysbys yn y cyfnod, ac y mae *clefrych* yn odli ag *edrych*; yna, os *clefrych*, gorffen y gynghanedd gyda *cleifrion*.
- 57 Cynghanedd draws wreiddgoll a chywasgu er mwyn hyd.

21

Gw. td. 13, ac am y cywyddau serch, gw. cerddi 21–4.

- 10 **olew** Ai cyfeiriad at 'olew eneinio', i gyfleu nad oedd dim gobaith?
- 29 **cwynroch** Tybed ai cyfuniad o *cwyn* + *rhoch* yn yr ystyr 'grudd gain sy'n peri ochenaid gwynfannus'?
- 30 **aur y moch** Ymadrodd dieithr, ond yn amlwg yn golygu rhywbeth diwerth.
- 40 **gwaith Cors Fochno** Yr oedd brwydr Cors Fochno yn un o arwyddion brud, gw. td. 18 a GDGor 6.61n.
- 41–2 **Aml gwraig ... / Ac anaml gŵr gwraig yma** Pan ddeuai'r mab darogan byddai gŵr y ferch wedi ymadael i ymuno ag ef a châi'r bardd ei gyfle; yr oedd amllder merched a phrinder dynion yn rhan o arwyddion brud.
- 41 **wmal a gra** *Gra* oedd yr enw am ffwr a ddefnyddid i addurno gwisgoedd, ac *wmal* neu *owmal* yw 'enamel', addurn ar wisg.

22

Gw. td. 13 am ddilysrwydd ac awduraeth y cywydd hwn.

- 11 **main San Tomas** Yn GPC 2308 d.g. *maen*¹ awgrymir 'maen cudd' fel ystyr bosibl i *maen Tomas*, a chyfeirio at GGI² 39 (XIV.38) a 134 (XLIX.61), a GLM 507. Cynnig golygydd GGI² yw mai gwall am *maen topas* ydyw. Esboniad arall sydd gan olygydd GLM. Yn yr enghreifftiau yn GGI² cyfeirir at *lamp* yn y gyntaf ac at *roi goleuad* yn yr ail, ac awgrym Eurys I. Rowlands yw y gallai *maen Tomas* olygu'r *Philosopher's Stone*, gan ddyfynnu o *Brewer's Dictionary of Phrase and Fable*: 'According to one Fable, Noah was commanded to hang up

the true and genuine philosopher's stone in the ark, to give light to every living creature therein' (dyfyniad o argraffiad Llundain, 1983, 859). Digwydd y gair *lamp* yma hefyd, ll. 9. Yr hyn a awgrymir yw goleuni neu ddisgleirdeb, gw. ll. 30 isod.

- 12 **Enid** Gwraig Geraint fab Erbin, *a diau oedd ganddo na welsai erioed un forwyn gyflawnach o amler pryd a gosgedd a thelediwrwydd na hi*, WM 197, col. 393 (diweddarwyd yr orgraff).
- 21 **Maelawr** Cynefin Maredudd ap Rhys, gw. 8.3n.
- 23 **myn Dwynwen** Merch Brychan Brycheiniog a nawddsant eglwys Llanddwyn, Môn. Mewn cyfnod diweddarach edrychid arni fel nawddsant cariadon; yn y 15g. ei gallu i iacháu a oedd yn bwysig, a chyrchai cymaint at ei bedd, lle'r oedd delw ohoni 'a choler aur ar ei chlog', fel mai Llanddwyn oedd un o gyrchfannau pererindota cyfoethocaf Cymru adeg dadwaddoli'r mynachlogydd. Gw. GLGC 461 (212.29–32); Hywel Rheinalt, Pen 55, 61–4; Syr Dafydd Trefor, Irene George, 'The Poems of Syr Dafydd Trefor', AAST, 1935, 100.
- 26 **Eiddig** Gw. 3.66n.
- 44 **llawfaeth llog** Un dof wedi ei logi.
- 45 **anuniawn** Tybed ai tarddair o *annun*, *anhun* 'diffyg cwsg', GPC 125?
- 47 **Uthr Bendragon** Brenin Prydain. Yn ôl Sieffre o Fynwy syrthiodd Uthr Bendragon gymaint mewn cariad ag Eigr, gwraig Gorlois Iarll Cernyw, fel na allai feddwl am ddim arall, ac yr oedd Gorlois yn ei gwarchod yn gaeth. Drwy hud a lledrith Myrddin rhoddwyd pryd a gwedd Gorlois ar Uthr, llwyddodd i fynd at Eigr ac ymgaru â hi heb iddi amau dim; o'r gyfathrach honno y ganwyd Arthur. Gw. ymhellach TYP² 520–3; CLC² 744; WCD 636–7 a GGL1 11.36n.
- 50 **Eigr** mam Arthur, gw. uchod ll. 47n a hefyd 1.22n a 23.17n.
- 52 **Merddin** Gw. uchod ll. 47n a 7.17n.
- 62 **flwyddyn yn flaidd** Cyfeiriad at chwedl 'Math fab Mathonwy'. Wedi i Gilfaethwy, gyda chymorth hud a lledrith Gwydion, dreisio Goewyn, troedfainc Math, yn gosb arnynt trodd Math Gilfaethwy a Gwydion am flwyddyn ar y tro yn geirw, baeddod a bleiddiaid, gan gyfnewid rhyw ac epilio. PKM 74–7.

Gw. td. 13 am ddilysrwydd ac awduraeth y cywydd hwn.

- 13 **yrhod** Sef 'rhyngot', gw. GPC 3108 d.g. *rhwng*, *yrhwng*. Gellid aralleirio'r cwpled, 'Y mae rhyngot ti ... a sarugyn ragor.'

- 15 **hil Dewdwr** O waed neu natur tywysogaidd. Prin y dylid cymryd hyn yn llythrennol, bod y ferch yn disgyn o Rys ap Tewdwr, brenin Deheubarth (*ob.* 1093), disgynnydd i Hywel Dda, ByCy 790.
- 17 **Eigr** Gw. 1.22n a 22.50n. *Pryt y wreic honno hagen a'e thegvch a orchyuygei holl wraged enys Brydein*, BD 136.
- 18 **wtresud** Ffurf 2 un.amhff.myn. y f. *wtresu* 'gwledda'n foethus', o'r e. *wtres* (o'r S. *outrage*, EEW 169).
- 20 **deddyw** Hen ffurf 3 un.prff.myn. *dyfod*.
- 21 **niwr** Cywasgiad o *ni wŷr*, gw. GPC 2586.
- 25 **milain y brain** Daw *milain* o'r S. *villein* 'dihiryn, dyn ysgeler'.
- 27 **Bronwen** Y tebyg yw bod ar un adeg fersiwn gwahanol i ail gainc y Mabinogi. 'Bronwen, merch y brenin mawr', meddai Siôn Phylip, GST i, 504 (128.12), a digwydd y ffurf *Bronwen* yn PKM 32 (nodyn td. 174). Awgryma Rachel Bromwich, TYP² 287, mai *Bronwen* oedd y ffurf wreiddiol ond i'r enw gael ei newid i gydweddu â *Brân*. Tuedda Proinsias Mac Cana i gredu y geill *Bronwen* fod yn perthyn i ffurf a thraddodiad hŷn na PKM, gw. *Branwen Daughter of Llŷr*, ed. Proinsias Mac Cana (Cardiff, 1958), 154–5. *Tŵr Bronwen* yw enw un o dyrau Castell Harlech, a *Cadair Bronwen* yw'r enw ar un o fynyddoedd y Berwyn.
- 29 **Eiddig** Gw. 3.66n.
- 39 **y'm cweiriwyd** 'Fe'm triniwyd yn greulon'; gw. GPC 830–1 a cf. GDG³ 336 (126.31–2) *Cares, drwg y'm cyweirwyd, / Cu aran, balf lydan lwyd*.

24

Gw. td. 13 am ddilysrwydd ac awduraeth y cywydd hwn.

- 27 **Buellt** Gw. WATU 23 a 242. Y mae'r cyfeiriad yn dywyll. A fu rhyw storm enbyd o fewn cof (ym Muellt, efallai) a achosodd dân a mwg?
- 28 **timpr** Ai o'r S. *timbre*? Yn OED² ceir bf. *timbre* 'to play on a timbrel' (sef offeryn taro o ryw fath). Gallasai hynny gyfeirio at daran. Yn noethineb cefn gwlad y daran yw'r perygl, nid y fellten.
- tamprau** Ffurf l. *tampr* 'tapr, kannwyll gŵyr fain', GPC 3435.
- 32 **cerlraith** A ellid cyfuniad o *cer(dd)* + *llraith*?
- 36 I gael saith sillaf rhaid ynganu *bwrw* a *wybr* yn unsill.
- 42 **rhugl groen** 'Cwdyn o groen neu bledren yn cynnwys pys, cerrig mân, &c., a ddefnyddir fel ratl, clap (adar, &c.)', GPC 3104; GDG³ 535.

- 47 **croglam** Byddai'r darlleniad *Creglef*, *Creglais* neu *Cryglais* (gw. llsgrau. CGJ) yn ategu doethineb cefn gwlad (gw. ll. 28n). A allai'r ail elfen *llam* gyfleu atsain twrw'r daran yn taro'r creigiau a'r sw'n yn hofran uwchben?

25

Gw. td. 14, ac am y canu brud, tt. 13–15, 17–20.

Un ffordd o gynnal ffydd a gobaiith oedd canu cywydd ymddiddan rhwng y bardd a'r llyfr brud; y bardd yn cymryd arno achwyn ar y llyfr a'r llyfr yn ateb. Y mae'n bwysig iawn cadw ffydd yn y llyfr brud, meddai Llywelyn ap Cynfrig Ddu o Fôn, mewn cywydd sy'n dechrau, *Kyfriw ardal kywirdeb* (BL Add 31057, 44 ac 115^v). Yr ateb a roddodd Robin Ddu yng ngenau'r llyfr brud oedd, *Nid aeddfed y planedau / Nid doeth mo'r ymddiddan tau* (Bangor (Mos) 10, 15; Bangor 1267, 83^v).

- 2 **Brytaniaid** Y Brythoniaid, sef y Cymry, gw. td. 17.
- 3 **Camber** Cymeriad chwedlonol; yn ôl Sieffre o Fynwy ef oedd ail fab Brutus (gw. td. 17 a 28.47); pan fu farw ei dad etifeddodd y rhan o Brydain a alwyd ar ei enw ef, *Cambria*, gw. BD 21.
- 5 **hyfr** Bwch gafr; llyfr a'i glawr o groen gafr a hwnnw wedi malu.
- 10 **i ddiawl Gwent** Ai Wiliam Herbert, Gwilym Gwent? Yr oedd yn chwarae'r ffon ddwybig â'i lygad ar y fantais. Plaid Lancastr a'i hurddodd yn farchog. Cyfeiria Lewys Glyn Cothi ato fel un o gefnogwyr selog Siasbar Tudur (GLGC 249 (111.35)) mor ddiweddar â Mehefin 1460, WWR² 61–71. Nid yw'n glir pam y newidiodd ochr.
- 13 **Merddin** Gw. 7.17n.
- 14 **llawdr crwth** Ystyr *llawdr* yn ôl GPC 2106 yw 'trowser, trowsus, clos, brits, coeswisg, hefyd yn *dros*'. A allai olygu gorchudd neu fag? Ar amrywiol ystyron *crwth* ('hen offeryn cerdd', 'crwca', &c.), gw. *ib.* 616.
- 21 Rhaid cambwysleisio i gael cynghanedd draws fantach.
- 23 **bragod bregeth** Defnyddir y gair 'bragod', sy'n golygu diod gymysg, yn ffigurol yma i gyfeirio at natur gymysglyd y bregeth.
- 24 **Gwion Bach** O Lanfair yng Nghaereinion a osodwyd gan y dduwies Ceridwen i wyllo'r pair oedd yn paratoi'r defnyn oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth. Disgynnodd y defnyn ar fys Gwion, rhoes yntau ei fys yn ei geg a chael yr wybodaeth. Gw. 10.6n am barhad yr hanes a'r ffynhonnell.

- 34 **portas** 'Llyfr gwasanaeth cludadwy a ddefnyddid yn yr Eglwys yn yr Oesoedd Canol', gw. GPC 2853 d.g. *portias, porteos, portas*.
Adda Fras Gw. 5.2n.
- 64 **yr R a'r I** Rhisiart yw *R* ac Iorwerth (Edward) yw *I*; cyfeiriad, y mae'n debyg, at Risiart, Dug Efrog, a laddwyd ym mrwydr Wakefield, 1460, a'i fab Edward (Iorwerth) a ddaeth yn frenin Edward IV, 1461. Yr oedd defnyddio llythyren gyntaf enw i gyfeirio at gymeriad yn arfer digon cyffredin, cf. 26.11–12 a 28.1. Ar *I*, gw. hefyd GDGor 1.25n.
- 65–70 Arwyddion traddodiadol brud, gw. td. 18.
- 67 **tân ym Manaw** Ymhellach ar yr arwydd brud 'tân ym Manaw', gw. GDGor 2.26n.
- 69 **pe llosgai Ddulyn** Un arall o'r arwyddion brud oedd 'llosgi Dulyn', cf. isod 26.55, a gw. td. 18a GDGor 7.41–2.
- 81 **lledlith** Ai 'llith wael'? Cf. *llediaith* (iaith heb fod yn gywir) a *llepan* (hanner pan, rhywun heb fod yn llawn llathen).

26

Gw. td. 14 am ddilysrwydd ac awduraeth y cywydd hwn.

- 5–6 **Chwarae glew ... / ... rhwng y ddau Sais** Gallai hyn gyfeirio at frwydr Towton, yn swydd Efrog, a ymladdwyd Sul y Blodau, 29 Mawrth 1461, lle y bu lladdfa erchyll. Plaid Iorc a enillodd; ffodd y frenhines (ll. 8 isod) a'r brenin Harri VI i'r Alban. Gw. ymhellach 27.25–8.
- 8 **Fflwr-ddllis** Margaret o Anjou, brenhines Harri VI; cyfeirid ati hefyd fel y *lili* (e.e. GGI² 158 (LIX.35)) am fod *fleur-de-lis* yn un o'i harwyddion.
- 11 **H, E** Harri VI yw *H* ac Edward IV yw *E*; yr oedd Edward wedi ei gyhoeddi'n frenin yn lle Harri ar 4 Mawrth 1461. Am ddefnyddio llythyren gyntaf enw, cf. 25.64n a 28.1.
- 20 **llam y rhwyd** Golyga *llam* 'ffawd ... siawns ... (an)ffortun', hefyd 'mesur hyd, sef pum troedfedd', gw. GPC 2091–2. Ai'r ystyr yw y bydd rhai'n ffortunus? Ai symbol o gaethiwed yw'r rhwyd tra disgwylir am y mab darogan? Cf. Dafydd Llwyd, *Pan êl y rhyfel i'r rhwyd, / Llu'r neidr, lloerwen ydwyd*, gw. Leslie Richards, 'Cywyddau brud Dafydd Llwyd ap Llywelyn ap Gruffudd o Fathafarn', LICy ii (1952–3), 252.
- 21–6 Cyfeiriad, efallai, at waith Edward IV yn ailfathu arian 1464–5 oherwydd prinder mawr aur ac arian yn y wlad. Cafwyd darnau cain, a chafodd y brenin elw mawr oherwydd y dibrisio, e.e. yn lle gwneud 360 ceiniog o bwys o arian ceid bellach 450: 'It was in fact the most drastic

devaluation of the English coinage since the introduction of bimetallism in 1343', Charles Ross, *Edward IV* (London, 1974), 377. Yn llawysgrif William Jones, Dolhywel, Llangadfan (ar un adeg yn eglwys y plwy, bellach yn y Llyfrgell Genedlaethol), ymhlith cyfres o englynion cof sy'n mydryddu dyddiadau ceir:

Mil a phedwarcant medd Maelor—a thrigain
Y caf ddrygau Wigmor
Treth amal cyn tri thymor
Y troes im iarll tros y môr. 1460

30 Camacennu.

34 **y fôr-forwyn** Yr oedd iddi ei rhan yn mynegi dyfodiad y mab darogan, gw. td. 18 a GDGor 1.35n.

35–74 **Digwydd y llau.** hyn yn LIGC 13063, 48^v, gydag enw Robin Ddu wrthynt.

39 **eiry yw'r hanes** Mewn storm enbyd o eira yr ymladdwyd brwydr Towton, gw. llau. 5–6 uchod.

42 **euro rhos ar yr haul** Yn ystod brwydr Mortimer's Cross, heb fod ymhell o Lwydlo, ddechrau Chwefror 1461, lle y trechodd Edward Mortimer (Dug Iorc ac Iarll y Mers) y Lancastriaid yn llwyr, gwelwyd tri haul yn yr awyr uwchben Wigmore, prif lys y Mortmeriaid, a'r tri'n toddi'n un. Cymerodd Edward hyn yn arwydd o ffafr Duw, a chynnwys y *sunburst*, y 'rhos ar yr haul', ymhlith ei arwyddion pennaf. Wedi'r fuddugoliaeth hon y daeth Edward yn frenin.

43–4 **haf ... / Melyn hir** Yr oedd yr 'haf hirfelyn' yn un arall o'r arwyddion brud, gw. GDGor 4.41–2n.

44 **herwyr** Gw. td. 19; cf. hefyd *gwylliad*, 29.18n.

48 **tarw** Un o arwyddion brud am y mab darogan.

49 **Badd** Un o arwyddion brud, gw. td. 18a ll. 54 isod.

[y] **Wadd** Yn nes ymlaen Rhisiart, Dug Caerloyw (Rhisiart III, 1483–5), brawd iau Edward, a olygid wrth y *wadd*, td. 18 a GDGor 2.35n, ond y mae hyn braidd yn gynnar.

50 **Arth ... ar wrthol** Fel rheol Iarll Warwig (Richard Neville, a laddwyd ym mrwydr Barnet, Sul y Pasg, 1471) a olygir wrth yr *arth*, oherwydd ei arwydd 'the bear and the ragged staff', td. 18 a 6.27n. Yn ail firwydr St. Albans, 1461, fe'i gorchfygwyd gan y frenhines. Yn ddiweddarach aeth pethau'n ddrwg rhyngddynt, gw. 28.18n.

52 **Rhys ap Rhys** Ai rhywun arbennig ynteu enw cyffredin i'w gymryd yn gyffredin (cf. John Jones neu John Smith)? Yr awgrym yma yw rhywun na ellir bod yn sicr o'i deyrngarwch. Gall fod yma chwarae ar eiriau *rhus* yn golygu rhwystr neu ofn. Gw. 8.13, 14.19, 28.24 a 48.

- 55 **poethi Dulyn** Gw. 25.69n.
- 59 **treth hir** Codwyd trethi sylweddol i baratoi ar gyfer cyrch arfaethedig Edward IV i Ffrainc 1472–3 a 1473–8, Charles Ross, *Edward IV* (London, 1974), 215. Gw. hefyd lau. 21–6 uchod.
- 61 **cwyredd** Cyn o gŵyr, fydd yn gwbl ddiwerth, fydd ar arweinwyr y byd drwg a ddarogenir. I'r gwrthwyneb, gw. 27.59 am Edward IV.
- 63 **Bedwen ... Pumlumon** Cyferchir hi, *Gwyn ei byd hi y fedwen ym Mhumlumon*, yn ail yng nghyfres 'Y Bedwenni', yn LIDC 25 (15.9).
- 64 **maen yn Aberffro** Y mae'r cyfeiriad yn dywyll.
- 66 **mig** *Chwarae mig* yw chwarae 'pî-po', gw. GPC 843. Gw. ymhellach *ib.* 2452 d.g. *mic*¹, *mig*¹ 'sbeit, malais, soriant; peth dibwys, ychydigyn'. Ceir *n* heb ei hateb dan y brifodl.
- 73 **Ceillog ... o Fôn** Gallai gyfeirio at Siasbar Tudur, Iarll Penfro, mor gynnar â'r chwedegau; byddai ef hefyd yn *gleddau'r Deau*, ll. 75 isod. Y mae'n rhy gynnar i gyfeirio at Rys ap Tomas.
- 74 **Brytaniaid** Gw. 25.2n.
- 76 **llew o Frytaen** Ai o Lydaw? Ffodd Siasbar Tudur i Lydaw yn 1464 (o Fostyn, yn ôl traddodiad), ac wedi cwmp Harlech, 1468; yn 1471 hwyliodd am Lydaw a'i nai, Harri Tudur, i'w ganlyn, WWR² 91–2, 101, 115.
- 77 **llew arall o'i orwedd** Rhyw arwr a oedd yn mynd i ddychwelyd; un o arwyddion brud, gw. td. 18.

27

Gw. td. 14. Canodd Dafydd Gorlech yntau gywydd brud ar ffurf ymddiddan â chigfran, gw. GDGor cerdd 7.

- 4 **rhugl groen** Gw. 24.42n.
- 5 Ceir yma fai crych a llyfn mewn cynghanedd sain.
- 7 **Gwyddeles** Gw. 1.13n.
- 10 **pobl is dwfn** Tarddair o *annwfn*, y byd mewnol, GDG³ 449n17; 'byd arall y Cymry cyntefig'; gair y 'daethpwyd i'w arfer am uffern', PKM 99.
- 18 **cwrrog** Ai yn yr ystyr 'cawell, caets', GPC 648?
- 19 **mwyardwf liw** Cf. y gair *mwyargod* a ddefnyddiodd Dafydd Gorlech i ddyfalu'r gigfran, GDGor 7.3.
- 20 **môr-löyn** Du fel y glo a gludid dros y môr, cf. *morlo mud* IGE² 84 (XXVIII.4), GIG 76 (XVI.68) ac *ib.* 279n68.

- 22 **Iddewes** Ystyr ddifriol, cf. *Gwyddeles* uchod ll. 7n.
- 26 **Ysgotland ac England** Ai cyfeiriad at frwydr Towton, swydd Efrog, Sul y Blodau, 29 Mawrth 1461? Hon oedd brwydr fwyaf gwaedlyd y gwrthryfel. Yr oedd storm eira'n chwythu i wyneb byddin y Lancastr-iaid gan beri iddynt anelu'n ddall. Wedi dioddef saethau byddin Iorc rhuthrasant i lawr y bryn a brwydro'n ffyrnig drwy'r dydd. Bu lladdfa mor erchyll, yn arbennig ymhlith y Lancastriaid, nes difa'r blaid yn y gogledd. Ffodd y frenhines a'r brenin i'r Alban. Gw. Charles Ross, *Edward IV* (London, 1974), 36–8.
- 27 **egwydfin** Y mae'n amlwg i'r gair fod yn broblem i'r copiwr, a chafwyd gwahanol gynigiadau, gw. yr amrywiadau. Ymhlith ystyron *egwyd* yn GPC 1180 ceir 'llyffethair ... hual'; gellid aralleirio'r cwpled: 'Canlyn (un y mae ei cheg/pig yn hual/llyffethair i fwyd gwaedlyd wyf) / Llu mawr, ni bu well fy mwyd.'
- 37–8 **Blin yw ceisio ... / Blwyddyn o newyn i ni** Yr oedd gafael Edward yn sicrach wedi buddugoliaeth Towton a gellid disgwyl mwy o heddwch—ac o newyn i'r gigfran.
- 59–62 **Tarw ag aur teg ... a chadarn yw braich Edwart** Awgrym y bydd popeth yn dda wedi dyrchafu Edward yn frenin yn lle Harri VI; meddiannodd y frenhiniaeth ym mis Mawrth 1461, ac fe'i coronwyd ar 28 Mehefin.
- 59 Twyll gynghanedd g.
- 60 **Ynys y Cedyrn** Prydain. Un ystyr i *cadarn* (ll. *cedyrn*) yn GPC 376 yw 'gŵr galluog, grymus, rhyfelwr, cawr (yn enw. yn yr enw *Ynys y Cedyrn*)'. Am darddiad yr enw, gw. BD 19 (llau. 12–13): pan gyrhaeddodd Brutus i'r Wen Ynys, sef Prydain, *diffeith oed eithyr ychydig o kevri yn y kyvanhedu*.

28

Gw. td. 14, ac am awdur cerddi 28–30, Syr Rhys o Lanbryn-Mair a Charno, tt. 6–8.

- 1 **iaith** Yn yr ystyr 'corff o bobl sy'n siarad yr un iaith, pobl, cenedl', gw. GPC 1999 a cf. ll. 36n isod.
I Am Iorwerth (Edward), cf. 25.64n a 26.11n.
- 2 **Harri** Harri VI, a ddiorseddwyd ym mis Mawrth 1461, gw. hefyd ll. 14n isod.
- 3 **Rhonwen hil** Rhonwen, cymeriad chwedlonol, merch hardd Hengist, arweinydd y Saeson cynnar. Fel rhan o'i gynllwyn i orchfygu Gortheyrn gwahoddodd Hengist ef a'i ddilynwyr i wledd; yno ymlanwodd

Gortheyrn o gariad Rhonwen, a phan oedd ef a'i ddilynwyr wedi meddwi gofynnodd i Hengist am law Rhonwen gan addo rhoi iddo unrhyw beth y gofynnai amdano. Gofynnodd Hengist am swydd Gaint, ac felly y cafodd y Saeson gyfle i sefydlu, BD 94–5. Golyga 'Rhonwen hil' y Saeson twyllodrus. Gw. ymhellach J.E. Caerwyn Williams, 'Ronwen; Rhawn Gwynion', B xxi (1966–8), 301–3.

- 4 **rheol Sisil** Ai Seisyll (Sisillius), un o frenhinoedd chwedlonol Prydain yn y cyfnod cyn Crist? Yn ôl Sieffre o Fynwy saith oed oedd pan fu farw ei dad, a'i fam, Marsia, a oedd yn rheoli drosto am gyfnod. *A'r wreic honno o'e hethrylieth a dechymygyvs kyureith a alwei y Brytanneit Kyureith Marcia. A'r gyureith honno a ymchuelvs Aluryt urenhyn o Gymraec yn Saesnac*, BD 40–1. Yn ôl J.S.P. Tatlock, *The Legendary History of Britain: Geoffrey of Monmouth's Historia Regum Britanniae and its early vernacular versions* (Berkeley, 1950), 23, lluniodd Sieffre'r cymeriad o *lex Marciana*, sef cyfraith gwŷr Mercia.
- 6 **draig wen** Yr oedd y stori am ddatguddio'r ddwy ddraig yn Ninas Emrys (ger Beddgelert) yn hen draddodiad pan gynhwysodd Nennius hi yn ei 'Historia Brittonum', c. 930 O.C. Ymladdodd y ddwy ddraig yn ffyrnig; am ysbaid y ddraig wen, draig y Saeson, a oedd yn trechu, ond o'r diwedd y mae'r ddraig goch, draig y Cymry, yn ymwroli, yn casglu ei nerth ac yn difa'r ddraig wen. Gw. CLC² 198–9 a'r cyfeiriadau yno a cf. GDGor 2.25n.
- 12 **Â'r dall yn twyso'r deillion** Gw. Math xv.14 a Luc vi.39; cf. 17.53–6n.
- 14 **ŵyr Harri hen** Harri VI, fab Harri V, ac ŵyr Harri IV. Trowyd Harri VI o'r frenhiniaeth Mawrth 1461 (ll. 16) pan feddiannwyd hi gan Edward. Gw. hefyd ll. 18n.
- 18 **ei roi'n ei le** Hydref 1470, yn dilyn cyfnod ansicr iawn. Wedi trechu Edward IV rheolodd Warwick yn ei le o Orffennaf hyd Hydref 1469; alltudiwyd Warwick Ebrill 1470, yna, fis Hydref, bu raid i Edward ffoi o'r wlad ac adferwyd y goron i Harri VI. Charles Ross, *Edward IV* (London, 1974), 126.
- 20 **a'i fab** Edward, tywysog Cymru; fe'i lladdwyd ym mrwydr Tewkesbury, 1471.
- 22 **y sant** Harri VI.
- 24 **rhosyn** Y rhosyn coch oedd bathodyn plaid Lancastr. Am drafodaeth ynglŷn â dilysrwydd hyn, gw. Charles Ross, *The Wars of the Roses* (London, 1976), 11–15.
- 26 **S hir** Yn y llun adnabyddus o Harri VI y mae'n gwisgo cadwyn helaeth yn cynnwys dolennau S hir a gemau bob yn ail. Charles Ross, *op.cit.* 23.

- 29 **cywirdant** Ffurf amrywiol ar *cyweirdant*, sef ‘y tant y cyweirir telyn wrtho’ ac yn ffigurol, ‘safon, maen prawf’, gw. GPC 830.
